



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

38/2024

DYDDIAD CYHOEDDI:

25/07/2024

Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022

Adroddiad Dadansoddol

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-010-4

Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022 Adroddiad Dadansoddol

Lorna Adams, Guido Miani a Sam Selner

IFF Research Ltd

Rhys Davies

WISERD, Prifysgol Caerdydd

Adams L., Davies R., Miani G. a Selner S. (2024). *Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022 Adroddiad Dadansoddol* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 38/2024:
Ar gael yn <https://www.llyw.cymru/arolwg-cyfranogwyr-cronfeydd-strwythurol-ewropeaidd-2015-i-2022>

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â

Richard Self

Ymchwil, Monitro a Gwerthuso

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: gwerthuso.ymchwil@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr tablau.....	2
Rhestr ffigurau	5
Geirfa.....	6
1. Cyflwyniad	7
2. Y Fthodoleg.....	14
3. Pwy yw'r Cyfranogwyr?	28
4. Cymryd rhan mewn Gweithrediad ESF	35
5. ESF a Chronni Sgiliau	44
6. Gwella Cyfranogiad yn y Farchnad Lafur	53
7. Effaith ESF o ran Cefnogi Cyfranogiad mewn Cyflogaeth.....	75
8. Cefnogi Dilyniant mewn Cyflogaeth	102
9. Casgliadau ac argymhellion	120
10. Cyfeiriadau	129
Cyfraddau Ymateb	131
Atodiad A: Tablau data.	139
Atodiad B: Yr holiadur llawn a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ail gyfnod gwaith maes (2022-23)	178

Rhestr tablau

Tabl 1.1: Mapio amcanion thematig i Echelinau Blaenoriaeth ac Amcanion Penodol.....	9
Tabl 1.2: Blaenoriaethau ESF a'r newidiadau cysylltiedig a geisir	10
Tabl 2.1: Dyddiadau Samplu a Gwaith Maes	15
Tabl 2.2: Crynodeb o'r holiadur	19
Tabl 2.3: Cyfraddau ymateb wedi'u haddasu ar gyfer cyfnod y gwaith maes cyntaf (2018-19)	21
Tabl 2.4: Cyfraddau ymateb wedi'u haddasu ar gyfer yr ail gyfnod gwaith maes (2022-23)	23
Tabl 2.5: Newidynnau pwysoli.....	23
Tabl 2.6: Disgrifiad ac ymdriniaeth o Amcanion Penodol	25
Tabl 3.1: Nodweddion personol cyfranogwyr ESF	30
Tabl 3.2: Statws gweithgarwch economaidd cyn ESF	34
Tabl 4.1: Cymryd rhan mewn gweithrediad ESF	36
Tabl 4.2: Ymhle y daethpwyd i wybod am ESF gyntaf	40
Tabl 4.3: Siaradwyr Cymraeg ac iaith y ddarpariaeth fesul awdurdod lleol.....	42
Tabl 4.4 Effaith pandemig COVID-19 ar y ddarpariaeth.....	43
Tabl 5.1: Cymwysterau a enillwyd o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithrediad ESF:	45
Tabl 5.2: Lefelau cymhwysterau cyn ac ar ôl ymgymryd â gweithrediad ESF	47
Tabl 5.3: Sgiliau a enillwyd o ganlyniad i gefnogaeth yr ESF	51
Tabl 6.1: Amser ers y swydd ddiwethaf:	54
Tabl 6.2: Anawsterau o ran dod o hyd i waith	57
Tabl 6.3: Statws gweithgarwch economaidd chwe mis ar ôl cefnogaeth ESF	66
Tabl 6.4: Gweithgarwch economaidd ar adeg yr arolwg	67
Tabl 6.5: Nodweddion cyflogaeth gyfredol:	70
Tabl 6.6: Yr anawsterau parhaus o ran dod o hyd i waith	72
Tabl 6.7: Effaith pandemig COVID-19 ar ddilyniant ar ôl cefnogaeth ESF	73
Tabl 6.8: Sut yr effeithiodd pandemig COVID-19 ar y dasg o chwilio am gyflogaeth	74
Tabl 7.1: Helpodd y cwrs o ran cael cyflogaeth.....	76
Tabl 7.2 Effaith y cwrs a'r cymhwyster a enillwyd	79
Tabl 7.3: Cymharu Ccfraddau cyflogaeth y bobl a gynorthwywyd gan weithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar.....	82
Tabl 8.1: Cyflogaeth cyn cefnogaeth ESF:.....	103
Tabl 8.2: Cyflogaeth chwe mis yn ar ôl cymryd rhan mewn gweithrediad ESF	105
Tabl 8.3: Gwelliannau mewn nodweddion swyddi.....	110

Tabl 8.4: Gwelliannau yn ansawdd swyddi ers cefnogaeth ESF:.....	112
Tabl 8.5: Gwelliannau yn ansawdd swyddi a'r cymhwyster a enillwyd	113
Tabl 8.6: Effaith cefnogaeth ESF ar ennill y swydd bresennol	115
Tabl 8.7: Effaith pandemig COVID-19 ar ddilyniant	118
Tabl 8.8: Sut yr effeithiodd pandemig COVID-19 ar ddilyniant cyflogaeth	119
Tabl R.1: Cyfraddau ymateb fesul gweithrediad ar gyfer y cyfnod gwaith maes cyntaf (2018-19).....	131
Tabl R.2: Cyfraddau ymateb fesul gweithrediad ar gyfer yr ail gyfnod gwaith maes (2022-23)	135
Tabl A.1A: Cymryd rhan mewn Gweithrediad ESF Is-grwpiau poblogaeth	139
Tabl A.1B: Rhesymau dros ymgymryd â gweithrediad ESF: Nodweddion gweithrediadau	140
Tabl A.2A: Cymwysterau a enillwyd drwy gymryd rhan mewn gweithrediad ESF: Is-grwpiau poblogaeth	141
Tabl A.2B: Cymwysterau a enillwyd drwy gymryd rhan mewn gweithrediad ESF: Nodweddion gweithrediadau	142
Tabl A.3A: Lefelau cymhwyster cyn ac ar ôl cefnogaeth ESF: Is-grwpiau poblogaeth.....	143
Tabl A.3B: Lefelau cymhwyster cyn ac ar ôl cefnogaeth ESF: Nodweddion gweithrediadau	144
Tabl A.4A: Amser ers y swydd ddiwethaf: Is-grwpiau poblogaeth.....	145
Tabl A.4B: Amser ers y swydd ddiwethaf: Nodweddion gweithrediadau	146
Tabl A.5A: Anawsterau o ran dod o hyd i waith Is-grwpiau poblogaeth	147
Tabl A.5B: Anawsterau o ran dod o hyd i waith Nodweddion gweithrediadau	148
Tabl A.6A: Statws gweithgarwch economaidd 6 mis ar ôl cefnogaeth ESF: Is-grwpiau poblogaeth	149
Tabl A.6B: Statws gweithgarwch economaidd 6 mis ar ôl cefnogaeth ESF: Nodweddion gweithrediadau	150
Tabl A.7A: Statws gweithgarwch economaidd ar adeg yr arolwg: Is-grwpiau poblogaeth .	151
Tabl A.7B: Statws gweithgarwch economaidd ar adeg yr arolwg: Nodweddion gweithrediadau	152
Tabl A.8A: Nodweddion cyflogaeth gyfredol: Is-grwpiau poblogaeth	153
Tabl A.8B: Nodweddion cyflogaeth gyfredol: Nodweddion gweithrediadau	155
Tabl A.9A: Effaith pandemig COVID-19 ar ddod o hyd i gyflogaeth: Is-grwpiau poblogaeth	156

Tabl A.9B: Effaith pandemig COVID-19 ar ddod o hyd i gyflogaeth: Nodweddion gweithrediadau	157
Tabl A.10A: Cwrs wedi helpu o ran cael cyflogaeth: Is-grwpiau poblogaeth	158
Tabl A.10B: Cwrs wedi helpu o ran cael cyflogaeth: Nodweddion gweithrediadau	159
Tabl A.11: Oriau gwaith ymhlith y rhai sy'n mynd i gyflogaeth	160
Tabl A.12A: Canlyniadau paru sgoriau tueddfryd.....	161
Tabl A.12B: Canlyniadau Paru Sgôr Tueddfryd Is-grwpiau poblogaeth	163
Tabl A.13: Cymharu diffiniad yr arolygon â'r diffiniad gweinyddol o weithgarwch economaidd blaenorol	165
Tabl A.14A: Cyflogaeth cyn cefnogaeth ESF: Is-grwpiau poblogaeth.....	166
Tabl A.14B: Cyflogaeth cyn cefnogaeth ESF: Nodweddion gweithrediadau	167
Tabl A.15A: Cyflogaeth chwe mis ar ôl cefnogaeth ESF Is-grwpiau poblogaeth	168
Tabl A.15B: Cyflogaeth chwe mis ar ôl cefnogaeth ESF Nodweddion gweithrediadau.....	169
Tabl A.16A: Gwelliannau mewn nodweddion swyddi ar ôl cefnogaeth ESF: Is-grwpiau poblogaeth	170
Tabl A.16B: Gwelliannau mewn nodweddion swyddi ar ôl cefnogaeth ESF: Nodweddion gweithrediadau	171
Tabl A.17A: Gwelliannau yn ansawdd swyddi ers cefnogaeth ESF: Is-grwpiau poblogaeth	172
Tabl A.17B: Gwelliannau yn ansawdd swyddi ers cefnogaeth ESF: Nodweddion gweithrediadau	173
Tabl A.18A: Canfyddiadau ynghylch ennill y swydd bresennol oherwydd y cwrs: Is-grwpiau poblogaeth	174
Tabl A.18B: Canfyddiadau ynghylch ennill y swydd bresennol oherwydd y cwrs: Nodweddion gweithrediadau	175
Tabl A.19A: Effaith pandemig COVID-19 ar ddilyniant mewn cyflogaeth: Is-grwpiau poblogaeth	176
Tabl A.19B: Effaith pandemig COVID-19 ar ddilyniant mewn cyflogaeth: Nodweddion gweithrediadau	177

Rhestr ffigurau

Ffigur 5.1: Cymryd rhan mewn gweithrediad ESF a chynyddu cyrhaeddiad	49
Ffigur 6.1: Anawsterau o ran dod o hyd i waith	55
Ffigur 6.2: Llwybrau pontio i gyflogaeth fesul amcan gweithrediad	59
Ffigur 6.3: Pontio i gyflogaeth fesul rhyw	60
Ffigur 6.4: Pontio i gyflogaeth fesul cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith	61
Ffigur 6.5: Pontio i gyflogaeth drwy gyrhaeddiad addysgol blaenorol	62
Ffigur 6.6: Pontio i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant: fesul rhyw	63
Ffigur 6.7: Pontio i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant: fesul cyrhaeddiad blaenorol	64
Ffigur 7.1: Effaith ganfyddedig cefnogaeth ESF ar gyflogaeth fesul cymhwyster a enillwyd yn ystod y cwrs.....	77
Ffigur 7.2: Darlun o dechnegau Asesiad Gwrthffeithiol o Effaith	88
Ffigur 7.3: Effaith gweithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar: Mynediad i gyflogaeth.....	90
Ffigur 7.4: Effaith gweithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl mewn perygl o dlodi: Mynediad i gyflogaeth.....	91
Ffigur 7.5: Effaith gweithrediadau a oedd wedi'u hanelu at leihau lefelau NEET ymhlith pobl ifanc 16-24 oed: Mynediad i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.....	93
Ffigur 7.6: Effaith cefnogaeth ESF ar ganlyniadau cyflogaeth fesul rhyw	96
Ffigur 7.7: Effaith cefnogaeth ESF ar ganlyniadau cyflogaeth fesul statws iechyd sy'n cyfyngu ar waith	97
Ffigur 7.8: Effaith cefnogaeth ESF ar ganlyniadau cyflogaeth fesul lefel cymhwyster	99
Ffigur 8.1: Effaith cefnogaeth ESF ar ennill y swydd bresennol fesul cymhwyster a enillwyd	116

Geirfa

Acronym/Gair Allweddol	Diffiniad
ALMP	Polisiâu Marchnad Lafur Gweithredol
APS	Arolwg Poblogaeth Blynnyddol
CCT	Thema Drawsbynciol
CIA	Asesiad Gwrthffeithiol o Effaith
EC	Y Comisiwn Ewropeaidd
UE	Yr Undeb Ewropeaidd
ERDF	Cronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop
ESF	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
EW	Dwyrain Cymru
ILO:	Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol.
LFS	Arolwg o'r Llafurlu
LLFS	Arolwg o'r Llafurlu Lleol
NEET	Ddim mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant
SYG	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
EF	Echelin Flaenoriaeth
PSM	Paru Sgoriau Tueddfryd
AS	Amcan Strategol
WEFO	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
WWV	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn offerynnau ariannol sy'n cefnogi'r gwaith o weithredu polisiau rhanbarthol yr Undeb Ewropeaidd. Nod y cronfeydd hyn yw lleihau gwahaniaethau rhanbarthol mewn incwm, cyfoeth a chyfleoedd, gyda rhanbarthau tlotach Ewrop yn cael lefelau uwch o gefnogaeth. O fewn Llywodraeth Cymru, mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi'i dynodi'n 'Awdurdod Rheoli' ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd (UE) yng Nghymru. Mae WEFO yn gyfrifol am gynllunio, darparu, monitro a gwerthuso mentrau a gefnogir gan y cronfeydd hyn.
- 1.2. I gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, penododd WEFO IFF Research Limited i gynllunio a chyflwyno rhaglen o arolygon o ddinasyddion yng Nghymru a oedd wedi cymryd rhan mewn rhaglenni a ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), sy'n rhan o'r Cronfeydd Strwythurol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r wybodaeth a gasglwyd o'r Arolwg o Gyfranogwyr ESF, sy'n cwmpasu cyfnod Rhaglen 2014-2020.

Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

- 1.3. Mae Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn cynnwys Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Yn unol â strategaethau'r UE a Llywodraeth Cymru, nod Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 oedd helpu i greu amgylchedd a fyddai'n cefnogi ac yn sail i dwf economaidd a swyddi, ac a fyddai ar yr un pryd yn cofleidio nod cyffredinol Llywodraeth Cymru o hybu datblygu cynaliadwy fel y'i nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 1.4. Yn ystod rownd 2014-2020 o'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol, derbyniodd Cymru fuddsoddiad o tua £2 biliwn. Ynghyd â chyd-ariannu, darparodd y Cronfeydd Strwythurol gyfanswm buddsoddiad o tua £4 biliwn. At ddibenion cyflawni'r buddsoddiad hwn, rhannwyd Cymru yn ddau ranbarth: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a Dwyrain Cymru. Mae gan y ddwy ardal hyn raglenni ERDF ac ESF ar wahân. Roedd y rhaglenni'n canolbwyntio ar ymchwil ac arloesi; helpu busnesau i gychwyn a thyfu; cefnogi ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni; seilwaith strategol; mynd i'r afael â thlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy; a chynyddu sgiliau a chyflogaeth ieuenctid.

1.5. Darparodd Rhaglenni Gweithredol ar gyfer y ddau ranbarth hyn gynlluniau manwl ar sut i wario Cronfeydd Strwythurol, gan gynnwys sut y byddai'r rhaglenni hyn yn mynd i'r afael â'r [amcanion thematig](#) sy'n llywio [polisi cydlyniant yr UE](#) sy'n ceisio lleihau'r gwahaniaethau economaidd, cymdeithasol a thiriogaethol sy'n bodoli ledled Ewrop. Y pedwar amcan thematig allweddol sy'n llywio buddsoddiadau ESF yw:

8) Hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o safon a chefnogi symudedd llafur.

9) Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, a threchu tlodi ac unrhyw wahaniaethu.

10) Buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes.

11) Gwella gallu awdurdodau cyhoeddus a gweinyddiaeth gyhoeddus effeithlon.

1.6. Mae Rhaglenni ESF wedi'u strwythuro o amgylch tair Echelin Flaenoriaeth (EF).

EF1: Trechu Tlodi trwy Gyflogaeth Gynaliadwy.

EF2: Sgiliau ar gyfer Twf.

EF3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid.

1.7. Darperir Rhaglenni ESF drwy weithrediadau, sy'n cynnwys naill ai prosiect unigol neu grwpiau o brosiectau sy'n darparu gweithgareddau sy'n cyfrannu at amcanion un neu ragor o Echelinau Blaenoriaeth¹. Yng Nghymru, aethpwyd i'r afael yn bennaf â chamau i fynd i'r afael â thlodi, anfantais ac allgáu cymdeithasol yn uniongyrchol drwy Raglenni ESF drwy brosiectau cysylltiedig â chyflogaeth gyda chamau gweithredu penodol y disgwyliwyd ddynti dargedu diweithdra, pobl heb waith a rhwystrau i gael gfael ar gyflogaeth gynaliadwy.

1.8. Mae pob Echelin Flaenoriaeth yn seiliedig ar nifer fach o Amcanion Penodol (AP) sy'n nodi'r angen economaidd-gymdeithasol a'r newidiadau penodol sydd i'w cyflawni drwy fuddsoddiadau Cronfeydd Strwythurol. Mae Tabl 1.1 yn dangos sut mae'r amcanion thematig a'r Amcanion Penodol yn mapio i'r Echelinauau Blaenoriaeth².

¹ Ar gyfer gweddiill yr adroddiad hwn byddwn yn defnyddio'r term 'gweithrediadau' i gyfeirio at brosiectau neu grwpiau o brosiectau.

² Nid yw'r amcan thematig "Gwella gallu awdurdodau cyhoeddus a gweinyddiaeth gyhoeddus effeithlon" wedi'i gynnwys yn y tabl hwn gan nad yw gweithrediadau sy'n dod o dan Echelin Flaenoriaeth bellach "EF5: Gwella gwasanaethau cyhoeddus drwy waith rhanbarthol" (heb ei ddangos) yn dod o fewn cwrdd yr Arolwg o Gyfranogwyr ESF.

Tabl 1.1: Mapio amcanion thematig i Echelinau Blaenoriaeth ac Amcanion Penodol

	EF1: Trechu Tlodi trwy Gyflogaeth Gynaliadwy.	EF2: Sgiliau ar gyfer Twf.	EF3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid.
Amcanion thematig (blaenoriaethau buddsoddi)	9) Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, trechu tlodi ac unrhyw wahaniaethu.	8) Hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o safon a chefnogi symudedd llafur. (10) Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes.	8) Hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o safon a chefnogi symudedd llafur. (10) Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes.
Amcanion Penodol:	AP1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: Cynyddu cyflogadwyedd y rhai sydd agosaf at y farchnad lafur sy'n wynebu'r perygl mwyaf o dlodi. AP2 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd / AP1 Dwyrain Cymru: Cynyddu cyflogadwyedd pobl economaidd anweithgar a di-waith hirdymor 25 oed a hŷn, sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth. AP3 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig: Lleihau cyfraddau tangyflogaeth neu absenoldeb ar gyfer unigolion cyflogedig sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio a/neu rwystrau eraill i ymgysylltu â'r farchnad lafur mewn ffordd gynaliadwy.	AP1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru: Cynyddu lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rhai yn y gweithlu sydd heb unrhyw sgiliau neu sgiliau isel. AP2 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru: Cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a phenodol i swydd ar lefel ganolradd ac uwch. AP3 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig: Cynyddu nifer y bobl â gradd neu gymhwyster yfwerth sy'n ymgymryd â gweithgareddau ymchwil ac arloesi gyda menter. Gorllewin Cymru a'r Cymoedd AP4 / AP3 Dwyrain Cymru – Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu.	AP1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru: Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. AP1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru: Lleihau nifer y rhai ymhlith pobl ifanc 11-24 oed sydd mewn perygl o ddod yn bobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant,. AP3 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: Cynyddu nifer y disgyblion 11-19 oed sy'n dewis pynciau STEM a'r lefelau cyrhaeddiad ynddynt. AP3 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: Cynyddu sgiliau gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant.

1.9. Rhoddir crynodeb o'r gwelliannau ar gyfer cyfranogwyr y ceisiwyd eu sicrhau ar gyfer pob un o'r tri maes blaenoriaeth yn Nhabl 1.2.

Tabl 1.2: Blaenoriaethau ESF a'r newidiadau cysylltiedig a geisir

Echelinau Blaenoriaeth	Newidiadau a geisir (Amcanion Penodol)
1) Trechu Tlodi trwy Gyflogaeth Gynaliadwy.	• Cynyddu cyflogadwyedd y rhai sydd agosaf at y farchnad lafur sy'n wynebu'r perygl mwyaf o dlodi. • Cynyddu cyflogadwyedd pobl economaidd anweithgar a di-waith hirdymor 25 oed a hŷn, sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth. • Lleihau cyfraddau tangyflogaeth neu absenoldeb ar gyfer unigolion cyflogedig sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio a/neu rwystrau eraill i ymgysylltu â'r farchnad lafur mewn ffordd gynaliadwy.
2) Sgiliau ar gyfer Twf.	• Cynyddu lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rhai yn y gweithlu sydd heb unrhyw sgiliau neu sgiliau isel. • Cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a phenodol i swydd ar lefel ganolradd ac uwch. • Cynyddu nifer y bobl â graddau neu gyfwerth sy'n ymgymryd â gweithgareddau ymchwil ac arloesi gyda menter. • Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu.
3) Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid.	• Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. • Lleihau nifer y rhai ymhlith pobl ifanc 11-24 oed sydd mewn perygl o ddod yn bobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant,. • Cynyddu nifer y disgyblion 11-19 oed sy'n dewis pynciau STEM a'r lefelau cyrhaeddiad ynddynt. • Cynyddu sgiliau gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant.

1.10. Mae'r Rheoliadau Cyffredinol sy'n llywodraethu Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol hefyd yn nodi bod rhaid i bob gweithrediad integreiddio'r [themâu trawsbynciol](#).³ Nod y themâu trawsbynciol oedd gwella ansawdd a gwaddol pob gweithrediad a gefnogir gan y Cronfeydd Strwythurol ac ychwanegu gwerth at y rhaglenni. Byddai'r themâu trawsbynciol yn cael eu hymgorffori yn y gwaith o gynllunio a chyflwyno'r holl weithrediadau. Ar gyfer cyfnod rhaglenni 2014-2020, roedd y themâu trawsbynciol fel a ganlyn:

³ Gellir dod o hyd i Ffatrics themâu trawsbynciol ar gyfer ESF 2014-2020 yn: [european-social-cronfa-trawsbynciol-themâu-matrices.pdf \(llyw.cymru\)](#)

- Cyfleoedd cyfartal a phrif ffrydio rhyw (gan gynnwys cefnogaeth i siaradwyr Cymraeg);
- Datblygu cynaliadwy
- Techu tlodi ac allgáu cymdeithasol

1.11. Mae'r ddwy thema drawsbynciol cyntaf hyn yn orfodol o dan reoliadau'r UE. Cafodd Trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol ei gynnwys fel thema drawsbynciol ychwanegol yn unol â phrif ymrwymïadau Llywodraeth Cymru a nodir yn ei Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.

Yr Arolwg o Gyfranogwyr ESF

- 1.12. Mae arolygon o gyfranogwyr ESF wedi bod yn sail ar gyfer monitro effeithiolrwydd Rhaglenni ESF yng Nghymru ers tro. Er mwyn monitro effeithiolrwydd Rhaglenni ESF 2007-2013, cytunodd WEFO â'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) i gynnal cyfres o arolygon blynyddol o gyfranogwyr ESF: h.y. pobl a oedd wedi cymryd rhan mewn gweithrediad a dderbyniodd arian gan yr ESF.
- 1.13. Comisiynodd WEFO gonsortiwm a arweiniwyd gan Brifysgol Caerdydd (gan gynnwys IFF Ltd ac Old Bell 3 Research Ltd) i gynnal cyfres o bum arolwg blynyddol o 'Adawyr' ESF ymhlith carfannau olynol o gyfranogwyr ESF yn ystod cyfnod Rhaglen 2007-2013. Diffiniwyd 'Gadawyr' ESF fel y cyfranogwyr hynny a oedd wedi gadael neu wedi cwblhau eu gweithrediadau tua 12 mis ynghynt. Fe wnaeth y cyntaf o'r arolygon hyn yn gwmpasu'r garfan o gyfranogwyr a adawodd eu prosiectau yn 2009 a'r arolwg diwethaf garfan o gyfranogwyr a adawodd eu gweithrediadau) yn 2013.
- 1.14. Cyhoeddwyd canlyniadau'r arolygon hyn mewn cyfres o adroddiadau dadansoddol (gweler Davies et al. [2009](#), [2010](#), [2011](#), [2012](#) a [2013](#)). Yn ystod yr arolygon hynny, arhosodd yr offerynnau a'r dulliau gwaith maes yn gyson er mwyn ei gwneud yn bosibl cyfuno'r data a gasglwyd ar draws sawl blwyddyn o arolygon er mwyn caniatáu dadansoddiad mwy manwl o'r is-grwpiau. Daeth y rhaglen ymchwil hon i ben gyda'r adroddiad "Combined Analysis of the 2009-2013 ESF Leavers Surveys" (gweler [Davies et al, 2016](#)). Crynhoir canlyniadau'r dadansoddiad hwn hefyd yn [Davies, Munday a Roche \(2017\)](#).
- 1.15. Yn 2015, dyfarnwyd y contract i IFF ac OB3 i gynnal rhan gyntaf yr Arolygon o Gyfranogwyr ESF ar gyfer Rhaglen 2014-2020. Cynhaliwyd cyfweiliadau yn ystod

2018/19 gyda chyfranogwyr ESF a oedd wedi gadael eu prosiectau hyd at fis Ebrill 2018. Pwrpas yr arolwg oedd darparu gwybodaeth amserol a chadarn am effeithiolrwydd prosiectau ESF cymeradwy er mwyn cyflawni gofynion adrodd y Comisiwn Ewropeaidd; deall pa fathau o ymyriadau oedd fwyaf effeithiol o ran cefnogi datblygiad y farchnad lafur; a darparu setiau data y gellid eu defnyddio gan werthuswyr lefel gweithrediad.

- 1.16. O gymharu ag arolygon a gynhaliwyd yn ystod cyfnod Rhaglen 2007-13, datblygiad pwysig i'r Arolwg o Gyfranogwyr ESF oedd gofyniad y Comisiwn Ewropeaidd i adrodd yn erbyn "dangosyddion canlyniadau tymor hwy". Arweiniodd hyn at gynnwys cwestiynau a oedd yn nodi sefyllfa'r cyfranogwyr chwe mis ar ôl iddynt adael eu gweithrediad ESF. I'r rhai a oedd yn gyflogedig pan gawsant eu cefnogi gyntaf gan ESF, roedd hyn yn cynnwys cwestiynau newydd a oedd yn nodi a oedd cyfranogwyr wedi profi sefyllfa well yn y farchnad lafur chwe mis ar ôl gadael.
- 1.17. Yn 2022, dyfarnwyd contract pellach i IFF Research Ltd i arolygu cyfranogwyr ESF a oedd wedi gadael eu prosiectau o fis Ebrill 2018 ymlaen, gan ddefnyddio'r offeryn arolwg a ddatblygwyd yn flaenorol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r wybodaeth a gasglwyd o'r Arolwg o Gyfranogwyr ESF ar gyfer cyfnod Rhaglen 2014-2020 drwy gyfuno data ar draws dau brif gyfnod gwaith maes yn ystod 2018/19 a 2022/23 (ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran fethodoleg a ganlyn).
- 1.18. Mae'r Arolwg o Gyfranogwyr ESF, yn fras, yn gwahaniaethu rhwng y rhai a oedd mewn gwaith cyn cael eu cefnogi gan ESF a'r rhai nad oeddent yn gweithio. Gofynnwyd llawer o gwestiynau i'r holl ymatebwyr, megis cwestiynau ynghylch nodweddion personol, rhesymau dros gymryd rhan a'r sgiliau a enillwyd gan gyfranogwyr. Yna ategwyd y cwestiynau cyffredinol hyn gan gwestiynau a gyfeiriwyd yn benodol at y rhai a oedd naill ai mewn gwaith neu'n ddi-waith cyn iddynt gymryd rhan mewn prosiect ESF.
 - Felly gofynnwyd cwestiynau i'r rhai a oedd yn ddi-waith cyn ESF am yr anawsterau a gawsant wrth ddod o hyd i waith cyn ESF a'u hasesiad o'r effaith a gafodd eu cyfranogiad mewn prosiect ESF o ran eu helpu i gael cyflogaeth.
 - Gofynnwyd cwestiynau i'r rhai a oedd mewn cyflogaeth cyn ESF am y swyddi a oedd ganddynt yn flaenorol ac a oedd eu cyfranogiad yn ESF wedi arwain at welliannau dilynol yn ansawdd eu cyflogaeth.

1.19. Mae strwythur yr adroddiad yn adlewyrchu cynllun yr arolwg ac mae wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- Mae Adran Dau yn rhoi trosolwg o'r fethodoleg a'r arolygon a gynhaliwyd gyda chyfranogwyr ESF.
- Mae Adran Tri yn rhoi trosolwg o nodweddion personol cyfranogwyr ESF a'r amgylchiadau economaidd cyn cymryd rhan yn ESF.
- Mae Adran Pedwar yn ystyried profiadau cyfranogwyr yn ystod eu gweithrediad a ariannwyd gan ESF, gan gynnwys pam y bu iddynt gymryd rhan, sut y daethant i wybod am y cwrs, hyd y cwrs, iaith y ddarpariaeth a lefelau ymwybyddiaeth o gyllid ESF.
- Mae Adran Pump yn archwilio sut mae gweithrediadau ESF wedi cyfrannu at gronni cyfalaf dynol, drwy ennill cymwysterau a enillwyd yn ystod ESF a natur y sgiliau a enillwyd.
- Mae Adran Chwech yn ystyried rôl gweithrediadau ESF o ran cefnogi cyfranogiad yn y farchnad lafur ymhlith y rhai a oedd yn ddi-waith yn flaenorol. Archwilir yr anawsterau a wynebier gan gyfranogwyr wrth ddod o hyd i waith, a chyflwynir y llwybrau pontio i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant ar ôl cymryd mewn gweithrediad ESF.
- Mae Adran Saith yn archwilio cyfraniad ESF tuag at gefnogi cyfranogiad mewn cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys canfyddiadau cyfranogwyr ESF ar effaith y cynlluniau hyn a chanlyniadau technegau Dadansoddiad Gwrthffeithiol o Effaith (CIA) sy'n cymharu llwybrau pontio cyfranogwyr ESF â'r rhai a welwyd yn y farchnad lafur ehangach.
- Mae Adran Wyth yn ystyried effaith gweithrediadau ESF ar gefnogi dilyniant mewn cyflogaeth ymhlith y rhai a gefnogwyd gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at y rhai mewn gwaith. Ystyrir gwelliannau mewn nodweddion swyddi ac archwilir canfyddiadau cyfranogwyr ESF ar effaith y cynlluniau hyn.
- Mae Adran Naw yn casglu'r canfyddiadau ynghyd er mwyn llywio casgliadau ac argymhellion yr astudiaeth.

2. Y Fthodoleg

- 2.1 Cynhelir yr Arolwg o Gyfranogwyr ESF i ddarparu gwybodaeth amserol a chadarn am ganlyniadau ac effeithiau tymor hwy gweithrediadau a ariennir gan ESF ar gyfer cyfranogwyr ledled Cymru er mwyn cyflawni gofynion adrodd y Comisiwn Ewropeaidd. Nod yr arolygon yw cynyddu dealltwriaeth o ba fathau o ymyriadau sydd fwyaf effeithiol o ran cefnogi dilyniant yn y farchnad lafur, ac fe'u defnyddir i gefnogi'r broses werthuso ar lefel gweithrediad a rhaglen.
- 2.2 Cynhaliwyd Arolwg Cyfranogwyr ESF 2014-2020 yn ystod dwy rownd o waith maes arolwg:
- Mae rownd gyntaf y gwaith maes yn ymwneud â chyfweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2018 a mis Gorffennaf 2019. Cyfeiriwyd ato fel Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015/18, ac roedd yr astudiaeth hon yn cynnwys cynnal cyfweliadau ffôn (CATI, neu gyfweliadau ffôn â chymorth cyfrifiadur) â phobl a oedd wedi gadael eu cwrs ESF rhwng mis Ionawr 2015 a mis Ebrill 2018.
 - Mae ail rownd y gwaith maes yn ymwneud â chyfweliadau a gynhaliwyd rhwng mis Awst 2022 a mis Mai 2023. Roedd y cyfweliadau'n ymdrin yn bennaf â chyfranogwyr a oedd wedi cwblhau eu rhaglen a ariannwyd gan ESF, rhwng mis Ebrill 2018 (ac na chawsant eu samplu ar gyfer yr arolwg cyntaf) a mis Mai 2022.
- 2.3 Eto, cyfweliadau ffôn oedd y prif ddull cyfweld yn ystod yr ail don o gyfweliadau. Fodd bynnag, ategwyd y rhain hefyd gan gyfweliadau ar-lein, pan oedd hynny'n bosibl, gyda chyfranogwyr nad oedd ganddynt rif ffôn neu'r rhai yr oedd yn well ganddynt wneud arolwg byrrach ar-lein. Trafodir yr opsiwn arolwg ar-lein ymhellach isod.

Samplu

- 2.4 Dangosir y dadansoddiad ar gyfer pob cyfnod gwaith maes yn Nhabl 2.1 isod. Cafodd cofnodion gweinyddol a gyflwynwyd gan weithrediadau cyfranogol ei trosglwyddo'n ddiogel i IFF Research gan Lywodraeth Cymru drwy WEFO drwy Objective Connect. Roedd pob ffeil a gyflwynwyd yn gofnod cronus o'r holl gyfranogwyr, o fewn pob cyfnod gwaith maes.
- 2.5 Cafodd cofnodion eu tynnu mewn tonnau ar draws cyfnod y gwaith maes, er mwyn sicrhau bod o leiaf 12 mis wedi mynd heibio ers i gyfranogwyr adael eu cwrs ESF ar yr

adeg y cyfweiliad â'r cyfranogwyr. Mae cynnal cyfweiliadau ag unigolion 12 mis ar ôl iddynt adael eu hymyriadau yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddiwyd mewn arolygon blaenorol o gyfranogwyr ESF, ac yn hwyluso'r gwaith o ddadansoddi canlyniadau cyfranogwyr (gan gynnwys buddion 'meddalach') y tu hwnt i'r dangosyddion canlyniadau tymor hwy, sy'n seiliedig ar ganlyniadau chwe mis ar ôl i gyfranogwyr adael eu cwrs ESF.

- 2.6 Gosodwyd targedau ar lefel blaenoriaeth buddsoddi, ar sail dosbarthiad nodweddion cefndir (Amcan Penodol, anfantais, rhyw, rhanbarth, oedran a chyflogaeth), a'u cyfrifo gan ddefnyddio matrices samplu'r Comisiwn Ewropeaidd. Samplwyd cofnodion yr arolwg yn gymesur â'r targedau hyn.

Tabl 2.1: Dyddiadau Samplu a Gwaith Maes

Cyfnod samplu (h.y. dyddiad gadael y cwrs)	Ton a dyddiadau gwaith maes	Nifer y cofnodion yn y boblogaeth	Nifer y cofnodion a samplwyd	Nifer y cyfweiliadau
Cyfnod y gwaith maes				
Ionawr 2015 – Ebrill 2018	cyntaf Ionawr 2018 – Gorffennaf 2019	81,677	68,128	12,018
Yr ail gyfnod gwaith maes				
Ebrill 2018* – Mai 2022	Gorffennaf 2022 – Mai 2023	155,743	75,219	11,210

*Cafodd ymadawyr a oedd wedi gorffen y cwrs ym mis Ebrill 2018 ond nad oedd wedi cael eu cyfweld yn ystod cyfnod gwaith maes cyntaf eu hystyried fel rhan o'r boblogaeth ar gyfer yr ail gyfnod gwaith maes.

- 2.7 Prosesodd IFF y sampl er mwyn sicrhau ei fod ar ffurf addas ar gyfer CATI (cyfweiliadau ffôn â chymorth cyfrifiadur), neu gyfweiliadau ar-lein (dim ond ar gyfer yr ail gyfnod gwaith maes yn 2022-23). Roedd hyn yn cynnwys:

- Hidlo'r ffeil ar gyfer ymadawyr a sicrhau eu bod yn y cyfnod samplu cywir.
- Deillio newidynnau penodol sydd eu hangen ar gyfer sgrïpt yr arolwg neu at ddibenion dadansoddi (e.e. deillio cyfranogwyr 'difreintiedig').
- Tynnu ymadawyr a oedd eisoes wedi cwblhau'r arolwg.
- Dileu cofnodion dyblyg.

- Ac eithrio sampl anghymwys – cytunwyd â Llywodraeth Cymru na ddylai cyfranogwyr mewn rhaglenni ‘Pobl Ifanc’ penodol, yn ogystal â chyfranogwyr o dan 16 oed, gael eu cyfweld yn y prif arolwg o gyfranogwyr.

- 2.8 Her allweddol a wynebwyd yn ystod y broses samplu oedd diffyg dynodwr unigryw dibynadwy o fewn y sampl ar gyfer adnabod unigolion. Er bod cyfuno nod adnabod achos (h.y. y gweithrediad) a nod adnabod cyfranogwr yn weddol gywir o ran nodi cyfranogwyr unigryw o fewn gweithrediadau. Arweiniodd anghysondebau rhwng y ffeiliau sampl at broblemau wrth nodi cofnodion dyblyg (e.e. achosion lle roedd nodau adnabod cyfranogwyr yn wahanol ar gyfer yr un unigolion ar draws gwahanol ffeiliau).
- 2.9 Cymhlethdod pellach i'r broses samplu yn ystod cyfnod y gwaith maes cyntaf oedd gwall yn ymwneud â'r newidyn 'cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith'. Nodwyd bod gan ffeil mis Hydref 2017 ddata anghywir yn y newidyn hwn, a olygodd bod cyfran yr unigolion yr adroddwyd bod ganddynt gyflwr iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio wedi'i chwyddo'n sylweddol.
- 2.10 Ymgwymerodd IFF â phroses o gywiro'r data trwy baru cofnodion â ffeil sampl mis Chwefror 2018. Fodd bynnag, oherwydd diffyg dynodwr unigryw dibynadwy (a drafodir uchod), nid oedd yn bosibl cyflawni cyfradd baru o 100 y cant. Lle nad oedd yn bosibl paru cyfranogwyr ar draws ffeiliau at ddibenion cywiro, gwnaethom gytuno i aseinio statws 'anhysbys' i'r newidyn cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith. Yn gyffredinol, llwyddodd IFF i baru 98 y cant o ffeiliau mis Hydref 2017 â gwybodaeth gywir, gan olygu y rhoddwyd statws 'anhysbys' i 2 y cant.
- 2.11 Ar gyfer yr ail gyfnod gwaith maes, daethpwyd ar draws cymhlethdod pellach oherwydd nad oedd sampl yr arolwg yn cynnwys marciwr yn nodi graddau trefoli lleoliad pob cyfranogwr. Roedd angen y marciwr hwn er mwyn nodi cyfranogwyr 'difreintiedig', newidyn a ddefnyddiwyd ar gyfer samplu. Yn ystod cyfnodau'r gwaith maes cyntaf, defnyddiwyd dosbarthiad yr UE ar gyfer y marciwr gwledig / trefol hwn, ac yn ystod yr ail gyfnod gwaith maes, oherwydd diffyg gwybodaeth ddiweddaedig, penderfynwyd defnyddio dosbarthiad SYG (y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Roedd hyn yn golygu defnyddio niferoedd cyffiniol, yn hytrach na niferoedd ehangach ar gyfer poblogaeth ardaloedd adeiledig. Er hynny, y dybiaeth oedd y byddai'r niferoedd wedi bod yn gyffredinol gyson â'r dosbarthiad UE a ddefnyddiwyd yn flaenorol.

Dylunio holiaduron

2.12 Cafodd holiadur yr Arolwg o Gyfranogwyr ESF a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfnod y gwaith maes cyntaf (2018-19) ar sail holiadur blaenorol yr Arolwg o Ymadawyr ESF (yn cwmpasu Rhaglen 2007 i 2013), er mwyn cynyddu'r posibilrwydd o gymharu ar draws data 2007-2013 a 2014-2020. Roedd yr holiadur hefyd yn cynnwys cwestiynau sydd eu hangen ar gyfer adrodd ar ddangosyddion canlyniadau tymor hwy i'r Comisiwn Ewropeaidd (dangosyddion yn adlewyrchu sefyllfa'r cyfranogwyr chwe mis ar ôl gadael eu gweithrediad ESF). Roedd canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd yn nodi y gellid adrodd ar y dangosyddion tymor hwy ar sail sampl gynrychioliadol, yn hytrach nag ar gyfer pob cyfranogwr, felly penderfynwyd casglu'r data drwy arolwg yn hytrach na thrwy system fonitro WEFO.

2.13 Yn ystod cyfnod y gwaith maes cyntaf, yn ogystal â'r cyfweiliadau craidd, cynigiwyd y dewis i'r gweithrediadau a gymerodd ran ychwanegu modiwl o gwestiynau wedi'u teilwra i'w cyfranogwyr, yn para hyd at 5 munud. Dim ond yn ystod cyfnod y gwaith maes cyntaf y cafodd y modiwlau ychwanegol hyn eu cynnwys. Cafodd modiwlau ar gyfer cyfranogwyr eu cynnwys yn y rhaglenni canlynol:

- Prentisiaethau
- Cymunedau am Waith
- Tyfu Gweithluoedd drwy Ddysgu a Datblygu (GLWAD)
- Rhaglenni Cymorth mewn Gwaith
- Twf Swyddi Cymru
- Rhaglenni Cymorth Allan o Waith
- Cynnydd ar gyfer Llwyddiant
- ReAct.
- Hyfforddeiaethau.

2.14 Roedd y rhesymau dros beidio â chynnwys modiwlau yn ystod yr ail rownd o gyfweiliadau yn cynnwys:

- Nid oedd yr amseriadau ar gyfer yr Arolwg o Gyfranogwyr ESF bob amser yn cyd-fynd â'r amseriadau ar gyfer gwerthusiadau penodol o brosiectau ESF.

- Disgwyliwyd i weithrediadau ESF gyflawni gwell cyfraddau ymateb a goresgyn problemau fel gallu ymatebwyr i gofio drwy gynnal eu gwerthusiadau eu hunain, o ystyried y byddant wedi cael mwy o gysylltiad â chyfranogwyr.
- Mae gweithrediadau sy'n cynnal eu gwerthusiadau eu hunain yn cynyddu eu hyblygrwydd i deilwra'r dulliau gwerthuso i gyflwyno data sydd fwyaf defnyddiol i'w gweithrediadau.

- 2.15 I raddau helaeth, cadwyd yr holiadur a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ail gyfnod gwaith maes yr un fath â'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfnod y gwaith maes cyntaf, fel y gellid cyfuno data o'r ddau arolwg yn un set ddata gyfunol. Yr ychwanegiadau mwyaf nodedig oedd cyflwyno cwestiynau am effaith COVID-19 ar yr hyfforddiant neu'r gefnogaeth a dderbyniwyd, ac a gafodd COVID-19 unrhyw effaith ar eu dilyniant ers y cwrs. Mae Tabl 2.2 yn crynhoi cwmpas yr holiaduron terfynol y cytunwyd arnynt.
- 2.16 Yn ystod y ddau gyfnod gwaith maes, ar ôl i IFF a Llywodraeth Cymru gytuno ar ddyluniad cychwynnol yr holiadur, cafodd yr holiaduron eu treialu gyda nifer fach o gyfranogwyr (50 yn ystod cyfnod y gwaith maes cyntaf a 61 yn ystod yr ail gyfnod gwaith maes), er mwyn asesu a oedd y cwestiynau'n addas. ac yn llifo'n esmwyth ac yn rhesymegol o safbwynt yr ymatebwr. Ar ôl cwblhau pob un o'r cyfnodau peilot, cynhaliwyd sesiwn ôl-drafod, lle cafwyd adborth gan gyfwelwyr, a chyflwynwyd adroddiad peilot i Lywodraeth Cymru gydag argymhellion ar gyfer yr hyn i'w fireinio ymhellach.
- 2.17 Yn ystod dau gyfnod gwaith maes yr arolwg, gofynnwyd i bob cyfranogwr a gadarnhaodd mai yntau oedd yr ymatebydd cywir pan gafodd ei alw, ac a wrthododd gymryd rhan yn yr arolwg i ddechrau, a fyddai'n well ganddo gwblhau fersiwn fyrrach o'r arolwg (y bwriad oedd iddo bara dim mwy na 5 munud). Yn ystod cyfnod y gwaith maes cyntaf (2018-19), dim ond dros y ffôn y rhoddwyd y cyfle i gyfranogwyr gwblhau y fersiwn fyrrach o'r arolwg. Fodd bynnag, yn ystod yr ail gyfnod gwaith maes (2022-23), cawsant cynigiwyd iddynt hefyd yr opsiwn o wneud hynny ar-lein yn eu hamser eu hunain.

Tabl 2.2: Crynodeb o'r holiadur

Adran	Cwmpas y cwestiynau
Cwestiwn sgrinio	Cyflwyno'r arolwg a chael caniatâd i gyfsweld; sgrinio cyfranogwyr anghymwys.
Adran A: Y cwrs	Rhesymau dros gymryd rhan yn y cwrs; lle y clywodd cyfranogwyr am y cwrs gyntaf; a enillwyd unrhyw gymwysterau; a'r iaith y cyflwynwyd y cwrs ynddi.
Adran B: Y sefyllfa yn union cyn y cwrs	Pa brif weithgaredd yr oedd y cyfranogwr yn ei wneud yn union cyn dechrau ei ddarpariaeth; a manylion cyflogaeth, addysg/hyfforddiant, a diweithdra (e.e. rhwystrau neu resymau dros beidio â chwilio am waith).
Adran C: Y sefyllfa ers y cwrs (trosolwg)	Beth yw prif weithgaredd presennol yr ymatebwr; a gweithgareddau a gyflawnwyd ers gadael y cwrs.
Adran D: Statws chwe mis ar ôl cwblhau'r cwrs	Beth yw ei weithgaredd chwe mis ar ôl gadael; manylion cyflogaeth, addysg/hyfforddiant, a diweithdra (rhesymau dros beidio â chwilio am waith); a gwelliannau o ran swydd i'r ymatebwyr o oedd mewn gwaith cyn ac ar ôl y cwrs.
Adran E: Y sefyllfa bresennol a manteision y cwrs	Rhesymau dros beidio â chwilio am waith ar hyn o bryd a rhwystrau i waith; manylion swydd bresennol y rhai mewn cyflogaeth; sgiliau a enillwyd o fod ar y cwrs ESF; effaith COVID-19 (dim ond yn y fersiwn a ddefnyddiwyd yn 2022-23).
Adran G: Modiwlau	Modiwlau gweithrediad-benodol (yn para tua 5 munud) (yn y fersiwn a ddefnyddiwyd yn 2018-19 yn unig)
Adran H: Demograffeg a chwestiynau cloi	Casglu gwybodaeth am ryw, oedran, ethnigrwydd, salwch hirdymor, problem iechyd neu anabledd, iaith gyntaf; ymwybyddiaeth o gyllid ESF; a chwestiynau cloi.

2.18 Cyflwynwyd yr opsiwn i gwblhau'r arolwg ar-lein yn ystod yr ail gyfnod gwaith maes er mwyn cynyddu cyfranogiad unigolion anos eu cyrraedd, gyda'r nod o wella'r ymateb i'r arolwg. Diben yr arolwg byrrach yn benodol oedd casglu'r data angenrheidiol ar gyfer adrodd ar ddangosyddion canlyniadau tymor hwy i'r Comisiwn Ewropeaidd. Rhannwyd yr arolwg ar-lein hefyd gyda'r rhai oedd â chyfeiriad e-bost dilys yn unig ar eu cofnodion, ond dim rhif ffôn dilys (eto ar gyfer yr ail gyfnod gwaith maes yn unig).

2.19 Mae fersiwn olaf yr holiadur llawn a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ail gyfnod gwaith maes wedi'i chynnwys yn Atodiad B. Mae gan gwestiynau a ofynnwyd i'r rhai a gytunodd i wneud fersiwn fyrrach o'r arolwg y cyfarwyddyd llwybro 'pob fformat'.

Gwaith maes

- 2.20 Cynhaliwyd pob cyfweiliad ffôn gan ddefnyddio cyfweiliadau ffôn â chymorth cyfrifiadur (CATI). Cynhaliwyd y cyfweiliadau gan gyfweilwyr IFF Research, gyda'r nos ac ar benwythnosau yn bennaf, er y gwnaed rhywfaint o alwadau yn ystod y dydd os bu cysylltu â phobl yn ystod yr amseroedd craidd hyn yn aflwyddiannus.
- 2.21 Yn ystod cyfnod y gwaith maes cyntaf (2018-19), cyflwynwyd llythyrau ymlaen llaw o'r ail don ymlaen. Anfonwyd y rhain at ymatebwyr ychydig wythnosau cyn pob ton o waith maes er mwyn rhoi gwybod iddynt am yr ymchwil a'r cyfle i optio allan.
- 2.22 Yn yr un modd, yn ystod yr ail gyfnod gwaith maes (2022-23), derbyniodd yr holl gyfranogwyr â rhif ffôn dilys e-bost neu lythyr ffisegol (gan ddibynnu ar argaeledd cyfeiriadau e-bost) i roi gwybod iddynt y byddai rhywun yn cysylltu â nhw dros yr wythnosau canlynol, ac i roi rhywfaint o wybodaeth gefndir iddynt am yr arolwg. Ar ôl cyfnod cychwynnol er mwyn iddynt gael y cyfathrebiad (ac i optio allan o'r ymchwil, os oedd yn well ganddynt), cysylltodd y cyfweilwyr â nhw dros y ffôn. Fel y trafodwyd uchod, cafodd y rhai heb rif ffôn dilys eu gwahodd yn uniongyrchol i gwblhau'r fersiwn ar-lein o'r arolwg. Ni osodwyd unrhyw gwotâu ar gyfer y cyfweiliad.
- 2.23 Cynigiwyd y cyfle i'r cyfranogwyr gwblhau'r arolwg yn Gymraeg. Yn ystod cyfnod y gwaith maes cyntaf (2018-19), cafodd 189 o gyfweiliadau CATI eu cwblhau yn Gymraeg. Yn ystod yr ail gyfnod gwaith maes (2022-23) cwblhawyd 252 o gyfweiliadau CATI a 7 arolwg ar-lein yn Gymraeg.

Canlyniadau a chyfraddau ymateb

Cyfnod y gwaith maes cyntaf

- 2.24 Cyflawnwyd 12,012 o gyfweiliadau ar draws pum ton o waith maes, sy'n cyfateb i gyfradd ymateb o 18 y cant ymhlith yr holl sampl a alwyd.
- 2.25 Yn gyffredinol, bu achosion o wrthod neu fethu yn 10 y cant o'r canlyniadau – mewn 7 y cant o'r achosion digwyddodd hyn pan gysylltwyd â'r ymatebydd. Gwrthododd 1 y cant arall yn ystod y cam hysbysiad preifatrwydd, naill ai o ran gwrthod i'r hysbysiad preifatrwydd gael ei ddarllen iddynt neu o ran gwrthod cymryd rhan ar ôl gwrando ar yr hysbysiad preifatrwydd.

2.26 Nid oedd modd defnyddio cyfran sylweddol o gofnodion oherwydd bod y rhif ffôn a roddwyd yn anghywir. Ar gyfer 15 y cant o'r sampl a lwythwyd, nid oedd galwadau'n cysylltu o gwbl, ac ar gyfer 6 y cant arall, cadarnhawyd ar yr alwad bod y rhif ffôn yn anghywir. Mewn wyth y cant o achosion, dywedodd yr ymatebydd a enwyd nad oedd yn cofio gwneud ei gwrs, a dywedodd cyfran fach eu bod yn dal i fod ar eu cwrs neu eu bod o dan 16 oed, gan eu gwneud yn anghymwys ar gyfer yr arolwg. Mae Tabl 2.3 yn dangos cyfraddau ymateb wedi'u haddasu, heb gynnwys y sampl na ellir ei defnyddio.

Tabl 2.3: Cyfraddau ymateb wedi'u haddasu ar gyfer cyfnod y gwaith maes cyntaf (2018-19)

Sylfaen y sampl	Nifer (n)	Cyfradd ymateb
Sampl (ceisiwyd) wedi'i llwytho	68,128	18%
Sampl gyda rhif ffôn cywir (h.y. heb gynnwys rhifau na ellid cael gafael arnynt neu rifau anghywir)	54,015	22%
Sampl gyda'r rhif ffôn cywir a dysgwr cymwys (h.y. heb gynnwys rhifau na ellid cael gafael arnynt / rhifau anghywir, dim cof o'r dysgu, yn dal i fod ar y cwrs a dysgwyr dan 16 oed)	48,155	25%

2.27 Mae Tabl R.1 yn yr Atodiad Cyfradd Ymateb yn dangos nifer yr ymatebwyr y cysylltwyd â nhw i gwblhau'r arolwg yn ystod cyfnod y gwaith maes cyntaf, y nifer a'i cwblhaodd, a'r gyfradd ymateb berthnasol, wedi'i rhannu fesul gweithrediad. Mae hyn yn dangos yr amrywiad yn y niferoedd ac yn y cyfraddau ymateb ar draws y gwahanol weithrediadau.

Yr Ail gyfnod gwaith maes (2022-23)

2.28 Cwblhawyd 11,210 o gyfweiliadau ar draws tair ton o waith maes. Mae hyn yn cynnwys 11,002 o gyfweiliadau a gyflawnwyd drwy CATI a 208 a gwblhawyd ar-lein. Y gyfradd ymateb ymhlith yr holl sampl a alwyd oedd 15 y cant (gan gynnwys yr ymatebwyr hynny a gafodd eu galw ond a aeth ymlaen i gwblhau'r arolwg ar-lein). Dylanwadwyd ar y gyfradd ymateb is (o gymharu â chyfnod y gwaith maes cyntaf) gan nifer o ffactorau, gan gynnwys y penderfyniad i gyflwyno uchafswm o geisiadau posibl i wneud galwad (9) hanner ffordd drwy'r gwaith maes (ni osodwyd unrhyw gap yn y rownd gyntaf o gyfweiliadau), oherwydd cwyn gan ymatebydd yn ystod y don gyntaf o waith maes, a phenderfyniad i gyfyngu ar nifer y galwadau i gyfranogwyr mewn gweithrediad penodol (gan iddynt gael eu nodi fel rhai sy'n agored i niwed). Yn

gyffredinol, nid oedd gan 53 y cant o'r cysylltiadau a samplwyd ar gyfer yr ail rownd o gyfweliadau unrhyw ganlyniad sampl terfynol (o gymharu â 41 y cant yn y rownd gyntaf o gyfweliadau). Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu'r cap ar alwadau ar gyfer yr ail rownd. Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi bod mwy o anawsterau o ran cael gafael ar ymatebwyr yn y gwaith maes ar gyfer arolwg 2022-23.

- 2.29 Yn gyffredinol, gofynnodd 529 o gyfranogwyr ESF yn yr ail gyfnod gwaith maes, nad oeddent yn fodlon neu'n gallu gwneud y cyfweliad CATI llawn am ddolen we, i gwblhau'r arolwg ar-lein, y cwblhaodd 107 ohonynt yr arolwg ar-lein.
- 2.30 Dim ond effaith gyfyngedig roedd y dull ar-lein a ddarparwyd ar gyfer cynnal yr arolwg wedi'i chael ar wella'r cyfraddau ymateb. Dim ond 2 y cant o'r holl gyfweliadau a gwblhawyd yn ystod yr ail rownd o waith maes y mae'r 208 o gyfweliadau ar-lein yn cyfrif amdanynt. Yn gyffredinol, cwblhaodd 5 y cant o'r unigolion y cynigiwyd y cyfle iddynt wneud arolwg ar-lein yr arolwg yn y pen draw. Cafwyd ymateb llawer gwell gan y rhai a aeth drwy'r llwybr ar-lein ar ôl gwrthod gwneud yr arolwg CATI i ddechrau, ac ar ôl cael dolen i'r arolwg (20 y cant), na'r rhai a gafodd gynnig yr arolwg ar-lein i ddechrau oherwydd nad oedd ganddynt rif ffôn dilys (3 y cant).
- 2.31 Ar y cyfan, yn achos 7 y cant o'r cofnodion, gwrthodwyd cymryd rhan yn llwyr – ym mron pob un o'r achosion hyn digwyddodd hyn pan gysylltwyd â'r ymatebydd. Gwrthododd 0.2 y cant arall yn ystod y cam hysbysiad preifatrwydd, naill ai o ran gwrthod i'r hysbysiad preifatrwydd gael ei ddarllen iddynt neu o ran gwrthod cymryd rhan ar ôl gwrandao ar yr hysbysiad preifatrwydd.
- 2.32 Yn ystod yr ail gyfnod gwaith maes (fel y cyntaf), nid oedd modd defnyddio cyfran sylweddol o gofnodion oherwydd nad oedd yn bosibl cyrraedd ymatebwyr gan ddefnyddio'r rhifau ffôn a ddarparwyd. Ar gyfer 12 y cant o'r sampl a lwythwyd, nid oedd galwadau'n cysylltu o gwbl, ac ar gyfer 3 y cant arall, cadarnhawyd ar yr alwad bod y rhif ffôn yn anghywir. Mewn 8 y cant o achosion dywedodd yr ymatebydd a enwyd nad oedd yn cofio gwneud ei gwrs, a dywedodd cyfran fach eu bod yn dal i fod ar eu cwrs neu eu bod o dan 16 oed, gan eu gwneud yn anghymwys ar gyfer yr arolwg. Mae Tabl 2.4 yn dangos cyfraddau ymateb wedi'u haddasu, heb gynnwys y sampl hon na ellir ei defnyddio.

Tabl 2.4: Cyfraddau ymateb wedi'u haddasu ar gyfer yr ail gyfnod gwaith maes (2022-23)

Diffiniad sylfaen	Nifer (n)	Cyfradd ymateb
Sampl wedi'i llwytho*	75,219	15%
Sampl gyda rhif ffôn cywir (h.y. heb gynnwys rhifau na ellid cael gadfael arnynt neu rhifau anghywir)	63,556	17%
Sampl gyda'r rhif ffôn cywir a dysgwr cymwys (h.y. heb gynnwys rhifau na ellid cael gadael arnynt / rhifau anghywir, dim cof o'r dysgu, yn dal i fod ar y cwrs a dysgwyr dan 16 oed)	57,091	19%

*Ar gyfer y rhai a samplwyd ar gyfer CATI yn unig

2.33 Mae Tabl R.2 yn yr Atodiad Cyfradd Ymateb yn dangos nifer yr ymatebwyr y cysylltwyd â nhw i gwblhau'r arolwg yn ystod cyfnod y gwaith maes cyntaf, y nifer a'i cwblhaodd, a'r gyfradd ymateb berthnasol, wedi'i rhannu fesul gweithrediad.

Pwysoli a dadansoddi

2.34 Cafodd canlyniadau pob cyfnod gwaith maes eu pwysoli a'u rhannu â Llywodraeth Cymru. Ar gyfer pob cyfnod gwaith maes crëwyd pwysoliad gros i'w gymhwyso i'r data. Cyfrifwyd hyn ar sail dosbarthiad y nodweddion cefndir a restrir yn Nhabl 2.5.

Tabl 2.5: Newidynnau pwysoli

Newidyn	Gwerthoedd
Amcanion Penodol:	AP1.1, AP1.2, AP1.3, AP2.1, AP2.2, AP2.3, AP2.4, AP3.1, AP3.4
Anfantais	Difreintiedig, Ddim yn ddifreintiedig
Rhywedd	Gwryw, Benyw
Rhanbarth	Rhanbarth mwy datblygedig, rhanbarth llai datblygedig
Oedran	54 +, Dan 54
Cyflogaeth	Cyflogedig, Ddim yn gyflogedig

2.35 Ar ddiwedd yr ail gyfnod gwaith maes casglwyd y data o'r ddau gyfnod a chyfrifwyd 'pwysoliad rhaglen' cyfun newydd, gan ddefnyddio'r boblogaeth lawn o gyfranogwyr rhaglenni ESF, a oedd wedi gadael y rhaglenni rhwng mis Ionawr 2015 a mis Mai 2022. Y set ddata gyfunol hon sy'n sail i'r dadansoddiad a gynhwysir yn yr adroddiad hwn⁴.

⁴ gweler IFF(2023) am fanylion y set ddata gyfunol.

Data ar gyfer Asesiad Gwrthffeithiol o Effaith

- 2.36 Yn Adran 7 o'r adroddiad hwn, defnyddir data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth i gymharu llwybrau pontio cyfranogwyr ESF o fewn y farchnad lafur – a oedd yn ddi-waith cyn derbyn cefnogaeth gan yr ESF – â llwybrau pobl anghyflogedig yn y farchnad lafur ehangach. Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gael yn flynyddol o 2004, ac fe'i datblygwyd i roi hwb i'r nifer o arsylwadau a gynhwyswyd yn yr Arolwg Chwarterol o'r Llafurlu fel y gellid darparu gwybodaeth fwy cadarn am y farchnad lafur ar lefel awdurdod lleol.
- 2.37 Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn cyfuno data o bedwar chwarter olynol yr Arolwg Chwarterol o'r Llafurlu â data a gasglwyd o arolwg atgyfnerthu y cyfeirir ato fel yr Arolwg o'r Llafurlu Lleol. Gall aelwydydd barau yn yr Arolwg Chwarterol o'r Llafurlu am hyd at bum chwarter (y cyfeirir atynt fel tonnau). Gall aelwydydd barhau yn yr Arolwg o'r Llafurlu Lleol am hyd at 4 blynedd. Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth felly yn rhoi'r cyfle i olrhain unigolion ar aelwydydd sy'n cymryd rhan bob 12 mis, a gellir gwneud gwaith dilynol ar rai ohonynt am gyfnod o hyd at bedair blynedd.⁵
- 2.38 Defnyddiwyd data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth i ddeillio cronfa ddata hydredol sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am nodweddion demograffig a chyfranogiad yn y farchnad lafur. Mae cofnodion o fersiynau Ionawr-Rhagfyr o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth blynyddol o 2015 i 2021 wedi cael eu cronni i ddarparu ffynhonnell o ddata cyfoes ar lwybrau pontio i gyflogaeth a fesurwyd dros gyfnod o 12 mis, y gellir cymharu profiadau cyfranogwyr ESF yn ei herbyn.

Cyflwyno'r canlyniadau

Sgiliau swydd-benodol	52.9	80.8	70.4	62.9	25.6	80.2	80.0	83.8	58.2	77.1	75.6	70.2
Trin cwsmeriaid	39.0	36.3	59.3	48.6	22.6	63.7	55.1	24.7	43.5	40.3	55.3	52.4
Gweithio gyda rhifau	33.9	34.6	54.7	43.9	10.7	58.7	49.1	75.6	11.2	37.2	48.9	46.8
Llythrennedd cyfrifiadurol / TG sylfaenol	36.9	33.2	49.3	42.6	13.1	49.4	51.4	68.0	17.7	58.5	47.2	45.2
Saesneg	33.5	17.8	56.8	43.7	10.0	53.9	45.0	62.7	20.2	35.4	45.1	44.5
Arweinyddiaeth	20.9	30.0	39.3	30.2	15.7	46.7	59.9	54.3	88.6	36.4	52.6	43.0

	Cefnogi cyfranogiad						Cefnogi dilyniant					Pob un
	Gweithiwr di-waith ac anweithredol economaidd 25+ oed	Gweith iwr mewn perygl o dlodi	Lleihau NEET 16-24	Cyfan-swm	Cynyddu, ymgysylltu	Mynd i'r afael â sgiliau isel	Cynyddu sgiliau canolrad-dol / uchel	Gradd-edigion yn ymgysylltu	Menywod yn y gweithlu	Gweithwyr gofal plant	Cyfanswm	
Gwerthu	18.2	12.6	39.2	27.9	7.2	29.5	20.4	*	13.2	*	22.4	24.8
Darllen ac ysgrifennu	18.0	9.1	17.6	17.3	8.4	23.7	20.0	82.9	24.6	19.8	20.9	19.4
Chwilio am swydd, ysgrifennu CV neu sgiliau cyfweiliad	27.6	7.5	24.6	25.0	11.5	14.9	13.3	46.2	36.0	12.6	14.4	19.0
TG uwch neu arbenigol	9.2	12.2	16.7	13.0	2.9	17.1	17.9	(60)**	4.1	(10)**	16.4	14.9
Y Gymraeg	7.6	3.8	17.0	11.9	4.5	18.3	15.4	17.6	3.7	17.1	15.4	13.9
Wedi gallu defnyddio'r sgiliau a enillwyd***	65.4	76.0	78.5	72.3	68.5	85.1	88.1	88.0	92.2	(90)**	85.8	80.1
Sampl	2,942	1,365	2,652	6,959	1,137	3,703	8,307	136	531	81	13,895	20,854

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022, CATI llawn yn unig

Sylfaen: Pob cyfranogwr

*Yn dynodi ffigur wedi'i atal oherwydd bod meintiau sampl yn llai na 10.

**Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn rhoi brasamcan o werthoedd at ddibenion cynnal anhysbysrwydd.

***Mae'r rhai a nododd nad oeddent wedi ennill sgiliau wedi'u heithrio o'r amcangyfrifon hyn.

6. Gwella Cyfranogiad yn y Farchnad Lafur

Cyflwyniad

- 6.1 Mae'r adran hon yn ystyried rôl gweithrediadau ESF o ran cefnogi cyfranogiad yn y farchnad lafur ymhlith y rhai a oedd yn ddi-waith yn flaenorol. Yn benodol, mae'r adran hon yn ystyried y rhai a oedd naill ai'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar¹² cyn cael cefnogaeth yr ESF. Yn gyntaf, ystyrir yr anawsterau a wynebwyd gan gyfranogwyr wrth ddod o hyd i waith cyn ymgymryd â gweithrediad ESF¹³. Yna defnyddir adran hanes gyrfa yr Arolwg o Gyfranogwyr i archwilio llwybrau pontio i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithrediad ESF. Yna cyflwynir archwiliad manylach o statws gweithgarwch cyfranogwyr ESF chwe mis ar ôl iddynt gwblhau eu gweithrediad ESF ac ar adeg yr arolwg.

Diweithdra ac anweithgarwch cyn ymgymryd â gweithrediad ESF

- 6.2 Mae Tabl 6.1 yn cyflwyno gwybodaeth am hyd y cyfnod di-waith ymhlith cyfranogwyr ESF a oedd naill ai'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn cael eu cefnogi gan eu gweithrediadau. Roedd tua 40 y cant o gyfranogwyr di-waith a gynorthwywyd gan weithrediadau o dan y thema cefnogi cyfranogiad wedi bod yn ddi-waith am lai na 12 mis. Fodd bynnag, mae dadansoddiadau ar wahân ar gyfer Amcanion Penodol yn amlygu cefndiroedd marchnad lafur tra gwahanol y rhai a gefnogwyd gan weithrediadau o fewn y thema hon.
- Roedd 45 y cant o'r rhai a gynorthwywyd gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gynyddu cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar wedi bod yn ddi-waith am fwy na thair blynedd.
 - Roedd 96 y cant o'r rhai a gynorthwywyd gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi cyflogadwyedd pobl mewn perygl o dlodi wedi bod yn ddi-waith am lai na

¹² Yn yr adran hon, mae'r bobl economaidd anweithgar yn cynnwys y rhai mewn gwaith gwirfoddol di-dâl a'r rhai a oedd yn ddi-waith ac nad oeddent yn chwilio am waith. Ni chynhwysir y rhai a oedd mewn addysg neu hyfforddiant cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF.

¹³ Mewn mwyafrif o achosion, mae'r ymatebwyr hyn wedi ymgymryd â gweithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi cyfranogiad yn y farchnad lafur. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn Adran 3, allan o tua 7,300 o ymatebwyr a oedd yn anghyflogedig yn flaenorol, cofnodir mewn cofnodion gweinyddol bod bron i fil gan wedi cymryd rhan mewn gweithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi dilyniant mewn cyflogaeth (h.y. ymyriadau wedi'u hanelu at bobl mewn gwaith). Er mwyn bod yn gyflawn, cedwir yr ymatebwyr hyn ar gyfer gweithrediadau a oedd yn cefnogi dilyniant yn y dadansoddiadau sy'n dilyn. Fodd bynnag, oherwydd y meintiau sampl bach sy'n gysylltiedig â'r grŵp hwn, ni chyflwynir data ar lefel Amcan Penodol.

12 mis. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd Hyfforddiant Diswyddo ReAct o fewn yr Amcan Penodol hwn.

- Ymhlith y cyfranogwyr a gefnogwyd gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at leihau lefelau NEET ymhlith pobl ifanc 16-24 oed, er bod hanner wedi nodi eu bod wedi bod yn ddi-waith am lai na 12 mis, dywedodd mwy na chwarter ohonynt (26 y cant) nad oeddent erioed wedi cael swydd.

Tabl 6.1: Amser ers y swydd ddiwethaf:

	Cefnogi cyfranogiad				Cefnogi dilyniant	Pob un
	Gweithiwr di-waith ac anweithredol economaidd 25+ oed	Gweithiwr mewn perygl o dlodi	Lleihau NEET 16-24	Cyfanswm		
Llai na 3 mis	6.7	60.6	20.6	15.6	34.2	17.4
3-6 mis	6.5	26.9	16.3	11.7	17.8	12.4
6-12 mis	9.6	8.3	13.1	11.0	13.2	11.2
1-2 flynedd	13.9	1.8	9.6	11.4	7.3	11.0
2-3 blynedd	11.5	0.2	5.6	8.4	3.6	7.9
3 mlynedd neu fwy	44.9	0.2	5.8	26.0	6.2	24.0
Erioed wedi cael swydd	3.5	0.0	26.2	12.9	15.7	13.2
Ddim yn gwybod	3.4	2.1	2.7	3.0	2.0	2.9
Cyfanswm	100	100	100	100	100	100
Sampl	3,011	1,241	2,055	6,307	960	7,267

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022


Sylfaen: Pobl a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn ymgymryd â gweithrediad ESF.

- 6.3 Mae dadansoddi fesul nodwedd bersonol ddethol (gweler Tabl A.4A) yn datgelu bod menywod, cyfranogwyr hŷn, y rhai â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, y rhai â phlant dibynnol a gofalwyr yn fwy tebygol o fod heb ddal swydd yn ystod y tair blynedd cyn cymryd rhan mewn gweithrediad ESF.
- 6.4 O ran nodweddion y cwrs, nododd mwy nag un o bob pedwar (26 y cant) o'r cyfranogwyr a gefnogwyd o dan Echelin Flaenoriaeth 3 (Cyflogaeth a Chyrhaeddiad leuenctid) nad oeddent erioed wedi dal swydd cyn cymryd rhan mewn gweithrediad ESF (gweler Tabl A.4B).

Anawsterau o ran dod o hyd i waith

- 6.5 Yn Ffigur 6.1, cyflwynir y rhesymau a roddwyd gan gyfranogwyr am yr anawsterau a wynebwyd ganddynt wrth ddod o hyd i waith cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF. Yr achosion a adroddwyd amlaf oedd eu diffyg profiad gwaith perthnasol (51 y cant); anawsterau o ran cael gwaith priodol (44 y cant); peidio â bod â'r sgiliau cywir (43 y cant) a pheidio â bod â'r cymwysterau cywir (41 y cant).

Ffigur 6.1: Anawsterau o ran dod o hyd i waith



Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022

Sylfaen: Pobl a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn ymgymryd â gweithrediad ESF.

- 6.6 Mae Tabl 6.2 yn archwilio'r anawsterau a brofwyd gan wahanol grwpiau o gyfranogwyr ESF. Ymhlith y rhai a gynorthwywyd gan weithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar, roedd problemau iechyd (41 y cant), bod â chyfrifoldebau gofalu (29 y cant), methu â fforddio gofal plant (23 y cant), dim ond eisiau gweithio'n rhan amser (28 y cant), a chredu na fyddent yn well eu byd yn ariannol mewn gwaith (19 y cant) i gyd yn broblemau a oedd yn gymharol bwysig i'r grŵp hwn.
- 6.7 Ymhlith y rhai a gynorthwywyd gan weithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl mewn perygl o dlodi, peidio â bod â'r cymwysterau cywir (42 y cant) a pheidio â

bod â'r sgiliau cywir (39 y cant) oedd yr anawsterau a nodwyd amlaf. Fodd bynnag, gan fod y bobl yn y grŵp hwn wedi'u nodweddu'n gyffredinol fel rhai sydd wedi bod allan o waith am gyfnod cymharol fyr yn unig, nodwyd llai o anawsterau.

6.8 Ymhlith y rhai a gymerodd ran mewn gweithrediadau a oedd wedi'u hanelu at leihau lefelau NEET ymhlith pobl ifanc 16-24 oed, daeth diffyg profiad gwaith perthnasol (64 y cant) i'r amlwg fel yr anhawster a nodwyd amlaf wrth ddod o hyd i waith.

6.9 Mae dadansoddiad a wnaed ar gyfer gwahanol is-grwpiau poblogaeth (gweler Tabl A.5A) yn dangos:

- bod menywod, y rhai â phlant dibynnol a gofalwyr yn fwy tebygol o nodi anawsterau sy'n gysylltiedig â bod eisiau gweithio'n rhan amser yn unig, bod â chyfrifoldebau gofalu a methu â fforddio gofal plant;
- bod pwysigrwydd peidio â chael profiad gwaith perthnasol yn lleihau mewn cysylltiad ag oedran;
- bod bron hanner (46 y cant) y cyfranogwyr 55 oed a hŷn wedi nodi bod eu hoedran yn anhawster o ran dod o hyd i waith;
- bod mwy na 7 o bob 10 o'r cyfranogwyr (71 y cant) â chyflyrau iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio wedi nodi bod cyflyrau iechyd yn anhawster o ran dod o hyd i waith;
- bod y rhai â chymwysterau lefel is cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF yn fwy tebygol o nodi bod y ffaith nad oedd ganddynt brofiad gwaith perthnasol (53 y cant), nad oedd ganddynt y sgiliau cywir (48 y cant), a nad oedd ganddynt y cymwysterau cywir (47 y cant) yn anawsterau o ran dod o hyd i waith.

Tabl 6.2: Anawsterau o ran dod o hyd i waith

	Cefnogi cyfranogiad				Cefnogi dilyniant	Pob un
	Gweithiwr di-waith ac economaidd anweithredol 25+ oed	Gweithiwr mewn perygl o dlodi	Lleihau NEET 16-24	Cyfanswm		
Dim profiad gwaith perthnasol	41.9	29.6	64.1	50.5	52.8	50.8
Anodd cyrraedd gwaith priodol	44.7	31.8	47.1	45.0	32.3	43.7
Ddim â'r sgiliau cywir	42.1	38.7	44.2	42.8	41.7	42.7
Ddim â'r cymwysterau cywir	41.7	42.3	40.8	41.3	37.7	41.0
Dim swyddi priodol lle rydych chi'n byw	34.3	32.1	33.5	33.8	25.8	33.0
Problemau iechyd	40.7	8.6	25.3	32.4	12.8	30.4
Rydych chi eisiau gweithio'n rhan amser yn unig	27.8	10.3	18.3	22.8	7.5	21.3
Eich oedran	19.8	18.3	22.7	20.9	17.7	20.6
Bod â chyfrifoldebau gofalu	29.2	8.5	11.4	20.5	10.3	19.5
Methu â fforddio gofal plant	23.4	4.1	8.7	16.1	7.0	15.2
Yn credu na fydddech chi'n well eich byd yn ariannol mewn gwaith	18.9	6.0	11.6	15.1	8.4	14.5
Bod â chofnod troseddol	6.9	1.3	2.5	4.7	1.2	4.4
Dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau	5.2	*	*	*	*	3.2
Sampl	2,680	1,108	1,826	5,614	865	6,479

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022

Sylfaen: Pobl a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn ymgymryd â gweithrediad ESF.

*Yn dynodi ffigur wedi'i atal oherwydd bod meintiau sampl yn llai na 10.

Pontio i gyflogaeth

- 6.10 Mae olrhain gweithgareddau ymatebwyr ers iddynt gael eu cefnogi gan weithrediadau ESF am y tro cyntaf yn golygu bod angen cael gwybodaeth am yr amser a dreuliwyd gan gyfranogwyr ar y cynlluniau hyn, a'r hyn a ddigwyddodd iddynt wedi hynny. Mae hyn yn gofyn am gyfuno gwybodaeth am hyd gweithrediad sydd wedi'i chynnwys mewn cofnodion gweinyddol â data o'r Arolygon o Gyfranogwyr sy'n gofyn i ymatebwyr ddarparu cyfrif dyddiedig¹⁴ o'r prif weithgareddau yr oeddent wedi cymryd rhan ynddynt ers iddynt adael cefnogaeth eu gweithrediadau¹⁵.
- 6.11 Mae Ffigur 6.2 yn dangos sut yr oedd y cyfranogiad mewn cyflogaeth ar gyfer y rhai a gynorthwywyd gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi cyfranogiad yn ystod y cyfnod wedi cynyddu ers i gyfranogwyr dderbyn cefnogaeth gan eu gweithrediadau ESF am y tro cyntaf (wedi'i gynrychioli fel 'Mis 1').¹⁶ Ar draws pob un o'r Amcanion Penodol o fewn y thema hon, cynyddodd y cyfranogiad mewn cyflogaeth dros amser wrth i gyfranogwyr adael y gweithrediadau hyn a dechrau cyflogaeth.
- 6.12 Roedd canran y cyfranogwyr a aeth i gyflogaeth yn uwch ymhlith y rhai a gafodd gefnogaeth gan weithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl mewn perygl o dlodi (81 y cant ar ôl 18 mis). Mae'r cynnydd sydyn mewn cyflogaeth a ddangoswyd yn y grŵp hwn, hyd yn oed o fewn ychydig fisoedd yn unig i dderbyn cefnogaeth gan weithrediad ESF am y tro cyntaf, yn adlewyrchu'r modd y targedwyd yr ymyriadau hyn a oedd wedi'u hanelu at bobl ddi-waith tymor byr a phobl a oedd wedi colli eu swydd yn ddiweddar.
- 6.13 Roedd lefelau cyflogaeth ar eu hisaf ymhlith y rhai a gafodd gefnogaeth gan weithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar. Mae'r cynnydd mewn cyflogaeth a welwyd yn ystod y cyfnod a ddilynodd eu cyfranogiad mewn gweithrediad ESF hefyd yn fwy graddol. Ymhlith y grŵp hwn, roedd 37 y cant o'r cyfranogwyr mewn cyflogaeth 18 mis ers iddynt gael eu cefnogi gan weithrediad ESF am y tro cyntaf.


Roedd y gofynion cymhwysra ar gyfer cynnwys cyfranogwyr yn samplau'r arolygon yn pennu y dylai cyfranogwyr fod wedi gadael eu darpariaeth o leiaf flwyddyn cyn y cyfweiliad. Mae hyn yn golygu y dylai hanes cyflogaeth pob ymatebydd gwmpasu cyfnod o 12 mis o leiaf, ar yr amod bod ymatebwyr yn gallu cofio manylion y gweithgareddau yr oeddent wedi'u cyflawni ers gadael cefnogaeth yr ESF.

¹⁵ Ar draws y ddau arolwg, gellid cael cyfrif dyddiedig cyflawn o'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan gyfranogwyr ers iddynt gael eu cefnogi gyntaf gan weithrediad ESF yn achos 5,384 o ymatebwyr.

¹⁶ Ym Mis 1 gwelir bod yr holl gyfranogwyr yn cael cefnogaeth gan weithrediad ESF. Gwelir bod cyfranogwyr yn gadael gweithrediadau ESF am y tro cyntaf ym Mis 2 os mai dim ond un mis oedd hyd eu cefnogaeth.

6.14 Lle mae meintiau sampl yn caniatáu, mae'n bosibl cymharu llwybrau cyflogaeth ar gyfer gwahanol is-grwpiau o gyfranogwyr ESF. Mae cymariaethau o'r fath yn taflu goleuni ar y gwahaniaethau yn y lefelau cyflogaeth ar ôl dderbyn cefnogaeth ESF a'r cyflymder yr aeth grwpiau gwahanol i gyflogaeth. Oherwydd y nifer fach o achosion sydd ar gael ar gyfer rhai grwpiau o ymatebwyr, mae'r dadansoddiadau hyn yn seiliedig ar ddata wedi'u cyfuno ar draws yr holl Amcanion Penodol.

Ffigur 6.2: Llwybrau pontio i gyflogaeth fesul amcan gweithrediad




Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022

Sylfaen: Pobl a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn ymgymryd â gweithrediad ESF, gyda data hanes gwaith cyflawn.

6.15 Mae Ffigur 6.3 yn dangos y llwybrau pontio i gyflogaeth a ddilynwyd gan gyfranogwyr ESF a oedd yn ddi-waith yn flaenorol, fesul rhyw. Ymhlith gweithrediadau ar draws yr holl Amcanion Penodol, cynyddodd cyflogaeth yn sylweddol i ddechrau, gan gyrraedd 24 y cant o fewn chwe mis i dderbyn cefnogaeth ESF am y tro cyntaf. Parhaodd y twf yn y cyfranogiad mewn cyflogaeth wedi hynny, er bod hynny ar gyfradd ostyngol. Erbyn 12 mis ar ôl ymgymryd â gweithrediad ESF, roedd y gyfradd gyflogaeth wedi cynyddu ymhellach i 40 y cant. Erbyn 18 mis, cofnodwyd bod bron hanner y cyfranogwyr ESF (48 y cant) mewn cyflogaeth â thâl. Dengys y dadansoddiad fod y patrymau mynediad hyn i gyflogaeth yn debyg ar gyfer dynion a menywod.

Ffigur 6.3: Pontio i gyflogaeth fesul rhyw




Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022

Sylfaen: Pobl a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn ymgymryd â gweithrediad ESF, gyda data hanes gwaith cyflawn.

6.16 Mae Ffigur 6.4 yn dangos y cyfraddau pontio is i gyflogaeth a welwyd ymhlith y rhai â chyflyrau iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio. Ar ôl 12 mis ar ôl derbyn cefnogaeth ESF am y tro cyntaf, amcangyfrifwyd bod cyfranogiad mewn cyflogaeth

ymhlith y rhai â chyflwr iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio yn 28 y cant. Ymhlith y rhai heb gyflwr o'r fath, dyblodd y ffigur hwn i 56 y cant. Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at yr effaith sylweddol y mae cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio yn ei chael ar ganlyniadau cyflogaeth o'u cymharu â nodweddion eraill, a'r effaith andwyol y mae rhwystrau cymdeithasol yn ei chael o ran galluogi'r rhai sydd â chyflyrau o'r fath i ddechrau cyflogaeth.

Ffigur 6.4: Pontio i gyflogaeth fesul cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith




Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022

Sylfaen: Pobl a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn ymgymryd â gweithrediad ESF, gyda data hanes gwaith cyflawn.

6.17 Mae Ffigur 6.5 yn archwilio llwybrau cyflogaeth cyfranogwyr ESF yn ôl y lefelau cymhwyster a oedd ganddynt cyn cael eu cefnogi gan weithrediad ESF. Unwaith eto, rydym yn diffinio lefelau cyrrhaeddiad isel fel rhywun sydd â chymwysterau nad ydynt yn uwch na Lefel 2¹⁷.

6.18 Erbyn chwe mis ar ôl cymryd rhan mewn gweithrediad ESF, roedd cyflogaeth ymhlith y rhai â lefelau cyrrhaeddiad is (20 y cant) yn is na'r hyn a welwyd ymhlith y rhai â lefelau uwch o gymwysterau (29 y cant). Er bod cyflogaeth ymhlith y ddau grŵp yn parhau i gynyddu ar ôl cefnogaeth ESF, parhaodd gwahaniaeth o 10 pwynt y cant yn y gyfradd gyflogaeth dros y 12 mis canlynol.

Ffigur 6.5: Pontio i gyflogaeth drwy gyrhaeddiad addysgol blaenorol



Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022

Sylfaen: Pobl a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn ymgymryd â gweithrediad ESF, gyda data hanes gwaith cyflawn.


6.19 Mae'r dadansoddiadau hyd yma wedi archwilio canlyniadau cyflogaeth yn unig. Fodd bynnag, ar gyfer gweithrediadau sy'n gysylltiedig â lleihau lefelau NEET ymhlith pobl

¹⁷ Wedi'i ddiffinio fel rhywun a oedd â chymwysterau heb fod yn uwch na Lefel 2 (sy'n cyfateb i TGAU graddau A*-C, Prentisiaethau Canolradd ac amrywiol Ddiplomâu, Dyfarniadau a Thystysgrifau Lefel 2). Mae'r diffiniad hwn o gymwysterau isel yn wedi'i yrru gan ystyriaethau ynghylch meintiau samplau fel y gellir gwneud cymariaethau dibynadwy rhwng gwahanol grwpiau o ymatebwyr.

ifanc 16-24 oed, mae hefyd yn bwysig ystyried mynediad dilynol i addysg a hyfforddiant. Dengys Ffigur 6.5, 12 mis ar ôl cael cefnogaeth ESF am y tro cyntaf, fod 12 y cant o'r cyfranogwyr a gefnogwyd o dan yr Amcan Penodol hwn wedi mynd i addysg neu hyfforddiant. Ar y cyd â'r rhai a oedd wedi dechrau cyflogaeth (40 y cant), roedd mwy na hanner y grŵp hwn wedi dechrau naill ai cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant o fewn 12 mis i gael cefnogaeth ESF am y tro cyntaf.

- 6.20 Dangosir bod y mynediad i addysg a hyfforddiant wedi dilyn patrwm tebyg i'r mynediad i gyflogaeth. O ran gwahaniaethau yn ôl rhyw o fewn yr Amcan Penodol hwn, mae Ffigur 6.6 hefyd yn dangos bod cyfraddau mynediad i addysg a hyfforddiant yn debyg ar gyfer dynion a menywod. Fodd bynnag, gwelwyd cyfraddau mynediad uwch i gyflogaeth ymhlith dynion. Ar ôl 12 mis ar ôl cael cefnogaeth ESF am y tro cyntaf, roedd 54 y cant o wrywod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant o gymharu â 50 y cant o fenywod.

Ffigur 6.6: Pontio i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant: fesul rhyw




Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022

Sylfaen: Pobl a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn ymgymryd â gweithrediad ESF, gyda data hanes gwaith cyflawn.

6.21 O ran lefelau cyrhaeddiad addysgol blaenorol, mae Ffigur 6.7 yn dangos, er bod y rhai â lefelau cyrhaeddiad addysgol is yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ar ôl derbyn cefnogaeth ESF, roeddent yn fwy tebygol o fynd i addysg neu hyfforddiant. O ran cynorthwyo cyfranogwyr i osgoi dod yn NEET, roedd canlyniadau cyflogaeth gwaeth y rhai â lefelau is o gyrhaeddiad addysgol wedi'u gwrthbwysu'n rhannol gan y gyfran uwch o gyfranogwyr a aeth i addysg neu hyfforddiant.

Ffigur 6.7: Pontio i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant: fesul cyrhaeddiad blaenorol



Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022

Sylfaen: Pobl a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn ymgymryd â gweithrediad ESF, gyda data hanes gwaith cyflawn.

Statws gweithgarwch chwe mis ar ôl cefnogaeth ESF

6.22 Ymhlith mesurau perfformiad ESF, nod Dangosyddion Canlyniadau Tymor Hir (LTRIs) oedd nodi newidiadau yn sefyllfaoedd cyfranogwyr chwe mis ar ôl gadael gweithrediad.¹⁸ Dengys Tabl 6.3, ymhlith y rhai a oedd yn ddi-waith neu'n

¹⁸ Ar ôl i'r ymatebwyr i'r Arolygon o Gyfranogwyr gwblhau adran hanes cyflogaeth yr holiadur, gofynnir cwestiynau ychwanegol i gadarnhau statws gweithgarwch yr ymatebwyr ymhen chwe mis ar ôl iddynt adael cefnogaeth eu rhaglen ESF. Mae'n bwysig nodi felly nad yw'r pwynt hwn yn ystyried yr amser a dreulir yn cael cefnogaeth ESF.

economaidd anweithgar cyn cael eu cefnogi gan weithrediad ESF, fod ychydig dros hanner (52 y cant) yn gyflogedig chwe mis ar ôl iddynt adael eu gweithrediadau. Yn unol â'r dadansoddiad blaenorol o lwybrau pontio i gyflogaeth, roedd cyfraddau cyflogaeth yn uwch ymhlith y rhai a oedd wedi cael cefnogaeth gan weithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl mewn perygl o dlodi (79 y cant) o gymharu â'r rhai a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar (44 y cant).

- 6.23 Cyflwynir dadansoddiad o wahanol is-grwpiau poblogaeth yn Nhabl A.6A. Ymhlith y rhai nad oeddent mewn cyflogaeth cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF, roedd cyfranogiad dilynol mewn cyflogaeth yn is ymhlith y rhai 55 oed a hŷn (40 y cant), y rhai â chyflyrau iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio (32 y cant) a'r rhai â lefelau is o gyrhaeddiad addysgol (47 y cant). Ni welwyd unrhyw wahaniaeth wrth gymharu'r rhai a gafodd gefnogaeth ESF cyn pandemig COVID-19 ac ar ei ôl (gweler Tabl A.6B).

Oriau a weithiwyd chwe mis ar ôl cefnogaeth ESF

- 6.24 Yn gyffredinol, roedd traean (33 y cant) o'r rhai a oedd mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl cefnogaeth ESF yn ystyried eu bod yn gweithio'n rhan amser. Roedd cyflogaeth ran-amser yn arbennig o gyffredin ymhlith y rhai a oedd wedi cael cefnogaeth gan weithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar (46 y cant). Roedd y cyfranogwyr hyn ymhlith y rhai a oedd fwyaf tebygol o ddatgan bod yr anawsterau a gawsant wrth ddod o hyd i waith cyn cefnogaeth ESF yn ymwneud â'u dymuniad i weithio'n rhan amser yn unig (gweler Tabl 6.2).
- 6.25 Ar draws yr holl gyfranogwyr a gafodd gyflogaeth ar ôl cael cefnogaeth ESF, nododd 13 y cant eu bod yn gweithio'n rhan-amser ond y byddai'n well ganddynt weithio'n llawnamser. Felly, byddai'n well gan 39 y cant o'r rhai sy'n gweithio'n rhan-amser chwe mis ar ôl iddynt gymryd rhan yn ESF fod wedi bod yn gweithio'n llawnamser. Roedd cyfran y gweithwyr rhan-amser a oedd yn gwneud hynny ar sail anwirfoddol ar ei huchaf ymhlith y rhai a oedd yn cael cefnogaeth gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at leihau lefelau NEET ymhlith pobl ifanc 16-24 oed (54 y cant).
- 6.26 O'r rhai a gyflogwyd ar ôl chwe mis yn dilyn cefnogaeth ESF, mae Tabl A.6A yn dangos bod nifer yr achosion o weithio'n rhan amser yn uwch ymhlith menywod (47 y

cant), y rheini â phlant dibynnol (53 y cant) a gofalwyr (57 y cant). Ymhlith y rhai a oedd yn gweithio'n rhan amser, roedd y gyfran a nododd y byddai'n well ganddynt weithio'n llawnamser ar ei huchaf ymhlith dynion (59 y cant) a'r rhai o dan 25 oed (55 y cant).

Tabl 6.3: Statws gweithgarwch economaidd chwe mis ar ôl cefnogaeth ESF

	Cefnogi cyfranogiad				Cefnogi dilyniant	Pob un
	Gweithiwr di-waith ac economaidd anweithredol 25+ oed	Gweithiwr mewn perygl o dlodi	Lleihau NEET 16-24	Cyfanswm		
Cyflogedig	40.1	64.4	47.8	44.8	79.8	48.3
Hunangyflogedig	4.2	14.4	1.7	3.7	5.3	3.9
Gwaith rhan-amser	45.6	17.7	29.7	36.2	15.9	32.8
Rhan-amser yn anwifoddol	13.7	5.3	16.1	13.9	6.9	12.8
<i>Fel % o weithwyr rhan-amser</i>	<i>30.0</i>	<i>29.9</i>	<i>54.2</i>	<i>38.4</i>	<i>43.4</i>	<i>39.0</i>
Di-waith	30.9	14.6	26.5	28.1	7.7	26.0
Addysg a hyfforddiant	3.0	1.4	16.1	8.5	3.9	8.0
Economaidd anweithgar	21.8	5.2	7.9	15.0	3.3	13.8
Cyfanswm	100	100	100	100	100	100
Sampl*	2,897	1,209	1,997	6,103	944	7,047

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022

Sylfaen: Pobl a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn ymgymryd â gweithrediad ESF.

*Ddim yn cynnwys pobl a nododd "Arall" neu "Ddim yn gwybod" ar gyfer eu statws.

6.27 O ran nodweddion y gweithrediad (gweler Tabl A.6B), roedd nifer yr achosion o gyflogaeth ran-amser ar eu huchaf (41 y cant) ymhlith y cyfranogwyr hynny a oedd yn ymwneud â gweithrediadau wedi'u hanelu at drechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy (Echelin Flaenoriaeth 1). Fodd bynnag, roedd cyfran y bobl mewn cyflogaeth ran-amser anwifoddol ymhlith y grŵp hwn yn isel (30 y cant).

Gweithgarwch economaidd ar adeg yr arolwg

6.28 Erbyn adeg yr arolwg, roedd y cyfraddau cyflogaeth ymhlith y rhai a oedd yn ddi-waith yn flaenorol neu'n economaidd anweithgar cyn cael cefnogaeth ESF wedi cynyddu ymhellach. Dengys Tabl 6.4, ymhlith y rhai nad oeddent mewn cyflogaeth

cyn cael cefnogaeth ESF, fod 58 y cant yn gyflogedig ar adeg yr arolwg. Roedd cyflogaeth ar ei uchaf ymhlith y rhai a gymerodd ran mewn gweithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl mewn perygl o dlodi (86 y cant) ac ar ei hisaf ymhlith y gweithrediadau hynny a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar (49 y cant).

- 6.29 Yn Nhabl A.7A, cyflwynir dadansoddiad o statws gweithgarwch ar adeg yr arolwg ar gyfer gwahanol is-grwpiau poblogaeth. Roedd cyfranogiad dilynol mewn cyflogaeth ar adeg yr arolwg ymhlith y rhai a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn cefnogaeth ESF yn gymharol isel ymhlith pobl 55 oed a hŷn (39 y cant), y rhai â chyflyrau iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio (33 y cant) a'r rhai â lefelau cyrhaeddiad addysgol is (53 y cant). Roedd gostyngiad bach mewn canlyniadau cyflogaeth (gostyngiad o 2 bwynt canran) wrth gymharu'r rhai a gafodd gefnogaeth ESF cyn pandemig COVID-19 ac ar ei ôl (gweler Tabl A.7B).

Tabl 6.4: Gweithgarwch economaidd ar adeg yr arolwg

	Cefnogi cyfranogiad				Cefnogi dilyniant	Pob un
	Gweithiwr di-waith ac economaidd anweithredol 25+ oed	Gweithiwr mewn perygl o dlodi	Lleihau NEET 16-24	Cyfanswm		
Cyflogedig	45.0	72.7	54.4	50.6	77.2	53.3
Hunangyflogedig	4.2	13.3	2.7	4.1	8.7	4.5
Di-waith	21.7	5.9	19.7	19.9	5.5	18.5
Addysg a hyfforddiant	2.6	0.7	12.4	6.6	4.3	6.4
Economaidd anweithgar	26.6	7.3	10.8	18.8	4.3	17.3
Cyfanswm	100	100	100	100	100	100
Sampl*	2,902	1,214	2,032	6,148	951	7,099

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022

Sylfaen: Pobl a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn ymgymryd â gweithrediad ESF.

*Ddim yn cynnwys pobl a nododd "Arall" neu "Ddim yn gwybod" ar gyfer eu statws.

Cyflogaeth ar adeg yr arolwg

- 6.30 Mae Tabl 6.5 yn cyflwyno gwybodaeth am nodweddion y swyddi a oedd gan y cyfranogwyr ar adeg yr arolwg a oedd yn ddi-waith cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF.

Swyddi'r cyfranogwyr

- 6.31 Cafodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr mewn gweithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi cyfranogiad swyddi o fewn galwedigaethau llai medrus¹⁹. Mae hyn yn amlwg ymhlith y rhai a gynorthwywyd gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar a'r rhai a oedd wedi'u hanelu at leihau lefelau NEET ymhlith pobl ifanc 16-24 oed, yr oedd mwy nag 1 o bob 5 (22 y cant) yn eu plith yn gyflogedig mewn galwedigaethau elfennol (Prif Grŵp 9 yn y Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC)).
- 6.32 Roedd y rhai a gynorthwywyd gan weithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl mewn perygl o dlodi yn fwy tebygol o gael cyflogaeth mewn galwedigaethau medrau uwch, gan gynnwys galwedigaethau proffesiynol (Prif Grŵp SOC 2) a galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cyswllt (Prif Grŵp SOC 3). Y cyfranogwyr hyn hefyd oedd fwyaf tebygol o nodi bod ganddynt gyfrifoldebau goruchwyllo yn eu rolau (29 y cant).
- 6.33 Mae archwiliad o alwedigaethau'r cyfranogwyr fesul nodweddion personol amrywiol (gweler Tabl A.8A) yn dangos y gwahaniad rhyw yn y rolau a ddelir gan gyfranogwyr ESF. Roedd bron i draean o fenywod (31%) yn gyflogedig yn y galwedigaethau gofalu a hamdden, a galwedigaethau gwasanaethau eraill (Prif Grŵp SOC 6). Dim ond 6 y cant o ddynion a oedd mewn cyflogaeth ar adeg yr arolwg sydd â rolau o'r fath. Mewn cyferbyniad, roedd dynion yn fwy tebygol o weithio o fewn:
- Prif Grŵp SOC 5: Galwedigaethau masnachau medrus (20 y cant o gymharu â 3 y cant ymhlith menywod),
 - Prif grŵp SOC 8: Gweithredwyr prosesau a pheiriannau (15 y cant o gymharu â 3 y cant)
 - Prif Grŵp SOC 9: Galwedigaethau elfennol (22 y cant o gymharu ag 16 y cant).
- 6.34 Roedd y rhai â phlant dibynol a gofalcwyr hefyd yn fwy tebygol o fod wedi'u cyflogi mewn galwedigaethau gofalu a hamdden, a galwedigaethau gwasanaeth eraill (29 y cant a 31 y cant yn y drefn honno). Nid oedd yn ymddangos bod bod â chyflwr

¹⁹ Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn diffinio galwedigaethau 'medrau isel' fel rhai nad yw mynediad iddynt yn gysylltiedig yn gyffredinol ag Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol. Cynrychiolir y galwedigaethau hyn gan Brif Grwpiau 4, 6, 7, 8 a 9 o'r Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol. Gweler <https://www.ons.gov.uk/methodology/classificationsandstandards/standardoccupationalclassificationsoc/soc2020/soc2020volume1structureanddescriptionsunitgroups#principles-and-concepts>.

iechyd sy'n cyfyngu ar waith yn cael effaith sylweddol ar y mathau o swyddi a oedd gan y cyfranogwyr.

- 6.35 Roedd y rhai â lefelau cyrhaeddiad addysgol is yn fwy tebygol o fod wedi'u cyflogi mewn galwedigaethau medrau is. Roedd bron i un o bob pedwar o'r cyfranogwr (24%) a oedd yn meddu ar gymwysterau Lefel 2 neu is cyn iddynt gymryd rhan yn gyflogedig mewn galwedigaethau elfennol erbyn yr adeg y cynhaliwyd yr arolwg.
- 6.36 O ran nodweddion gweithrediadau, mae Tabl A.8B yn dangos bod cyfranogwyr mewn gweithrediadau o dan Echelin Flaenoriaeth 1 (Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy) ac Echelin Flaenoriaeth 3 (Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid) yn fwy tebygol o gael swyddi o fewn galwedigaethau medrau is.²⁰ Yn fras, roedd cyfansoddiad galwedigaethol y gyflogaeth ymhlith y rhai a gefnogwyd gan weithrediad ESF ers pandemig COVID-19 yn debyg i'r galwedigaethau y rhai a gefnogwyd cyn y pandemig (gweler Tabl A.8B).

Statws contractio ar adeg yr arolwg

- 6.37 O'r rhai a oedd yn ddi-waith cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF ond a oedd mewn cyflogaeth ar adeg yr arolwg, roedd 73 y cant yn gyflogedig ar gcontractau parhaol neu benagored. Roedd y ffigur hwn yn uwch (84 y cant) ymhlith y rhai a oedd wedi ymgymryd â gweithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl mewn perygl o dlodi. Fel arall, ar draws ystod o nodweddion personol, cymharol ychydig o amrywiad a welir yn statws contractio cyfranogwyr ESF (gweler Tabl A.8A).
- 6.38 O ran nodweddion gweithrediadau, y rhai a gefnogwyd gan weithrediadau o dan Echelin Flaenoriaeth 2 (Sgiliau ar gyfer Twf) oedd fwyaf tebygol o gael eu cyflogi ar gcontractau parhaol neu benagored (82 y cant, gweler Tabl A.8B).

Oriau a weithiwyd ar adeg yr arolwg

- 6.39 O'r rhai a oedd yn ddi-waith cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF ond a oedd mewn cyflogaeth ar adeg yr arolwg, roedd dros draean (36 y cant) yn gyflogedig ar sail ran-amser. Roedd gwaith ran-amser yn gymharol gyffredin ymhlith y rhai a gynorthwywyd gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi

²⁰ Gweler troednodyn 9 am ddiffiniad o alwedigaethau medrau isel.

cyflogadwydd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar, ac yn eu plith roedd bron hanner (49 y cant) yn gwneud gwaith rhan-amser.

Tabl 6.5: Nodweddion cyflogaeth gyfredol:

	Cefnogi cyfranogiad				Cefnogi dilyniant	Pob un
	Gweithiwr di-waith ac economaidd anweithredol 25+ oed	Gweithiwr mewn perygl o dlodi	Lleihau NEET 16-24	Cyfanswm		
Galwedigaeth (Prif Grwpiau SOC)						
1. Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch-swyddogion	4.3	8.9	2.5	3.9	3.7	3.9
2. Galwedigaethau proffesiynol	4.8	11.5	3.7	4.9	5.7	5.0
3. Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cyswllt	7.5	17.0	9.9	9.4	12.8	9.9
4. Gweinyddol ac ysgrifenyddol	11.9	11.8	8.7	10.5	11.7	10.7
5. Galwedigaethau masnachau medrus	7.1	13.9	11.9	9.8	25.1	12.1
6. Galwedigaethau gofalu a hamdden, a galwedigaethau gwasanaethau eraill	20.6	5.8	16.7	17.5	17.5	17.5
7. Gwerthiannau a gwasanaeth cwsmeriaid	11.6	3.6	16.4	13.0	8.4	12.3
8. Gweithredwyr prosesau a pheiriannau	10.3	18.0	8.2	10.1	6.3	9.5
9. Galwedigaethau elfennol	21.9	9.4	22.1	20.9	8.8	19.1
Statws contractio*						
Ar gontract parhaol neu benagored	73.1	83.5	68.9	72.0	81.2	73.4
Contract tymor penodol	10.2	10.0	12.5	11.2	10.6	11.2
Ar sail dros dro neu achlysurol	6.5	4.0	7.4	6.7	3.6	6.2
Contract dim oriau	10.2	2.5	11.2	10.0	4.6	9.2
Cyfrifoldebau goruchwyllo	18.0	29.0	20.6	20.1	34.2	22.3
Gwaith rhan-amser	49.4	18.6	33.2	39.4	18.5	36.2
Sampl**	1,246	907	1,078	3,231	742	3,973

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022, CATI llawn yn unig

Sylfaen: Pobl a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn cefnogaeth ESF ac mewn cyflogaeth ar adeg yr arolwg.

*Bydd samplau ar gyfer rhesi penodol yn amrywio ychydig oherwydd bod achosion lle atebwyd "Arall" neu "Ddim yn Gwybod" wedi'u hepgor.

*Mae statws contractio yn berthnasol i gyflogeion yn unig.

6.40 Drwy ddadansoddi fesul ystod o nodweddion personol (Tabl A.8A) gwelir bod gwaith rhan amser yn gymharol gyffredin ymhlith menywod (55 y cant), pobl 55 oed

a hŷn (49 y cant), pobl â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio (47 y cant), pobl â phlant dibynnol (58 y cant) a phobl a oedd yn ofalwyr (61 y cant).

- 6.41 O ran nodweddion gweithrediadau (Tabl A.8B), roedd cyflogaeth ran-amser yn fwy cyffredin (45 y cant) ymhlith y rhai a gefnogwyd gan weithrediadau o dan Echelin Flaenoriaeth 1 (Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy).

Anawsterau parhaus o ran dod o hyd i waith

- 6.42 Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn parhau i fod yn ddi-waith ar adeg yr arolwg am yr anawsterau yr oeddent yn parhau i'w cael wrth ddod o hyd i waith. Gellir cymharu'r rhain â'r anawsterau yr oedd cyfranogwyr yn eu cael cyn iddynt gael cefnogaeth ESF.
- 6.43 Mae Tabl 6.6 yn dangos bod yr anawsterau o ran dod o hyd i waith a nodwyd gan gyfranogwyr cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF yn wahanol i'r rhesymau a roddwyd gan gyfranogwyr a oedd yn ddi-waith ar adeg yr arolwg. Roedd problemau yn ymwneud â diffyg y cymwysterau, y sgiliau neu'r profiad gwaith cywir yn llai cyffredin. Fodd bynnag, cynyddodd cyfran y bobl a nododd broblemau iechyd fel rheswm dros eu hanawsterau o ran dod o hyd i waith, o 30 y cant i 42 y cant.
- 6.44 Dangosodd y dadansoddiad cynharach yn yr adran hon fod y rhai â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn llai tebygol o ddechrau cyflogaeth ar ôl cymryd rhan mewn gweithrediad ESF (Ffigur 6.3). Byddai'r rhai a oedd yn parhau'n ddi-waith ar adeg yr arolwg felly wedi bod yn fwy tebygol o ddioddef o gyflwr iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio. Mae cyfyngu'r sampl i'r ymatebwyr hynny a oedd yn ddi-waith cyn cefnogaeth ESF ac ar adeg yr arolwg wedi arwain at gynnydd pellach yng nghyfran y cyfranogwyr a nododd broblemau iechyd fel anhawster o ran dod o hyd i waith (47 y cant).

Tabl 6.6: Yr anawsterau parhaus o ran dod o hyd i waith

	Cyn cefnogaeth ESF	Ar ôl ymgymryd â gweithrediad ESF	
		Cyn ac ar ôl cefnogaeth ESF	Pob un
Ddim â'r cymwysterau cywir	41.0	33.9	32.6
Ddim â'r sgiliau cywir	42.7	33.2	31.1
Dim profiad gwaith perthnasol	50.6	37.9	36.2
Methu â fforddio gofal plant	15.2	13.7	13.1
Bod â chyfrifoldebau gofalu	19.5	22.1	21.3
Problemau iechyd	30.4	47.0	41.6
Eich oedran	20.6	17.2	16.0
Dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau	3.2	3.5	3.2
Bod â chofnod troseddol	4.4	5.6	4.7
Dim swyddi priodol lle rydych chi'n byw	33.1	29.9	29.1
Anodd cyrraedd gwaith priodol	43.7	40.7	37.5
Rydych chi eisiau gweithio'n rhan amser yn unig	21.2	24.6	24.0
Yn credu na fydddech chi'n well eich byd yn ariannol mewn gwaith	14.5	14.4	14.1
Sampl	6,479	2,430	3,664

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022, CATI llawn yn unig

Sylfaen: Pobl a oedd yn di-waith neu'n economaidd anweithgar cyn cefnogaeth ESF a/neu yn ddi-waith ar adeg yr arolwg.

Effaith pandemig COVID-19 ar ddod o hyd i waith

- 6.45 Gofynnwyd i ymatebwyr i Arolwg Cyfranogwyr ESF 2022 a oeddent yn meddwl bod pandemig COVID-19 wedi gwneud gwahaniaeth i'w cynnydd ers iddynt gwblhau eu cwrs ESF. Ymhlith y rhai a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF, mae Tabl 6.7 yn dangos bod bron i 6 o bob 10 (58%) wedi nodi nad oedd pandemig COVID-19 wedi dylanwadu ar eu dilyniant ar ôl iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF. Fodd bynnag, dywedodd dros draean (37%) ohonynt fod y pandemig wedi gwneud pethau'n anos. Dim ond 5% ddywedodd fod pethau wedi dod yn rhwyddach.
- 6.46 Gan edrych ar draws yr Amcanion Penodol, y rhai a oedd wedi'u cefnogi gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi cyflogadwyedd pobl mewn perygl o dlodi oedd leiaf tebygol o nodi bod pandemig COVID-19 wedi gwneud pethau'n anos (26%). Roedd gweithrediadau o dan yr amcan hwn yn darparu cefnogaeth i bobl ddi-waith tymor byr neu bobl a oedd wedi colli eu swydd yn ddiweddar. Felly, byddai

disgwyl i'r lefelau cyflogadwyedd fod yn gymharol uchel ymhlith y cyfranogwyr a gefnogwyd gan weithrediadau o dan yr amcan hwn.

Tabl 6.7: Effaith pandemig COVID-19 ar ddilyniant ar ôl cefnogaeth ESF

	Cefnogi cyfranogiad				Cefnogi dilyniant	Pob un
	Gweithiwr di-waith ac anweithredol economaidd 25+ oed	Gweithiwr mewn perygl o dlodi	Lleihau NEET 16-24	Cyfanswm		
Fe wnaeth pethau'n rhwyddach	5.0	9.2	5.6	5.4	5.6	5.4
Fe wnaeth pethau'n anoddach	40.2	26.0	36.0	38.1	26.9	37.1
Heb wneud gwahaniaeth mewn gwirionedd*	54.8	64.8	58.4	56.5	67.4	57.5
Cyfanswm	100	100	100	100	100	100
Sampl	1,672	435	845	2,952	414	3,366

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2022

Sylfaen: Pobl a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn ymgymryd â gweithrediad ESF.

*Yn cynnwys cyfran fach o ymatebwyr a oedd wedi ymateb "Ddim yn siŵr iawn".

6.47 Gwahaniaeth cymharol fach a welir wrth gymharu cyfranogwyr ar draws ystod o nodweddion personol (gweler Tab A.9A). Yr eithriad i hyn yw sefyllfa'r rhai â chyflyrau salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, ac yn eu plith nododd 42% fod pethau wedi mynd yn anos ers y pandemig.

6.48 Gofynnwyd i'r rhai a nododd fod pethau wedi dod yn anos neu'n rhwyddach oherwydd y pandemig pam felly. Mae Tabl 6.8 yn dangos mai'r rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd gan y rhai a ddywedodd fod pethau wedi mynd yn anos oedd:

- bod llai o swyddi o gwmpas yn gyffredinol (33%)
- bod y pandemig wedi cael effaith ddrwg ar y diwydiant yr oeddent wedi eisiau gweithio ynddo (17%)
- bod y pandemig wedi cael effaith ar eu hiechyd meddwl a/neu gorfforol (15%).

6.49 Awgrymodd llawer llai o gyfranogwyr fod pethau wedi dod yn rhwyddach oherwydd y pandemig. O'r rhai a wnaeth hynny, y prif resymau am hyn oedd:

- bod pandemig COVID-19 wedi arwain at ragor o swyddi gwag (41%)
- bod y gallu i weithio gartref neu o bell wedi rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt (27%)
- bod mwy o gyfleoedd gwaith cysylltiedig â COVID-19 (11%).

Tabl 6.8: Sut yr effeithiodd pandemig COVID-19 ar y dasg o chwilio am gyflogaeth

Pam mae pethau wedi dod yn anos oherwydd COVID-19?	
Llai o swyddi o gwmpas yn gyffredinol	33.0
Cafodd y pandemig effaith ddrwg ar y diwydiant rydw / roeddwn i eisiau gweithio ynddo	16.5
Effeithiwyd ar iechyd meddwl / corfforol	14.8
Addasu i'r newidiadau a achoswyd gan COVID-19	11.2
Effeithiwyd ar y gallu i weithio / collwyd swydd, gan gynnwys e.e. ar ffyrlo	9.0
Problemau gyda dulliau o ddysgu / cynnal cyfweiliadau / gweithio o bell	8.7
Roedd llai o gyrsiau hyfforddi ar gael	6.5
Dydwn i ddim eisiau defnyddio / wedi bod yn amharod i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus	5.4
Diffyg cefnogaeth / cyfathrebu	2.8
Problemau gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill	2.7
Sampl	1,202
Pam mae pethau wedi dod yn rhwyddach oherwydd COVID-19?	
Roedd COVID-19 wedi arwain at ragor o swyddi gwag / cyfleoedd gwaith	41.4
Mae'r gallu i weithio gartref neu o bell wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i mi	26.5
Cyfleoedd swyddi dros dro / adleoli yn ymwneud â COVID-19	11.0
Mae hyfforddiant ar-lein / hyfforddiant swydd wedi bod yn fwy hygyrch	9.9
Rwyf wedi gallu gwneud cais am swyddi ymhellach i ffwrdd oherwydd bod gweithio gartref yn opsiwn	8.1
Wedi gwella sgiliau / datblygu sgiliau newydd	7.6
Sampl	193

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2022

Sylfaen: Pobl a oedd yn ddi-waith neu economaidd anweithgar cyn cefnogaeth ESF ac sydd wedi nodi bod pethau wedi dod yn anos / rhwyddach oherwydd pandemig COVID-19.

7. Effaith ESF o ran Cefnogi Cyfranogiad mewn Cyflogaeth

Cyflwyniad

7.1 Mae'r adran hon yn asesu effaith gweithrediadau ESF o ran cefnogi pobl a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar²¹ cyn cefnogaeth ESF i gael cyflogaeth. Yn gyntaf, rydym yn ystyried canfyddiadau cyfranogwyr ESF ynghylch pwysigrwydd eu gweithrediad ESF o ran eu helpu i gael eu swydd bresennol. Yna rydym yn cyflwyno canlyniadau technegau Asesiad Gwrthffeithiol o Effaith (CIA), lle mae profiadau'r ymatebwyr i'r Arolwg ESF o'r farchnad lafur yn cael eu cymharu â phrofiadau grwpiau tebyg o bobl yn y farchnad lafur ehangach fel y gellir asesu effaith bosibl cefnogaeth ESF ar gyfranogiad yn y farchnad lafur.

Asesiad o'r effaith yr ymatebwyr

7.2 Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd mewn cyflogaeth ar adeg yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn meddwl bod y cwrs wedi'u helpu i gael eu swydd bresennol. Mae Tabl 7.1 yn datgelu, ymhlith y rhai a oedd yn ddi-waith cyn cefnogaeth ESF ac a gafodd gefnogaeth gan weithrediadau a oedd yn cefnogi cyfranogiad yn y farchnad lafur:

- bod tua dwy ran o dair (66 y cant) o gyfranogwyr ESF wedi nodi naill ai bod y cwrs wedi'u helpu i gael eu swydd bresennol (52 y cant) neu eu bod wedi cael eu swydd bresennol yn uniongyrchol oherwydd y cwrs (14 y cant)
- bod traean (34 y cant) wedi nodi nad oedd y cwrs wedi gwneud unrhyw wahaniaeth.

7.3 Nid oedd y canfyddiadau o'r effaith yn amrywio llawer rhwng gwahanol grwpiau o gyfranogwyr ESF (gweler Tabl A.10A). Roedd cyfran y cyfranogwyr a nododd eu bod wedi cael eu swydd yn uniongyrchol oherwydd y cwrs yn uwch ymhlith dynion (17 y cant) a phobl 55 oed a hŷn (18 y cant). Roedd y rhai â lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol cyn cymryd rhan mewn gweithrediad ESF yn fwy tebygol o nodi nad oedd eu cwrs wedi gwneud unrhyw wahaniaeth (34 y cant).

7.4 Gostyngodd y canfyddiadau o effaith y cyrsiau hyn yn ystod y cyfnod ar ôl y pandemig. Ymhlith y rhai a gefnogwyd gan weithrediad ESF ers y pandemig, dywedodd 35 y cant nad oedd eu cwrs wedi gwneud unrhyw wahaniaeth o ran dod o

²¹ Fel yn y bennod flaenorol, mae pobl economaidd anweithgar yn cynnwys y rhai mewn gwaith gwirfoddol di-dâl a'r rhai a oedd yn ddi-waith ac nad oeddent yn chwilio am waith. Ni chynhwysir y rhai a oedd mewn addysg neu hyfforddiant cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF.

hyd i'w swydd – cynnydd o 5 pwynt canran o gymharu â'r rhai a gefnogwyd cyn y pandemig (gweler Tabl A.10B).

- 7.5 Mynegwyd yr agweddau mwyaf cadarnhaol tuag at weithrediadau ESF gan y rhai a nododd nad oeddent mewn cyflogaeth cyn y gefnogaeth ESF ond a oedd, yn ôl cofnodion gweinyddol, yn cael eu cynorthwyo gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi dilyniant mewn cyflogaeth. Ymhlith y grŵp hwn, dywedodd mwy na chwarter (26 y cant) eu bod wedi cael eu swydd bresennol yn uniongyrchol oherwydd y cwrs. Gallai'r canlyniadau hyn adlewyrchu'r anawsterau y gallai'r ymatebwyr hyn fod wedi'u cael wrth gofio'u hamgylchiadau tua'r amser yr oeddent yn cael eu cefnogi gan weithrediad ESF.

Tabl 7.1: Helpodd y cwrs o ran cael cyflogaeth

	Cefnogi cyfranogiad				Cefnogi dilyniant	Pob un
	Gweithiwr di-waith ac economaidd anweithredol 25+ oed	Gweithiwr mewn perygl o dlodi	Lleihau NEET 16-24	Cyfanswm		
Yn uniongyrchol oherwydd y cwrs	15.4	13.5	12.4	13.9	25.7	15.7
Helpodd y cwrs	49.6	55.3	53.5	51.8	50.8	51.7
Ni wnaeth wahaniaeth o gwbl*	35	31.2	34.1	34.3	23.5	32.6
Cyfanswm	100	100	100	100	100	100
Sampl	1,246	907	1,077	3,230	742	3,972

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022, CATI llawn yn unig

Sylfaen: Pobl a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn cefnogaeth ESF ac mewn cyflogaeth ar adeg yr arolwg


*Yn cynnwys cyfran fach o ymatebwyr a oedd wedi ateb "Ddim yn siŵr".

Cymwysterau a enillwyd ac asesiad o'r effaith

- 7.6 Dengys Ffigur 7.1, ar draws yr holl gyfranogwyr a oedd yn ddi-waith cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF, fod y gyfran a nododd eu bod wedi cael eu swydd yn uniongyrchol oherwydd y cwrs ar ei hisaf ymhlith y rhai nad oeddent wedi ennill unrhyw gymwysterau o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithrediad ESF (10 y cant).
- 7.7 Ymhlith y rhai a ddywedodd eu bod wedi ennill cymhwyster, cynyddodd y gyfran a nododd eu bod wedi cael eu swyddi'n uniongyrchol oherwydd eu cyfranogiad mewn gweithrediad ESF, a hynny'n raddol mewn cysylltiad â lefel y cymhwyster a enillwyd.

- Nododd 19% a enillodd gymhwyster Lefel 1 neu is eu bod wedi cael eu swyddi'n uniongyrchol oherwydd eu bod yn cymryd rhan mewn gweithrediad ESF.
- Dywedodd 22 y cant a enillodd gymhwyster Lefel 2 eu bod wedi cael eu swyddi'n uniongyrchol oherwydd eu cyfranogiad mewn gweithrediad ESF.
- Dywedodd 29 y cant a enillodd gymhwyster Lefel 3 neu uwch eu bod wedi cael eu swyddi'n uniongyrchol oherwydd eu cyfranogiad mewn gweithrediad ESF.

Ffigur 7.1: Effaith ganfyddedig cefnogaeth ESF ar gyflogaeth fesul cymhwyster a enillwyd yn ystod y cwrs



Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022, CATI llawn yn unig

Sylfaen: Pobl a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn cefnogaeth ESF ac mewn cyflogaeth ar adeg yr arolwg

7.8 Dengys Tabl 7.2 ymhellach fod pwysigrwydd caffael cymwysterau o ran effaith ganfyddedig y gweithrediadau ESF yn amrywio ar draws Amcanion Penodol.

- Ymhlith gweithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar ar gweithrediadau oedd â'r nod o leihau lefelau NEET ymhlith pobl ifanc 16-24 oed, roedd cyfran y cyfranogwyr a nododd eu bod wedi cael eu swydd yn uniongyrchol oherwydd eu cyfranogiad mewn gweithrediad ESF wedi cynyddu gyda lefel y cymhwyster a enillwyd.

- Ymhlith y rhai a gefnogwyd gan weithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl mewn perygl o dlodi, roedd y canfyddiadau bod y cwrs wedi cael effaith uniongyrchol ar gael eu swydd bresennol yn fwy dibynnol ar ennill unrhyw gymhwyster yn hytrach na lefel y cymhwyster a enillwyd.
- Ar draws yr holl amcanion, roedd cyfran y cyfranogwyr a nododd nad oedd eu cwrs wedi gwneud unrhyw wahaniaeth iddynt o ran cael eu swydd bresennol wedi disgyn yn gyson mewn cysylltiad â lefel y cymhwyster a enillwyd, er mai'r ffactor pwysicaf oedd pa un a enillwyd unrhyw gymhwyster drwy gymryd rhan mewn gweithrediad ESF.

Cymariaethau â'r farchnad lafur yn ehangach

- 7.9 Yn yr adran hon, caiff llwybrau pontio'r cyfranogwyr ESF yn y farchnad lafur, a oedd yn ddi-waith cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF, eu cymharu â llwybrau'r cyfranogwyr a oedd yn ddi-waith yn y farchnad lafur ehangach yn yr un modd. Mae data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS), a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn ei gwneud yn bosibl gwirio sefyllfa unigolion mewn aelwydydd sy'n cymryd rhan bob 12 mis. Defnyddiwyd data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer y cyfnod 2015-2021 i lunio cronfa ddata hydredol o unigolion fel y gellir cymharu llwybrau pontio cyfranogwyr ESF yn y farchnad lafur, a fesurwyd dros gyfnod o 12 mis, â llwybrau pobl anghyflogedig o fewn y boblogaeth ehangach. Cynhelir dadansoddiadau ar wahân ar gyfer cyfranogwyr o'r tri Amcan Penodol o dan y thema Cefnogi Cyfranogiad mewn Cyflogaeth.

Tabl 7.2 Effaith y cwrs a'r cymhwyster a enillwyd

	Cefnogi cyfranogiad				Cefnogi dilyniant	Pob un
	Gweithiwr di-waith ac economaidd anweithredol 25+ oed	Gweithiwr mewn perygl o dlodi	Lleihau NEET 16-24	Cyfanswm		
Nifer y cymwysterau a enillwyd						
Yn uniongyrchol oherwydd y cwrs	11.6	4.7	9.1	10.2	12.2	10.3
Helpodd y cwrs	44.8	38.0	48.8	46.6	34.9	46.0
Dim gwahaniaeth o gwbl	43.6	57.3	42.0	43.2	52.9	43.7
Lefel <=1						
Yn uniongyrchol oherwydd y cwrs	24.4	14.5	15.1	18.2	26.5	18.5
Helpodd y cwrs	52.6	54.0	51.5	52.1	45.4	51.8
Dim gwahaniaeth o gwbl	22.9	31.5	33.4	29.7	28.1	29.7
Lefel 2						
Yn uniongyrchol oherwydd y cwrs	23.5	15.3	15.3	19.8	26.4	21.8
Helpodd y cwrs	52.2	53.1	55.5	53.5	52.0	53.0
Dim gwahaniaeth o gwbl	24.3	31.6	29.3	26.7	21.7	25.2
Lefel 3						
Yn uniongyrchol oherwydd y cwrs	28.3	17.3	26.1	24.6	34.0	29.4
Helpodd y cwrs	54.8	61.9	50.3	55.5	53.7	54.6
Dim gwahaniaeth o gwbl	16.9	20.8	23.6	19.9	12.3	16.0
Arall, ddim yn gwybod						
Yn uniongyrchol oherwydd y cwrs	12.2	13.6	16.7	14.1	15.2	14.2
Helpodd y cwrs	53.3	57.1	59.3	56.2	57.9	56.3
Dim gwahaniaeth o gwbl	34.5	29.3	24.0	29.8	26.8	29.5
Pob un						
Yn uniongyrchol oherwydd y cwrs	15.4	13.5	12.4	13.9	25.7	15.7
Helpodd y cwrs	49.6	55.3	53.5	51.8	50.8	51.7
Dim gwahaniaeth o gwbl	35.0	31.2	34.1	34.3	23.5	32.6
	1,246	907	1,077	3,230	742	3,972

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022, CATI llawn yn unig

Sylfaen: Pobl a oedd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar cyn cefnogaeth ESF ac mewn cyflogaeth ar adeg yr arolwg

Cefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar

- 7.10 Ar gyfer gweithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar 25 oed a hŷn, mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar statws cyflogaeth cyfranogwyr ESF a oedd yn ddi-waith yn flaenorol 12 mis ar ôl iddynt gael eu cefnogi gan weithrediad ESF am y tro cyntaf.
- 7.11 Cymherir y llwybrau pontio hyn i gyflogaeth, a fesurir dros gyfnod o 12 mis, â llwybrau'r bobl ddi-waith yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, hefyd dros gyfnod o flwyddyn. Yn yr un modd, mae'r sampl o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth wedi'i gyfyngu i'r bobl 25 oed a hŷn a oedd yn ddi-waith am gyfnod hir neu'r rhai yn y boblogaeth nad oeddent yn fyfyrwyr a oedd yn economaidd anweithgar ond a ddywedodd yr hoffent weithio.
- 7.12 Dengys Tabl 7.3, at ei gilydd, fod 32 y cant o gyfranogwyr ESF a gefnogwyd gan yr Amcan Penodol hwn yn gyflogedig 12 mis ar ôl iddynt gael cefnogaeth ESF am y tro cyntaf. Ymhlith y rhai a ymatebodd i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, amcangyfrifir mai dim ond 24 y cant o bobl anghyflogedig a aeth i gyflogaeth dros gyfnod o 12 mis.
- 7.13 Mae'r cyfraddau mynediad is i gyflogaeth ymhlith yr ymatebwyr i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, o gymharu â'r rhai a ddeilliwyd ar gyfer cyfranogwyr ESF, yn parhau wrth wneud cymariaethau manylach fesul rhyw, lefel cyrhaeddiad addysgol blaenorol a statws mewn cysylltiad â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith.
- 7.14 Fodd bynnag, problem gyda'r cymariaethau hyn yw bod y samplau ESF a'r samplau o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn wahanol mewn un ffordd allweddol. Mae pobl economaidd anweithgar yn cyfrif am oddeutu 60 y cant o'r sampl o bobl anghyflogedig sy'n deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Ymhlith y cyfranogwyr ESF a gafodd gefnogaeth gan weithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar, dim ond 28 y cant ohonynt oedd wedi'u cofnodi'n bobl economaidd anweithgar yn yr Arolwg o Gyfranogwyr.²² Os oes gan bobl economaidd anweithgar lefelau is o ymlyniad i'r farchnad lafur, byddai

²² Mae'r ffigur hwn yn ymwneud ag ymatebwyr i'r Arolwg o Gyfranogwyr o'r Amcan Penodol hwn sy'n cyfrannu at y dadansoddiad hwn o lwybrau pontio i gyflogaeth. Dengys Tabl 3.2, yn gyffredinol, fod 25% o'r rhai a gynorthwywyd gan y gweithrediad hwn wedi'u cofnodi gan yr Arolwg o Gyfranogwyr yn bobl a oedd yn economaidd anweithgar cyn iddyn derbyn cefnogaeth. Yn ôl cofnodion y cyfranogwyr, 64% yw'r ffigur hwn, sy'n llawer agosach at y ffigur a ddeilliodd o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

disgwyl i hyn gyfrannu at y cyfraddau mynediad is i gyflogaeth a welir ymhlith y sampl o bobl anghyflogedig o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

- 7.15 Er mwyn cymryd y gwahaniaeth hwn i ystyriaeth, mae Tabl 7.3 hefyd yn cymharu cyfraddau mynediad i gyflogaeth ar wahân ar gyfer pobl ddi-waith a phobl economaidd anweithgar. Roedd y cyfraddau mynediad i gyflogaeth ymhlith y cyfranogwyr ESF a oedd yn ddi-waith yn flaenorol (36 y cant) yn is na chyfraddau'r bobl ddi-waith yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (42 y cant). Mewn cyferbyniad, roedd y cyfraddau mynediad i gyflogaeth ymhlith y cyfranogwyr ESF economaidd anweithgar (21 y cant) yn llawer uwch na'r rhai a welwyd ymhlith y bobl economaidd anweithgar yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (12 y cant).
- 7.16 Mae gwahaniaethau o'r fath yn awgrymu efallai na fydd modd cymharu pobl o fewn y samplau ESF a samplau o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth o ran lefelau eu hymlyniad i'r farchnad lafur. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos pobl economaidd anweithgar, lle roedd cyfraddau mynediad i gyflogaeth ymhlith y cyfranogwyr ESF bron ddwywaith yr hyn a welwyd ymhlith ymatebwyr i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.
- 7.17 Er mwyn tynnu o'r anawsterau posibl o wneud cymariaethau 'tebyg â'i debyg' ymhlith pobl economaidd anweithgar, mae ochr dde Tabl 7.3 yn cymharu cyfraddau mynediad i gyflogaeth ymhlith y bobl a oedd yn ddi-waith yn flaenorol (h.y. nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys y cyfranogwyr ESF na'r ymatebwyr i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a oedd yn economaidd anweithgar). Gellir gweld bod y cyfraddau cyflogaeth is ymhlith y cyfranogwyr ESF di-waith, o gymharu â'r ymatebwyr di-waith i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, yn parhau ymhlith y rhan fwyaf o grwpiau. Felly ni ellir cyfrif am y cyfraddau is o bontio i gyflogaeth ymhlith y cyfranogwyr ESF di-waith gan wahaniaethau cyfansoddiadol gweladwy syml rhwng y samplau ESF a'r samplau o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

Tabl 7.3: Cymharu Cyfraddau cyflogaeth y bobl a gynorthwywyd gan weithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar

	Llwybr pontio 12 mis i gyflogaeth			
	Pobl ddi-waith ac economaidd anweithgar		Pobl ddi-waith yn unig	
	APS	ESF	APS	ESF
Rhywedd				
Benyw	23.2	32.8	42.5	37.5
Gwryw	24.5	30.3	40.5	34.3
Y cymhwyster uchaf				
<=1 Lefel	15.7	26.4	29.4	29.4
Lefel 2	23.7	28.8	42.7	33.1
Lefel 3	24.9	35.0	44.8	41.3
Lefel 4+	33.1	38.9	52.2	45.2
Ddim yn gwybod / Arall	20.4	32.0	33.6	35.0
Cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith				
Naddo	34.0	41.2	47.1	45.3
Do	11.4	19.2	27.5	21.8
Gweithgarwch economaidd				
Economaidd anweithgar	11.6	20.5		
Di-waith	41.5	35.9		
Cyfanswm	23.8	31.6	41.5	35.9

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
 Sylfaen: Pobl ddi-waith hirdymor neu economaidd anweithgar 25 oed a hŷn.

- 7.18 Hyd yn oed ar ôl ystyried gwahaniaethau yn nodweddion pobl ddi-waith o fewn yr Arolygon ESF a'r Arolygon Blynyddol o'r Boblogaeth, ar ôl cyfnod o 12 mis mae'n ymddangos bod y cyfranogwyr ESF yn gyson yn llai tebygol o fod mewn gwaith. Fodd bynnag, erys anghysondebau o ran sut mae diweithdra'n cael ei ddiffinio gan yr Arolygon Blynyddol o'r Boblogaeth a'r Arolygon o Gyfranogwyr ESF.
- 7.19 Yn yr Arolygon o Gyfranogwyr ESF, diffinnir diweithdra yn syml fel pobl sy'n datgan eu bod yn 'ddi-waith ac yn chwilio am waith'.
- 7.20 Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn defnyddio diffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) o ddiweithdra sy'n cwmpasu gweithgareddau chwilio am swydd diweddar ac argaeledd i ddechrau gweithio fel meini prawf cymhwystra ychwanegol ar gyfer diffinio pobl yn bobl ddi-waith; yn benodol, bod ar gael i ddechrau gweithio

yn ystod y pythefnos canlynol a bod gweithgareddau chwilio am swydd wedi digwydd yn ystod y pedair wythnos flaenorol.

- 7.21 O ganlyniad, mae'n bosibl na fydd rhai o'r cyfranogwyr ESF sydd wedi'u dosbarthu'n ddi-waith yn ôl Arolygon o Gyfranogwyr yn bodloni'r meini prawf mwy cyfyngol a ddefnyddir yn niffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol o ddiweithdra. Felly, gallai'r bobl sydd wedi'u diffinio'n ddi-waith gan yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth fod yn fwy cyflogadwy na'r rhai sydd wedi'u dosbarthu'n ddi-waith gan yr Arolwg o Gyfranogwyr ESF, gan gyfrannu at y cyfraddau cyflogaeth uwch a welir yn Nhabl 7.3.

Cefnogi cyflogadwyedd pobl mewn perygl o dlodi

- 7.22 Yn yr amcan hwn, y grŵp amlycaf o bobl yw'r cyfranogwyr ESF a gefnogwyd gan weithrediad ReAct a oedd yn helpu'r bobl hynny a oedd wedi colli eu swydd yn ddiweddar neu a oedd o dan rybudd o ddileu swydd. Cafodd y mwyafrif helaeth o'r cyfranogwyr ESF a gefnogwyd gan yr amcan hwn eu dosbarthu'n ddi-waith yn hytrach nag yn economaidd anweithgar. Mae'r sampl cymhariaeth sy'n deillio o'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth felly wedi'i gyfyngu hefyd i'r rhai a oedd yn ddi-waith ac y cofnodwyd eu bod wedi colli eu swydd yn ystod y tri mis blaenorol.
- 7.23 Dengys Tabl 7.4, at ei gilydd, fod 75 y cant o'r cyfranogwyr ESF a gefnogwyd gan yr Amcan Penodol hwn yn gyflogedig 12 mis ar ôl iddynt gael cefnogaeth ESF am y tro cyntaf. O fewn yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, amcangyfrifir bod 72 y cant o'r bobl ddi-waith a oedd wedi colli eu swydd yn ystod y tri mis blaenorol mewn cyflogaeth 12 mis yn ddiweddarach.
- 7.24 Roedd y meintiau sampl a oedd ar gael yn yr Arolwg o Gyfranogwyr ESF ar gyfer yr Amcan Penodol hwn yn gymharol fach o gymharu â'r Amcanion Penodol eraill o dan y thema Cefnogi Cyfranogiad. Mae penodoldeb y grŵp cymharu sy'n deillio o'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth (h.y. yn canolbwyntio ar y bobl a gafodd eu diswyddo yn ystod y tri mis blaenorol) hefyd yn cyfrannu at y ffaith mai dim ond o'r ffynhonnell ddata honno y mae samplau bach ar gael. Mae hyn yn ei gwneud yn anos asesu a yw gwahaniaeth o 3 phwynt canran mewn canlyniadau cyflogaeth rhwng y cyfranogwyr ESF a'r ymatebwyr i'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn parhau ar draws yr is-grwpiau poblogaeth a gyflwynir yn Nhabl 7.4, fel y dangosir gan y cymariaethau a wneir fesul lefel cyrhaeddiad addysgol blaenorol.

Tabl 7.4: Cymharu cyfraddau cyflogaeth y bobl a gynorthwywyd gan weithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl mewn perygl o dlodi

	Llwybr pontio 12 mis i gyflogaeth	
	APS	ESF
Rhywedd		
Benyw	71.7	70.6
Gwryw	71.8	77.6
Y cymhwyster uchaf		
<=1 Lefel	54.8	70.0
Lefel 2	77.6	74.0
Lefel 3	69.5	79.4
Lefel 4+	80.2	72.2
Ddim yn gwybod / Arall	68.2	77.5
Cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith		
Naddo	75.2	77.2
Do	50.0	58.2
Cyfanswm	71.7	74.5

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
Sylfaen: Pobl ddi-waith tymor byr a'r a oedd wedi colli swydd yn ddiweddar.

Lleihau lefelau NEET Ymhlith pobl ifanc 16-24 oed

- 7.25 Yn olaf, ar gyfer dadansoddi'r gefnogaeth i leihau lefelau NEET ymhlith pobl ifanc 16-24 oed, rydym yn canolbwyntio ar y llwybrau pontio a ddilynwyd naill ai i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant gan y grŵp hwn o gyfranogwyr ESF. Cymerir y llwybrau pontio hyn â'r rhai a ddilynwyd gan bobl ifanc yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, lle gellir arsylwi mynediad i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant hefyd. Mae'r sampl o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth wedi'i gyfyngu i'r rhai a oedd yn ddi-waith, neu'r rhai yn y boblogaeth nad oeddent yn fyfyrwyr, a oedd yn economaidd anweithgar ond a oedd eisiau gweithio.
- 7.26 Dengys Tabl 7.5, at ei gilydd, fod 52 y cant o'r cyfranogwyr ESF a gefnogwyd gan yr Amcan Penodol hwn naill ai mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant 12 mis ar ôl iddynt dderbyn cefnogaeth ESF am y tro cyntaf. O fewn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, sylwyd bod 46 y cant o bobl ifanc anghyflogedig yn yr un modd, yn mynd i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant dros gyfnod o 12 mis.

Tabl 7.5: Cymharu cyfraddau mynediad i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ar gyfer y rhai a gynorthwywyd gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at leihau lefelau NEET ymhlith pobl ifanc 16-24 oed

	Llwybr pontio 12 Mis i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant			
	Pobl ddi-waith ac economaidd anweithgar		Pobl ddi-waith yn unig	
	APS	ESF	APS	ESF
Rhywedd				
Benyw	45.1	50.1	56.0	49.7
Gwryw	47.4	54.0	52.3	56.0
Y cymhwyster uchaf				
<=1 Lefel	32.2	37.8	39.9	38.0
Lefel 2	44.9	51.3	52.4	52.3
Lefel 3	53.0	64.9	59.2	65.2
Lefel 4+	69.8	70.8	72.2	70.8
Ddim yn gwybod / Arall	34.2	43.3	42.6	44.6
Cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith				
Naddo	53.7	56.2	57.3	56.9
Do	27.8	36.9	42.2	37.7
Gweithgarwch economaidd				
Economaidd anweithgar	27.5	46.2		
Di-waith	53.7	53.4		
Cyfanswm	46.4	52.3	53.7	53.4

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
Sylfaen: Pobl ddi-waith neu economaidd anweithgar 16-24 oed

- 7.27 Mae'r cyfraddau mynediad is i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant ymhlith yr ymatebwyr i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn parhau fesul rhyw, cyrhaeddiad addysgol, a statws mewn cysylltiad â chyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith. Gallai'r gwahaniaethau hyn gael eu llywio gan wahaniaethau yn y statws gweithgarwch yn y samplau ESF a'r samplau o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Mae sylfaen Tabl 7.5 yn cymharu cyfraddau mynediad i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant ar wahân ar gyfer pobl ddi-waith a phobl economaidd anweithgar.
- 7.28 Mae cymariaethau fesul statws gweithgarwch blaenorol yn datgelu bod cyfraddau pontio i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn gymharol uchel ymhlith y rhai a oedd yn economaidd anweithgar yn flaenorol ymhlith y sampl o'r cyfranogwyr ESF (46 y cant o gymharu â 28 y cant). Ymhlith y rhai a oedd yn ddi-waith yn flaenorol, roedd y gyfradd pontio i gyflogaeth, addysg, neu hyfforddiant ymhlith y cyfranogwyr ESF (53

y cant) bron yn union yr un fath â'r hyn a welwyd ymhlith yr ymatebwyr i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (54 y cant).

- 7.29 Mae gwahaniaethau o'r fath yn awgrymu eto ei bod yn bosibl nad yw'r cyfranogwyr ESF economaidd anweithgar a gefnogwyd gan yr Amcan Penodol hwn yn gynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach o bobl ifanc 16-24 oed sy'n economaidd anweithgar.
- 7.30 Er mwyn tynnu o'r anawsterau posibl o wneud cymariaethau 'tebyg â'i debyg' ymhlith y bobl economaidd anweithgar, mae ochr dde Tabl 7.5 yn cymharu'r cyfraddau mynediad i gyflogaeth ymhlith y bobl a oedd yn ddi-waith yn flaenorol (h.y. nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys y cyfranogwyr ESF a'r ymatebwyr i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a oedd yn economaidd anweithgar). Ymhlith y cyfranogwyr ESF di-waith, mae'n ymddangos y bu cyfraddau mynediad is i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn is ymhlith menywod a phobl â chyflyrau iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio nag yr oeddent ar gyfer eu cymheiriaid yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

Datblygu cymariaethau tebyg â'i debyg


- 7.31 Gall cymariaethau syml o gyfraddau pontio i gyflogaeth (neu i gyflogaeth, addysg, neu hyfforddiant) rhwng data a gasglwyd oddi wrth y cyfranogwyr ESF a'r ymatebwyr i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gael eu drysu gan wahaniaethau yng nghyfansoddiad y samplau ESF a'r samplau o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Gellir mynd i'r afael â'r rhain i raddau drwy wneud cymariaethau ar gyfer gwahanol is-grwpiau o'r boblogaeth, megis fesul rhyw neu lefel cymhwyster. Fodd bynnag, mae'r cymariaethau hyn yn gyfyngedig i'r graddau mai dim ond un nodwedd yn unig y gallant roi cyfrif amdani ar y tro.
- 7.32 Er mwyn goresgyn yr anawsterau hyn, mae'r adran hon yn cyflwyno canlyniadau cymariaethau 'tebyg â'i debyg' sy'n deillio o dechnegau paru ystadegol a all roi cyfrif ar yr un pryd am amrywiaeth o wahaniaethau a all ddod i'r amlwg rhwng y samplau ESF a'r samplau o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Gan ddefnyddio technegau Paru Sgoriau Tueddfryd (PSM), mae'r ymatebwyr i'r Arolwg o Gyfranogwyr ESF yn cael eu paru, ar sail eu nodweddion cyfunol, â'r ymatebwyr i'r Arolwg Blynyddol o'r

Boblogaeth. Mae technegau Paru Sgoriau Tueddfryd yn cefnogi datblygiad grwpiau rheolydd lle mae meintiau sampl yn atal paru'n union ar sail nodweddion lluosog²³.

- 7.33 Drwy dynnu'r bobl hynny o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth sy'n rhannu nodweddion tebyg â'r cyfranogwyr ESF, gellir cymharu'r llwybrau pontio i gyflogaeth (neu i gyflogaeth, addysg, neu hyfforddiant) a ddilynwyd gan y cyfranogwyr ESF â'r llwybrau a ddilynwyd gan bobl sy'n gymaradwy fel arall a nodwyd yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Mae'r ymatebwyr cyfatebol hyn o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn gweithredu fel grŵp rheolydd gwrthffeithiol fel y gellir gwneud asesiad o effaith bosibl yr ymyriadau ESF ar ganlyniadau (gweler Ffigur 7.2).
- 7.34 Mae'r modelau paru ystadegol yn cynnwys rheolyddion lefel unigol ar gyfer rhyw, ethnigrwydd, oedran, y cymhwyster uchaf, cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith, hyd yr amser y tu allan i gyflogaeth â thâl, statws rhiant, a statws gweithgarwch blaenorol. Mae'r flwyddyn y cefnogwyd y cyfranogwyr ESF gan y cynlluniau hyn am y tro cyntaf hefyd wedi'i chynnwys fel newidyn cyfatebol er mwyn cyfrif am y newidiadau sylweddol a oedd wedi digwydd yn y farchnad lafur yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y dadansoddiad.
- 7.35 Er mwyn ystyried gwahaniaethau daearyddol yn amodau'r farchnad lafur, mae cyfradd diweithdra awdurdodau lleol (diweithdra ynghyd ag anweithgarwch economaidd) ymhlith y boblogaeth o oedran gweithio nad ydynt yn fyfyrwyr hefyd wedi'i chynnwys fel newidyn cyfatebol. Deillir hyn gan ddefnyddio data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer cyfnod 2015-2021. Dylai cynnwys y mesur hwn helpu o ran paru'r cyfranogwyr ESF â phobl sy'n byw mewn ardaloedd lle mae amodau'r farchnad lafur yn debyg.

²³ Er enghraifft, i baru'n union ar sail rhyw (dau gategori), grŵp oedran (tri chategori), ethnigrwydd (dau gategori), cymhwyster (pum categori), cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith (dau grŵp), statws gweithgarwch blaenorol (dau gategori), statws rhiant (dau gategori) a hyd cyfnodau di-waith (wyth categori), byddai angen digon o ddata i boblogi tabl o 3,840 o gategorïau unigryw ymhlith y grwpiau ymyrraeth a'r grwpiau rheolydd. Nid yw hyn yn ddichonadwy gyda'r rhan fwyaf o setiau data ac mae'n llawer mwy na'r meintiau sampl sydd ar gael o'r Arolygon o Gyfranogwyr ESF. Cyfeirir at y broblem hon yn gyffredin fel 'melltith dimensiwn'.

Ffigur 7.2: Darlun o dechnegau Asesiad Gwrthffeithiol o Effaith



7.37 Dylai technegau Cyfateb Sgôr Tueddfryd sicrhau y bydd y cyfranogwyr ESF hynny sy'n wynebu rhwystrau lluosog i gyflogaeth yn cael eu paru ag ymatebwyr i'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth sy'n wynebu anawsterau tebyg, i'r graddau y gellir cwmparu'r rhwystrau hyn yn y nodweddion gweladwy sydd wedi'u cynnwys yn yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth a'r Arolwg o Gyfranogwyr ESF.

Addasu ar gyfer tangofnodi gwaith rhan-amser

7.38 Mae ffynhonnell arall o anghysondeb rhwng yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth a'r Arolwg o Gyfranogwyr ESF yn ymwneud â'r gwahanol ddiffiniadau o gyflogaeth a ddefnyddir. Mae'r Arolwg o'r Llafurlu / yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn diffinio cyflogaeth fel gweithio am awr yr wythnos neu fwy. Yn yr Arolygon o Gyfranogwyr ESF, gofynnir i ymatebwyr am eu prif weithgaredd, heb unrhyw gyfeiriad at ba mor hir y dylent fod yn cymryd rhan yn y gweithgaredd hwnnw. Mae'n bosibl felly na fydd y cyfranogwyr ESF sy'n gweithio oriau byr yn ystyried mai'r swyddi hyn yw eu prif weithgaredd a gallent dangofnodi cyflogaeth o gymharu â'r ymatebwyr i'r yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth.

- 7.39 Mae pwysigrwydd gwaith rhan amser yn amrywio rhwng Amcanion Penodol. Ymhlith y cyfranogwyr ESF a gafodd eu cynorthwyo gan weithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl mewn perygl o dlodi, cofnodwyd bod 19 y cant o'r rhai sy'n dechrau cyflogaeth yn gweithio'n rhan-amser. Fodd bynnag, 33 y cant yw'r ffigur hwn ymhlith y rhai a gefnogwyd gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at leihau lefelau NEET ymhlith pobl ifanc 16-24 oed a 49 y cant ymhlith y rhai a gefnogwyd gan weithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar.
- 7.40 Mae cymariaethau o'r oriau a weithiwyd gan y rhai a aeth i mewn i gyflogaeth yn cadarnhau bod y cyfranogwyr ESF yn llai tebygol o nodi eu bod yn gweithio am lai na 15 awr yr wythnos (gweler Tabl A.11), gan awgrymu bod swyddi gydag oriau byr yn cael eu tangofnodi gan yr ymatebwyr ESF. Effaith hyn fyddai tanamcangyfrif y llwybrau pontio i gyflogaeth a ddilynwyd gan y cyfranogwyr ESF o gymharu â'r rhai a welwyd ymhlith yr ymatebwyr i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.
- 7.41 Er mwyn gwneud cymariaethau cyson, gwneir addasiad i'r gyfradd cyflogaeth a welir ymhlith y cyfranogwyr ESF er mwyn cywiro cyflogaeth a dangofnodir ymhlith pobl sy'n gweithio 15 awr neu lai. Mae'r ffigwr cyflogaeth uwchraddedig yn sicrhau bod y cyfranogwyr ESF hynny sy'n cael cyflogaeth ac yn gweithio am fwy na 15 awr yr wythnos yn cynrychioli'r un gyfran o'r rhai sy'n dechrau cyflogaeth ag sy'n deillio o'r data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Deillir ffactorau addasu ar wahân ar gyfer (a) pawb a oedd yn ddi-waith yn flaenorol, a (b) pobl ddi-waith yn unig (h.y. ac eithrio pobl economaidd anweithgar). Cymhwysir y ffactorau addasu hyn ar ôl gwneud amcangyfrif o'r canlyniadau sy'n deillio o gymhwyso technegau Asesiad Gwrthffeithiol o Effaith fel y dangosir yn Atodiad A.12A.

Canlyniadau


Cefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar

- 7.42 Yn gyntaf, mae Ffigur 7.3 yn archwilio'r canlyniadau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â chyfranogiad mewn gweithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar.
- Ymhlith y cyfranogwyr ESF a gefnogir gan y gweithrediadau hyn, amcangyfrifwyd bod 29 y cant wedi'u cyflogi ar ôl 12 mis ar ôl cymryd rhan yn y gweithrediadau hyn.

- Ymhlith grŵp cymaradwy o bobl anghyflogedig a dynnwyd o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, amcangyfrifwyd y byddai 22 y cant yn dechrau cyflogaeth dros gyfnod o 12 mis.

7.43 Mae'r dadansoddiad felly'n dangos, ar draws y sampl cyfan o bobl anghyflogedig (h.y. pobl ddi-waith a phobl economaidd anweithgar gyda'i gilydd), fod cyfranogiad mewn gweithrediadau o fewn yr Amcan Penodol hwn yn gysylltiedig â gwelliant cyfartalog mewn canlyniadau cyflogaeth o 7 pwynt canran.

Ffigur 7.3: Effaith gweithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar: Mynediad i gyflogaeth




Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
 Sylfaen: Pobl ddi-waith hirdymor neu economaidd anweithgar 25 oed a hŷn.

7.44 O ganlyniad i ystyried pobl ddi-waith ar wahân, roedd cyfranogiad mewn gweithrediad ESF yn gysylltiedig â gwelliant mewn canlyniadau cyflogaeth o chwe phwynt canran, gyda 31 y cant o'r cyfranogwyr ESF mewn cyflogaeth ar ôl 12 mis o gymharu â 26 y cant ymhlith sampl cyfatebol a dynnwyd o'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth.

Cefnogi cyflogadwyedd pobl mewn perygl o dlodi

7.45 Mae Ffigur 7.4 yn archwilio'r canlyniadau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â chyfranogiad mewn gweithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl mewn perygl o dlodi. Targedwyd yr ymyriadau hyn at bobl a oedd wedi colli eu swydd yn ddiweddar. Cyflwynir canlyniadau ar gyfer pawb a oedd yn ddi-waith cyn cymryd rhan mewn gweithrediad ESF ac ar gyfer pobl a ddosbarthwyd yn ddi-waith.

Ffigur 7.4: Effaith gweithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl mewn perygl o dlodi: Mynediad i gyflogaeth



Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022, Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth
Sylfaen: Pobl ddi-waith tymor byr a'r a oedd wedi colli swydd yn ddiweddar.

7.46 O ystyried ffocws gweithrediadau o dan yr amcan hwn, gellir dadlau bod y dadansoddiad sydd wedi'i gyfyngu i bobl ddi-waith yn fwy perthnasol ar gyfer yr amcan hwn.


- 7.47 Ymhlith y cyfranogwyr ESF a oedd yn ddi-waith yn flaenorol ac a gefnogwyd gan y gweithrediadau hyn, amcangyfrifwyd bod 82 y cant wedi'u cyflogi 12 mis ar ôl iddynt gymryd rhan.
- 7.48 Ymhlith grŵp cymaradwy o bobl ddi-waith o'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth a oedd wedi colli eu swydd yn ystod y tri mis blaenorol, amcangyfrifwyd y byddai 69 y cant yn dechrau cyflogaeth dros gyfnod o 12 mis.
- 7.49 Roedd cyfranogiad pobl ddi-waith mewn gweithrediadau sy'n gysylltiedig â'r Amcan Penodol hwn felly yn gysylltiedig â gwelliant cyfartalog mewn canlyniadau cyflogaeth o 13 pwynt canran.

Lleihau lefelau NEET Ymhlith pobl ifanc 16-24 oed

- 7.50 Mae Ffigur 7.5 yn archwilio'r canlyniadau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â chyfranogiad mewn gweithrediadau a oedd yn ceisio lleihau lefelau NEET ymhlith pobl ifanc 16-24 oed. Roedd yr ymyriadau hyn yn cefnogi cyfranogwyr i fynd i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Fel y cyfryw, gwerthusir effaith y gweithrediadau hyn ar y cyfranogwyr ESF o ran y cyfraddau mynediad i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant a welwyd ymhlith samplau cymaradwy o ymatebwyr i'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth.
- 7.51 Ymhlith cyfranogwyr ESF, amcangyfrifwyd bod 59 y cant ohonynt naill ai mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl iddynt gymryd rhan yn y gweithrediadau hyn.
- 7.52 Ymhlith grŵp cymaradwy o bobl anghyflogedig a dynnwyd o'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, amcangyfrifwyd y byddai 43 y cant yn dechrau cyflogaeth dros gyfnod o 12 mis.
- 7.53 Mae'r dadansoddiad felly'n dangos, ar draws y sampl cyfan o bobl anghyflogedig (h.y. pobl ddi-waith a phobl economaidd anweithgar gyda'i gilydd), fod cyfranogiad mewn gweithrediadau o fewn yr Amcan Penodol hwn yn gysylltiedig â gwelliant cyfartalog mewn canlyniadau cyflogaeth o 16 pwynt canran.
- 7.54 Drwy gyfyngu'r dadansoddiad i bobl ddi-waith, mae cyfranogiad mewn gweithrediadau ESF yn gysylltiedig â gwelliant o 8 pwynt canran yng nghanlyniadau'r cyfranogwyr, gyda 59 y cant o'r cyfranogwyr a gefnogwyd naill ai mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ar ôl 12 mis yn dilyn cefnogaeth ESF o

gymharu â 51 y cant ymhlith a sampl cyfatebol a dynnwyd o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

Ffigur 7.5: Effaith gweithrediadau a oedd wedi'u hanelu at leihau lefelau NEET ymhlith pobl ifanc 16-24 oed: Mynediad i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant



Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
Sylfaen: Pobl ddi-waith neu economaidd anweithgar 16-24 oed

Deall gwahaniaethau yn y canlyniadau ar gyfer pobl anghyflogedig a phobl ddi-waith

- 7.55 Yn ystod pob cam o'r dadansoddiad, roedd yr effeithiau a amcangyfrifwyd ar gyfer y boblogaeth a oedd yn anghyflogedig yn flaenorol, sy'n cyfuno data ar gyfer pobl ddi-waith a phobl economaidd anweithgar, yn fwy na'r rhai a ddeilliwyd ar gyfer pobl ddi-waith yn unig. Mae hyn yn awgrymu bod effeithiau cymryd rhan yn y gweithrediadau hyn yn fwy ar gyfer cyfranogwyr economaidd anweithgar na chyfranogwyr di-waith.
- 7.56 Mae'r canfyddiad hwn yn gyson ag ymchwil flaenorol ar effaith gweithrediadau ESF. Er enghraifft, amcangyfrifodd Ainsworth a Marlow (2011) fod cyfranogiad mewn gweithrediad a ariennir gan ESF yn Lloegr wedi cynyddu'r gyfradd gyflogaeth 12 mis ymhlith hawlwyr y Lwfans Ceisio Gwaith (pobl ddi-waith) bum pwynt canran o

gymharu ag 11 pwynt canran ymhlith hawlwyd y Lwfans Analluogrwydd a'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (pobl economaidd anweithgar).


- 7.57 Fodd bynnag, efallai y bydd ein canlyniadau hefyd yn codi cwestiynau ynghylch y graddau y gellir cymharu'r parau a gynhyrchir ar gyfer pobl economaidd anweithgar, a'r pryder yw bod y cyfranogwyr ESF economaidd anweithgar yn fwy cyflogadwy na'r rhai o'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth y maent wedi'u paru yn eu herbyn.
- 7.58 Cafodd mwy na thraean (34 y cant) o'r cyfranogwyr ESF economaidd anweithgar, fel y'u diffinnir gan yr arolwg, eu dosbarthu'n bobl ddi-waith yn ôl diffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol yng nghofnodion y cyfranogwyr (gweler Tabl A.13). Gallai hyn arwain at oramcangyfrif effaith y cynlluniau hyn ymhlith pobl economaidd anweithgar pe bai rhai o'r grŵp hwn yn fwy cyflogadwy na'r hyn a awgrymwyd gan yr Arolwg o Gyfranogwyr.
- 7.59 Cofnodwyd bod 27 y cant o'r cyfranogwyr ESF di-waith, fel y'u diffinnir gan yr arolwg, yn economaidd anweithgar yng nghofnodion y cyfranogwyr. Gallai hyn gael yr effaith o danamcangyfrif effaith y cynlluniau hyn ymhlith pobl ddi-waith pe bai rhai yn llai cyflogadwy na'r hyn a awgrymwyd gan yr arolwg.

Is-grwpiau poblogaeth

- 7.60 Un o gyfyngiadau'r amcangyfrifon a gyflwynir uchod yw eu bod yn cynrychioli'r cynnydd amcangyfrifed cyfartalog mewn canlyniadau cyflogaeth ar draws yr holl is-grwpiau poblogaeth. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw effaith y gweithrediadau hyn yr un fath ar draws pob grŵp o gyfranogwyr ESF.
- 7.61 Er mwyn ymchwilio i hyn, mae'r adran hon yn cyflwyno canlyniadau technegau Asesiad Gwrthffeithiol o Effaith a redir ar wahân ar gyfer gwahanol is-grwpiau poblogaeth. Mae'r dadansoddiad wedi'i gyfyngu i'r rhai a gymerodd ran mewn gweithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar. Mae hyn oherwydd:
- y meintiau sampl cymharol fawr sy'n gysylltiedig â gweithrediadau o dan yr Amcan Penodol hwn yn yr Arolwg o Gyfranogwyr.
 - y sbectrwm ehangach o bobl â nodweddion amrywiol a gefnogir gan weithrediadau o dan yr Amcan Penodol hwn.

- 7.62 Cynhyrchir dadansoddiadau ar wahân fesul rhyw, statws iechyd sy'n cyfyngu ar waith, a lefel cymhwyster cyn derbyn cefnogaeth ESF. Oherwydd y meintiau sampl bach sy'n gysylltiedig â rhai o'r is-grwpiau poblogaeth hyn ac ar gyfer pobl economaidd anweithgar (fel y'u diffinnir gan yr arolwg) yn fwy cyffredinol, cynhelir y dadansoddiadau o'r is-grwpiau hyn ar gyfer y sampl cyfan o bobl ddi-waith (h.y. pobl ddi-waith a phobl economaidd anweithgar gyda'i gilydd) .
- 7.63 Gwneir addasiadau eto ar gyfer tangofnodi gwaith oriau byr ymhlith y cyfranogwyr ESF drwy gymhwyso'n gyson y ffactor uwchraddio a ddisgrifir uchod. Un o gyfyngiadau'r dull hwn yw ei bod yn bosibl mai'r cyfranogwyr ESF hynny sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i gyflogaeth, megis menywod neu bobl â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, sy'n dibynnu fwyaf ar gyflogaeth ran-amser fel llwybr i waith. Fodd bynnag, oherwydd y meintiau sampl bach sy'n gysylltiedig ag is-grwpiau poblogaeth, nid yw'n bosibl cynhyrchu ffactorau addasu penodol i grŵp ar gyfer gweithio oriau byr.
- 7.64 Cyflwynir canlyniadau llawn y dadansoddiadau hyn yn Atodiad A.12B. O ran rhyw, mae Ffigur 7.6 yn dangos bod cyfranogiad mewn gweithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar yn gysylltiedig ag effaith mwy o faint ar ganlyniadau cyflogaeth menywod o gymharu â dynion.
- Ymhlith y cyfranogwyr benywaidd, amcangyfrifwyd bod 31 y cant wedi'u cyflogi 12 mis ar ôl iddynt gymryd rhan yn y gweithrediadau hyn. Ymhlith grŵp cymaradwy o fenywod di-waith a dynnwyd o'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, amcangyfrifwyd y byddai 22 y cant ohonynt yn dechrau cyflogaeth ar ôl cyfnod o 12 mis. Roedd cyfranogiad mewn gweithrediadau ESF felly yn gysylltiedig â chynnydd mewn cyflogaeth o 9 pwynt canran.
 - Ymhlith y cyfranogwyr benywaidd, amcangyfrifwyd bod 25 y cant wedi'u cyflogi 12 mis ar ôl iddynt gymryd rhan yn y gweithrediadau hyn. Mae'r ffigur hwn dri phwynt canran yn unig yn uwch na'r hyn a welwyd ymhlith y grŵp cymaradwy o ddynion di-waith a dynnwyd o'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth.

Ffigur 7.6: Effaith cefnogaeth ESF ar ganlyniadau cyflogaeth fesul rhyw




Ffynhonnell: Arolygon o gyfranogwyr ESF, yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
Sylfaen: Pobl ddi-waith hirdymor neu economaidd anweithgar 25 oed a hŷn.

7.65 Mae Ffigur 7.7 yn dangos bod cyfranogiad mewn gweithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar yn gysylltiedig ag effaith wahaniaethol ar ganlyniadau cyflogaeth mewn cysylltiad â statws iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio.

- Ymhlith y rhai â chyflwr iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio, amcangyfrifwyd bod 17 y cant mewn gwaith 12 mis ar ôl iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF. Ymhlith grŵp cymaradwy o bobl a dynnwyd o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, amcangyfrifwyd bod 14 y cant wedi dechrau cyflogaeth ar ôl cyfnod o 12 mis.
- Ymhlith y rhai nad oedd ganddynt unrhyw gyflyrau iechyd o'r fath, amcangyfrifwyd bod 39 y cant o'r cyfranogwyr wedi'u cyflogi ar ôl 12 mis ar ôl cael cefnogaeth ESF. Ymhlith yr ymatebwyr i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, roedd 28 y cant mewn gwaith ar ôl cyfnod o 12 mis.

- Felly ymhlith y cyfranogwyr ESF a nododd fod ganddynt gyflwr iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio gwelwyd cynnydd o dri phwynt canran. Ymhlith y rhai heb unrhyw gyflyrau o'r fath, roedd y cynnydd mewn cyflogaeth yn 11 pwynt canran.

Ffigur 7.7: Effaith cefnogaeth ESF ar ganlyniadau cyflogaeth fesul statws iechyd sy'n cyfyngu ar waith



Ffynhonnell: Arolygon o gyfranogwyr ESF, yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
Sylfaen: Pobl ddi-waith hirdymor neu economaidd anweithgar 25 oed a hŷn.

7.66 Mae'n bwysig nodi bod y gwelliannau mewn cyflogaeth a ddangosir gan y rhai â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn dechrau o sylfaen is. Mewn termau cydweddol, ymhlith y rhai â chyflyrau iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio, amcangyfrifwyd bod y cynnydd cymharol yn y gyfran cyflogaeth yn 21 y cant. Ymhlith y rhai heb unrhyw gyflyrau o'r fath, amcangyfrifwyd bod y cynnydd yn y gyfran cyflogaeth yn 39 y cant. Er bod y gwelliant gwahaniaethol mewn canlyniadau cyflogaeth yn llai amlwg, mae'n dal i fod yn wir, mewn termau absoliwt a chymharol, fod y gwahaniaeth mewn canlyniadau cyflogaeth fesul statws iechyd sy'n cyfyngu ar waith yn fwy ar ôl cymryd rhan yn y gweithrediadau hyn nag yr oedd o'r blaen.


- 7.67 Yn olaf, mae Ffigur 7.8 yn dangos yr amcangyfrifwyd bod effaith cymryd rhan yn y gweithrediadau hyn yn fwy ymhlith y rhai â chymwysterau lefel uwch.
- 7.68 Ymhlith y cyfranogwyr a oedd yn meddu ar gymwysterau Lefel 2 neu is yn flaenorol, amcangyfrifwyd bod 24 y cant wedi'u cyflogi ar ôl 12 mis. Mae hyn o'i gymharu â 19 y cant ymhlith grŵp cymaradwy o bobl a dynnwyd o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.
- 7.69 Ymhlith y rhai â chymwysterau Lefel 3 neu uwch, amcangyfrifwyd bod 34 y cant o'r cyfranogwyr ESF wedi'u cyflogi 12 mis ar ôl cymryd rhan yn y gweithrediadau hyn. Mae hyn o'i gymharu â 23 y cant ymhlith grŵp o bobl cymwysedig cymaradwy o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.
- 7.70 Roedd y rhai â chymwysterau uwch felly wedi dangos cynnydd absoliwt mwy mewn cyflogaeth (11 pwynt canran o gymharu â 5 pwynt canran) o gymharu â'r rhai â lefelau cyrhaeddiad addysgol is cyn cefnogaeth ESF.

Cyfyngiadau'r Dadansoddiad Gwrthffeithiol o Effaith

Nid yw'r Arolwg o Gyfranogwyr ESF yn casglu gwybodaeth o'r un ansawdd â'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

- 7.71 Er bod yr Arolygon o Gyfranogwyr ESF wedi'u cynllunio i gasglu data mewn ffordd sy'n gyson â'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn fras, rhaid cydnabod nad oedd yr arolygon ffôn cymharol fyr hyn yn gallu casglu gwybodaeth gan ymatebwyr sydd o'r un ansawdd â'r hyn a gesglir gan yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Mae problemau sy'n ymwneud â'r gallu i nodi'n gywir ymatebwyr di-waith yn erbyn rhai sy'n economaidd anweithgar wedi'u trafod eisoes (gweler paragraffau 7.14-7.17).

Ffigur 7.8: Effaith cefnogaeth ESF ar ganlyniadau cyflogaeth fesul lefel cymhwyster



Ffynhonnell: Arolygon o gyfranogwyr ESF, yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth
 Sylfaen: Pobl ddi-waith hirdymor neu economaidd anweithgar 25 oed a hŷn.

7.72 O fewn yr Arolygon o Gyfranogwyr ESF, canfuwyd y statws gweithgarwch economaidd cyn cymryd rhan drwy un cwestiwn. Yn yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, mae'r statws gweithgarwch economaidd ynddo'i hun yn deillio o 20 newidyn arall. Yn yr un modd, mae'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn casglu gwybodaeth helaeth am gymwysterau pobl er mwyn nodi'n gywir beth yw eu cymhwyster uchaf. Roedd lefelau manylder o'r fath y tu hwnt i adnoddau'r Arolwg o Gyfranogwyr ESF.

Gwybodaeth ddemograffig gyfyngedig yn yr Arolwg o Gyfranogwyr ESF.

7.73 O safbwynt paru ystadegol, roedd yr wybodaeth ddemograffig a oedd wedi'i chynnwys yn yr Arolygon o Gyfranogwyr ESF yn gyfyngedig. Ni chasglwyd unrhyw wybodaeth am gyfansoddiad aelwydydd, nifer y plant dibynol ac oedran y plant dibynol. Yn absenoldeb y newidynnau hyn, mae'r gwaith o ddadansoddi canlyniadau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â gweithrediadau ESF wedi'i ategu gan wybodaeth am statws teuluoedd a phartneriaethau sydd wedi'i chynnwys yng

nghofnodion y cyfranogwyr. Fodd bynnag, nid yw cofnodion cyfranogwyr ar statws teuluol yn nodi oedran na nifer unrhyw blant dibynnol.

- 7.74 Bydd absenoldeb y wybodaeth gyfoethocach hon wedi cael effaith andwyol ar ansawdd y gwaith paru ystadegol, er nad oes modd pennu effaith hyn ar y canlyniadau cyflogaeth amcangyfrifed. Gallai dulliau paru mwy cywir gynhyrchu amcangyfrifon mwy neu lai o effeithiau cyflogaeth, gan ddibynnu ar sut y mae'r wybodaeth ychwanegol hon yn gysylltiedig â chyfranogiad mewn gweithrediadau ESF a sut mae'r nodweddion hyn yn gysylltiedig â chanlyniadau cyflogaeth.

Nid yw paru ystadegol yn cyfrif am nodweddion nad ydynt wedi'u cwmpasu gan arolygon.

- 7.75 Mewn perthynas â hepgor gwybodaeth, nid yw'n bosibl i dechnegau paru ystadegol ddefnyddio rheolydd ar gyfer effeithiau nas gwelwyd fel arall sy'n gysylltiedig â dethol cyfranogwyr ar gyfer y cynlluniau hyn neu eu hatgyfeirio atynt. Os na chwmpesir rhwystrau cymhleth gan gwestiynau yn yr Arolygon o Gyfranogwyr ESF a'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, yna ni ellir ychwaith cyfrif amdanynt o fewn dulliau paru ystadegol.
- 7.76 Mae enghreifftiau lliaws, amrywiol a gallent gynnwys ffactorau fel cefndir dosbarth cymdeithasol, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE), bod â chofnod troseddol neu ddioddef problemau gyda dibyniaeth. Gallai'r weithred o gymryd rhan mewn gweithrediad ESF hefyd ddangos bod gan y rhai a gefnogir gan y cynlluniau fwy o gymhellant i gael cyflogaeth.
- 7.77 Mae'n bosibl felly bod y rhwystrau i waith a wynebwyd gan ymatebwyr i'r arolygon ESF yn wahanol i'r rhai a brofwyd gan y bobl o'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth y maent yn cael eu paru yn eu herbyn. Fel y cyfryw, gallai'r canlyniadau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn y cynlluniau hyn fod yn cael eu goramcangyfrif neu eu tanamcangyfrif.

Cyfyngir y gwaith o gymharu effaith ymyrraeth i un pwynt 12 mis ar ôl cymryd rhan

- 7.78 O ran mesur canlyniadau cyflogaeth, mae'r amcangyfrif o effeithiau cyflogaeth hefyd wedi'i gyfyngu i gymariaethau a wneir ar bwynt 12 mis ar ôl cymryd rhan mewn gweithrediad ESF. Mae'n bosibl y gallai chyfranogiad mewn gweithrediad ESF gyflymu'r cyflymder y mae pobl yn mynd i gyflogaeth barhaus yn hytrach na

chynyddu'r gyfran cyflogaeth ar ôl 12 mis. Nid yw'n bosibl ymchwilio i'r problemau hyn gan ddefnyddio data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

Mae'n bosibl bod y grŵp cymhariaeth hefyd wedi cael cymorth cyflogaeth

- 7.79 Nid yw'n bosibl nodi a yw ymatebwyr di-waith yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaethau hunain wedi cael cefnogaeth mewn perthynas â chwilio am gyflogaeth yn ystod y 12 mis blaenorol. Felly mae effaith amcangyfrifed cefnogaeth ESF yn cael ei gwerthuso o gymharu â grŵp o bobl o'r boblogaeth ehangach sy'n gymaradwy fel arall, a allai fod wedi cael rhyw fath arall o gefnogaeth a allai fod wedi eu cynorthwyo i ddod o hyd i waith.
- 7.80 Enghraifft eithafol o hyn yw ei bod yn bosibl bod rhai ymatebwyr i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth sy'n byw yng Nghymru eu hunain wedi cael cefnogaeth drwy ymgyrch a ariennir gan yr ESF. Fodd bynnag, yn fwy cyffredinol, efallai bod ymatebwyr i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth sy'n byw ledled y DU wedi elwa ar ymyriadau eraill, a ariennir o bosibl gan yr ESF, sy'n cynrychioli lefelau uwch na'r lefel sylfaenol o gymorth a ddarperir gan y Ganolfan Byd Gwaith.
- 7.81 Nid oes unrhyw newidynnau wedi'u cynnwys yn y data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth sy'n cefnogi'r broses o nodi a pheidio â chynnwys pobl sydd wedi cael cefnogaeth gan raglenni marchnad lafur eraill. Gallai hyn eto leihau'r effaith amcangyfrifed ar ganlyniadau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â chyfranogiad mewn gweithrediad ESF, er y dylid nodi y gallai'r cyfranogwyr ESF eu hunain fod wedi cymryd rhan mewn ymyriadau eraill hefyd.

Ni ellir nodi effeithiau gwahanol elfennau o'r gweithrediadau

- 7.82 Yn olaf, dylid cydnabod y gall cymryd rhan mewn gweithrediadau ESF gwmpasu ystod o elfennau, gan gynnwys hyfforddiant sgiliau sylfaenol, magu hyder, hyfforddiant galwedigaethol, cyngor gyrfaoedd, cymorth gydag ysgrifennu CV ac ati. Gall rhai elfennau gael effeithiau cryfach ar ganlyniadau cyflogaeth nag eraill. Bydd effeithiau ar wahân y mesurau hyn yn cael eu 'cyfartaledd' gan yr amcangyfrif o'r effaith gyffredinol sy'n gysylltiedig â chyfranogiad yn y gweithrediadau hyn.

8. Cefnogi Dilyniant mewn Cyflogaeth

Cyflwyniad

- 8.1 Mae'r adran hon yn dadansoddi profiadau'r cyfranogwyr ESF o'r farchnad lafur, a'u nodweddion swyddi, a oedd mewn cyflogaeth cyn cael cefnogaeth ESF ac a gymerodd ran mewn ymyriadau a oedd wedi'u hanelu'n bennaf at gefnogi dilyniant mewn cyflogaeth.²⁴ Yn gyntaf, amlinellir natur swyddi'r cyfranogwyr hyn cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF, gan gynnwys eu statws cyflogaeth, yr oriau a weithiwyd, y statws contractiol, ac a oedd ganddynt gyfrifoldebau goruchwyllo. Yna archwilir nodweddion y swyddi yr oedd gan y cyfranogwyr chwe mis ar ôl eu cyfranogiad mewn gweithrediad ESF. Yna ystyrir canfyddiadau'r cyfranogwyr ynghylch unrhyw welliannau a brofwyd ganddynt yn eu swyddi ers iddynt gael eu cefnogi gan weithrediad ESF ac a ellid priodoli'r gwelliannau hyn yn uniongyrchol i gefnogaeth ESF.

Nodweddion cyflogaeth cyn cefnogaeth ESF

- 8.2 Mae Tabl 8.1 yn cyflwyno gwybodaeth am natur y swyddi a oedd gan gyfranogwyr a oedd mewn cyflogaeth cyn iddynt dderbyn cefnogaeth ESF. Yn gyffredinol, roedd 95 y cant o'r rhai a gynorthwywyd gan weithrediadau o dan y thema eang Cefnogi Dilyniant yn gweithio fel cyflogeion. Ar gyfartaledd, roedd y rhai a gyflogwyd yn flaenorol yn gweithio 37 awr yr wythnos. Fodd bynnag, nododd bron i un rhan o bump (19 y cant) eu bod yn gweithio'n rhan-amser. Nododd 7 y cant eu bod yn gweithio'n rhan-amser er eu bod eisiau gweithio'n llawnamser. Felly, roedd tua thraean o weithwyr rhan-amser yn gwneud hynny ar sail anwirfoddol.

²⁴ Mewn mwyafrif o achosion, mae'r ymatebwyr hyn wedi ymgymryd â gweithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi dilyniant mewn cyflogaeth. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn Adran 3, allan o tua 14,300 o ymatebwyr a nododd eu bod yn gyflogedig (gan gynnwys prentisiaethau) cyn cefnogaeth ESF, yn y cofnodion gweinyddol fod cofnodwyd bod tuag 800 wedi cymryd rhan mewn prosiectau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi cyfranogiad mewn cyflogaeth (h.y. ymyriadau wedi'u hanelu at at bobl a oedd allan o waith). Er mwyn bod yn gyflawn, cedwir yr ymatebwyr hyn o weithrediadau a oedd yn cefnogi cyfranogiad yn y dadansoddiadau sy'n dilyn. Fodd bynnag, oherwydd y meintiau sampl bach sy'n gysylltiedig â'r grŵp hwn, ni chyflwynir data ar lefel Amcan Penodol.

Tabl 8.1: Cyflogaeth cyn cefnogaeth ESF:

	Cynyddu Ymgysylltu	Mynd i'r afael â sgiliau isel	Cefnogi dilyniant				Cyfan- swm	Cefnogi cyfranogiad	Pob un
			Cynyddu sgiliau canolraddol / uchel	Gradd- edigion yn ymgysylltu	Menywod yn y gweithlu	Gweith- -wyr gofal plant			
Cyflogedig	87.9	94.7	96.3	*	96.0	(80)	95.0	89.1	94.6
Hunangyflogedig	12.1	5.3	3.7	*	4.0	(20)	5.0	10.9	5.4
O'r rheiny									
Cyflogaeth ran-amser	24.3	23.6	14.6	*	18.2	(30)	18.6	46.0	20.5
Rhan-amser yn anwirfoddol	4.7	9.9	5.7	*	2.7	*	6.9	23.3	8.1
Fel % o gyfanswm cyflogaeth ran-amser	19.3	41.9	39.0	*	14.8	*	37.1	50.7	39.5
Oriau (canolrif)	37.0	37.0	37.0	37.0	37.0	30.0	37.0	25.0	37.0
Statws contractiol***									
Ar gontract parhaol neu benagored	86.4	78.5	84.2	69.9	90.9	71.3	82.6	48.1	80.5
Contract tymor penodol	7.0	6.5	9.0	30.1**	7.1	28.7**	8.0	13.5	8.4
Ar sail dros dro neu achlysurol	3.0	4.8	2.7		0.8		3.3	18.6	4.3
Contract dim oriau	3.6	10.3	4.1		1.2		6.0	19.7	6.9
Cyfrifoldebau goruchwyllo****	43.2	29.5	48.3	34.6	40.7	24.4	41.3	24.0	40.1
Sampl*****	1,250	3,325	8,234	55	589	89	13,542	793	14,335

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022

Sylfaen: Pawb mewn cyflogaeth cyn cefnogaeth ESF

* Ffigurau wedi'u hatal oherwydd bod meintiau sampl yn llai na 10.

**Cyfunwyd y ffigurau ar draws y categorïau nad ydynt yn rhai er mwyn cynnal anhysbysrwydd.

*** Yn cyfeirio at gyflogeion yn unig.

****CATI llawn yn unig.

*****Bydd samplau ar gyfer rhesi penodol yn amrywio ychydig oherwydd bod achosion o ateb "Arall" neu "Ddim yn Gwybod" wedi'u hepgor.

- 8.3 O'r rhai a oedd yn gweithio fel cyflogeion cyn cefnogaeth ESF, roedd 83 y cant yn gyflogedig ar sail barhaol neu ar contract penagored. Roedd y gyfran o gyflogaeth nad oedd yn barhaol ar ei huchaf ymhlith y rhai a gymerodd ran wedi hynny mewn gweithrediadau a oedd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â sgiliau isel (21 y cant), cefnogi ymgysylltu graddedigion (30 y cant), a chefnogi'r gweithlu gofal plant (29 y cant).
- 8.4 Ymhlith y rhai a oedd mewn cyflogaeth cyn cael cefnogaeth ESF, roedd cyfran y cyfranogwyr â chyfrifoldebau goruchwyllo ar ei hisaf ymhlith y rhai a gymerodd ran wedi hynny mewn gweithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi'r gweithlu gofal plant (24 y cant) a mynd i'r afael â sgiliau isel (30 y cant).
- 8.5 Mae archwiliad o nodweddion cyflogaeth cyn cymryd rhan mewn gweithrediad ESF ar draws ystod o nodweddion personol (Tabl A.14A) yn dangos bod nifer yr achosion o waith rhan-amser yn gymharol uchel ymhlith menywod (26 y cant); pobl 55 oed a throsodd (27 y cant); pobl â chyflwr iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio (28 y cant); pobl â phlant dibynnol (29 y cant); a phobl â chyfrifoldebau gofalu (31 y cant).
- 8.6 Y bobl hynny a oedd yn 16-24 oed oedd fwyaf tebygol o gael eu cyflogi mewn swyddi nad oeddent yn barhaol mewn rhyw ffordd (33 y cant). Roedd cyfran y cyfranogwyr â chyfrifoldebau goruchwyllo ar ei hisaf ymhlith y rhai dan 25 oed (22 y cant) a chyda lefelau is o gyrhaeddiad addysgol cyn cael cefnogaeth ESF (29 y cant).

Cyflogaeth chwe mis ar ôl cael cefnogaeth ESF

- 8.7 Mae Tabl 8.2 yn cyflwyno gwybodaeth am natur cyflogaeth y cyfranogwyr ESF a oedd yn gyflogedig cyn cael cefnogaeth ESF ac ar bwynt chwe mis ar ôl iddynt adael cefnogaeth ESF. Yn gyffredinol, roedd 94 y cant o'r rhai mewn cyflogaeth yn gweithio fel cyflogeion yn hytrach na phobl hunangyflogedig.
- 8.8 Nododd tua un o bob saith (14 y cant) eu bod yn gweithio'n rhan-amser. Ymhlith y grŵp hwn, dywedodd chwarter (23 y cant) eu bod yn gwneud hynny ar sail anwirfoddol. Gellir gweld felly, chwe mis ar ôl iddynt adael gweithrediad ESF, fod cyfran y cyfranogwyr ESF a oedd yn gweithio'n rhan-amser a'r gyfran a nododd eu bod wedi gwneud hynny ar sail anwirfoddol yn is na'r hyn a welwyd cyn iddynt gael cefnogaeth gan weithrediad ESF.

Tabl 8.2: Cyflogaeth chwe mis yn ar ôl cymryd rhan mewn gweithrediad ESF

	Cynyddu ymgysylltu	Mynd i'r afael â sgiliau isel	Cefnogi dilyniant				Cyfan- swm	Cefnogi cyfranogiad	Pob un
			Cynyddu sgiliau canolradd ol / uchel	Graddedig on yn ymgysylltu	Menywod yn y gweithlu	Gweith- -wyr gofal plant			
Cyflogedig	87.3	93.1	95.7	(90)	96.1	(80)	94.1	88.0	93.8
Hunangyflogedig	12.7	6.9	4.3	(10)	3.9	(20)	5.9	12.0	6.2
<i>O'r rheiny</i>									
Cyflogaeth ran-amser	23.1	17.0	10.9	*	17.5	*	14.1	31.5	15.1
Cyflogaeth ran-amser anwirfoddol	2.8	4.3	2.7	*	2.5	*	3.2	15.1	3.9
Fel % o gyfanswm cyflogaeth ran-amser	12.1	25.3	24.8	*	14.3	*	22.7	47.9	25.8
Statws contractiol***									
Ar gontract parhaol neu benagored	88.2	85.6	88.7	68.2	91.9	73.9	87.7	61.4	86.4
Contract tymor penodol	7.7	5.4	7.1	31.8**	8.1**	26.1**	6.7	12.5	6.9
Ar sail dros dro neu achlysurol	2.3	2.1	1.6				1.8	12.8	2.4
Contract dim oriau	1.7	6.9	2.5				3.8	13.2	4.3
Newid rôl	25.0	35.8	41.6	66.3	52.6	22.4	38.7	52.1	39.5
Newid cyflogwr	19.9	27.5	24.1	67.7	25.8	12.4	25.0	57.2	26.6
Sampl****	1,156	3,143	7,945	45	571	84	12,946	624	13,570

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022
Sylfaen: Pawb mewn cyflogaeth cyn cefnogaeth ESF ac ar ôl chwe mis ar ôl cymryd rhan mewn gweithrediad ESF.
* Celloedd wedi'u hatal er mwyn cynnal anhysbysrwydd.
**Cyfunwyd y ffigurau ar draws y categorïau nad ydynt yn rhai parhaol.
*** Yn cyfeirio at gyflogeion yn unig.

****Bydd samplau ar gyfer rhesi penodol yn amrywio ychydig oherwydd bod achosion lle atebwyd "Arall" neu "Ddim yn Gwybod" wedi'u hepgor.

- 8.9 Amcangyfrifwyd bod cyfran y rhai a oedd yn gyflogedig ar gontract parhaol neu benagored wedi cynyddu ychydig i 88 y cant. Roedd cyflogaeth nad oedd yn barhaol ar ei huchaf ymhlith y rhai a gymerodd ran mewn gweithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi ymgysylltu graddedigion (32 y cant) a chefnogi'r gweithlu gofal plant (26 y cant).
- 8.10 Nododd chwarter o'r rhai a gymerodd ran mewn gweithrediadau o dan y thema eang Cefnogi Dilyniant eu bod yn gweithio i gyflogwr gwahanol chwe mis ar ôl cymryd rhan mewn gweithrediad ESF i'r sawl yr oeddent yn gweithio iddo cyn ymgymryd â gweithrediad ESF. Roedd bron i 4 o bob 10 (39 y cant) yn gyflogedig mewn rôl wahanol o'i chymharu â'u rôl oedd ganddynt cyn ymgymryd â gweithrediad ESF.
- 8.11 Drwy ystyried nodweddion cyflogaeth chwe mis ar ôl cymryd rhan mewn gweithrediad ESF (gweler Tabl A.15A), gellir gweld bod nifer yr achosion o waith rhan-amser yn parhau i fod yn gymharol uchel ymhlith: menywod (21 y cant); pobl 55 oed a throsodd (26 y cant); pobl â chyflwr iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio (25 y cant); pobl â phlant dibynnol (25 y cant); a phobl â chyfrifoldebau gofalu (27 y cant).

Gwelliannau mewn nodweddion swyddi

Sgiliau a chymwyseddau

- 8.12 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hynny a oedd yn gyflogedig cyn eu gweithrediad ESF a chwe mis ar ôl iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF ystyried sut roedd lefelau'r sgiliau a'r cymwyseddau a oedd yn ofynnol ar gyfer cyflawni eu tasgau o ddydd i ddydd wedi newid o gymharu â'r hyn yr oeddent yn ei wneud yn eu swydd yn union cyn iddynt ddechrau eu cwrs.
- 8.13 Yn gyffredinol, nododd dros draean (36 y cant) o'r rhai a gymerodd ran mewn gweithrediadau o dan y thema Cefnogi Dilyniant fod y swyddi a oedd ganddynt chwe mis ar ôl cwblhau gweithrediad ESF yn gofyn am sgîl a chymhwysedd lefel o gymharu â'r hyn y disgwyliid iddynt ei wneud yn y swydd a oedd ganddynt yn union

cyn iddynt ddechrau eu cwrs (gweler Tabl 8.3). Roedd y ffigur hwn ar ei uchaf ymhlith y rhai a gymerodd ran mewn gweithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi menywod yn y gweithlu (44 y cant) a chynyddu sgiliau lefel canolradd / uchel (40 y cant).

- 8.14 Amrywiad cymharol fach a welwyd o ran y newidiadau yn lefelau'r sgiliau a chymwyseddau ar draws gwahanol grwpiau o'r cyfranogwyr ESF (gweler Tabl A.16A). Yr unig eithriad oedd y sgiliau a chymwyseddau lefel uwch a nodwyd ymhlith cyfranogwyr iau. Ymhlith pobl ifanc 16-24 oed, nododd 45 y cant fod lefelau'r sgiliau a'r cymwyseddau wedi cynyddu ers iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF. Roedd y ffigur hwn yn is ymhlith pobl 25-54 oed (33 y cant) ac ymhlith pobl 55 oed a hŷn (22 y cant).
- 8.15 O ran nodweddion gweithrediadau, roedd y rhai a gefnogwyd gan weithrediadau yn ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn fwy tebygol o nodi bod lefelau'r sgiliau a chymwyseddau wedi cynyddu ers cymryd rhan mewn gweithrediad ESF (gweler Tabl A.16B).

Gofynion o ran cymwysterau

- 8.16 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hynny a oedd yn gyflogedig cyn eu gweithrediad ESF a chwe mis ar ôl iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF sut roedd y cymwysterau gofynnol ar gyfer cyflawni eu tasgau o ddydd i ddydd wedi newid o gymharu â'r rhai a oedd yn ofynnol ar gyfer eu swydd yn union cyn iddynt ddechrau eu cwrs. Ar y cyfan, nododd tua chwarter (26 y cant) a gymerodd ran mewn gweithrediadau o dan y thema Cefnogi Dilyniant fod y swyddi a oedd ganddynt chwe mis ar ôl cwblhau gweithrediad ESF yn gofyn am lefel uwch o gymhwyster o gymharu â'r swydd a oedd ganddynt yn union cyn iddynt ddechrau eu cwrs. Fodd bynnag, nododd y mwyafrif (71 y cant) nad oedd unrhyw newid yn y gofynion o ran cymwysterau.
- 8.17 Y bobl hynny a gefnogwyd gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gynyddu ymgysylltu oedd fwyaf tebygol o nodi bod y cymwysterau a oedd yn gysylltiedig â'u tasgau gwaith wedi aros yr un fath (89 y cant).
- 8.18 Dim ond amrywiad cymharol fach a welwyd yn y newidiadau mewn gofynion o ran cymwysterau ar draws gwahanol grwpiau o'r cyfranogwyr ESF (gweler Tabl A.16A)

er, unwaith eto, y grwpiau iau o'r cyfranogwyr ESF a nododd fod gofynion eu swyddi o ran cymwysterau wedi cynyddu. Ymhlith y bobl ifanc 16-24 oed, nododd 30 y cant fod y gofynion o ran cymwysterau wedi cynyddu ers cymryd rhan mewn gweithrediad ESF. Roedd y ffigur hwn yn llai ymhlith pobl 25-54 oed (24 y cant) ac ymhlith pobl 55 oed a hŷn (17 y cant).

- 8.19 O ran nodweddion gweithrediadau, roedd y rhai a gefnogwyd gan weithrediadau yn ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn fwy tebygol o nodi bod y gofynion o ran cymwysterau wedi cynyddu ers cymryd rhan mewn gweithrediad ESF (gweler Tabl A.16B).

Lefelau cyfrifoldeb

- 8.20 Yn olaf, gofynnwyd i gyfranogwyr ystyried sut roedd eu lefelau cyfrifoldeb yn cymharu â'r lefelau cyn iddynt ddechrau eu cwrs. Yn gyffredinol, nododd 41 y cant a gymerodd ran mewn gweithrediadau o dan y thema Cefnogi Dilyniant fod eu lefelau cyfrifoldeb wedi cynyddu. Y bobl hynny a gefnogwyd gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gynyddu ymgysylltu oedd fwyaf tebygol o nodi bod eu lefelau cyfrifoldeb wedi aros yr un fath (75 y cant).
- 8.21 O gymharu â mesurau eraill o ansawdd swyddi, gwelir mwy o amrywiad yn y newidiadau mewn lefelau cyfrifoldeb ar draws gwahanol grwpiau o'r cyfranogwyr ESF (gweler Tabl A16.A). Roedd yr adroddiadau bod y lefelau cyfrifoldeb yn uwch yn fwy cyffredin ymhlith:
- gwrywod (45 y cant o gymharu â 38 y cant ymhlith menywod);
 - pobl nad oedd ganddynt gyflyrau iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio (41 y cant o gymharu â 34 y cant ymhlith y rhai a oedd â chyflyrau iechyd);
 - pobl nad oedd ganddynt blant dibynnol (42 y cant o gymharu â 35 y cant ymhlith y rhai a oedd â phlant);
 - a'r bobl nad oedd ganddynt unrhyw gyfrifoldebau gofalu (42 y cant o gymharu â 35 y cant ymhlith y rhai a oedd â chyfrifoldebau gofalu).
- 8.22 Unwaith eto, roedd y grwpiau iau o'r cyfranogwyr ESF yn fwy tebygol o nodi bod ganddynt lefelau uwch o gyfrifoldeb. Ymhlith y bobl ifanc 16-24 oed, nododd 54 y

cant fod ganddynt fwy o gyfrifoldeb ers cymryd rhan mewn gweithrediad ESF.

Roedd hyn yn llai ymhlith pobl 25-54 oed (37 y cant) ac ymhlith pobl 55 oed a hŷn (24 y cant).

- 8.23 O ran nodweddion gweithrediadau, roedd y rhai a gefnogwyd gan weithrediadau yn ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn fwy tebygol o nodi bod ganddynt lefelau cyfrifoldeb uwch ers cymryd rhan mewn gweithrediad ESF (gweler Tabl A.16B).

Newidiadau yn ansawdd swyddi

- 8.24 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd mewn cyflogaeth cyn ac ar ôl²⁵ eu cyfranogiad mewn gweithrediad ESF a oedd newidiadau wedi digwydd yn ansawdd eu swyddi. Mae Tabl 8.4 yn dangos mai'r gwelliannau mwyaf cyffredin yn ansawdd swyddi oedd cael mwy o foddhad yn y swydd (71 y cant); wedi cael codiad cyflog (70 y cant) a bod eu rhagolygon cyflog a dyrchafiad wedi gwella (70 y cant).
- 8.25 Y bobl hynny a gymerodd ran mewn gweithrediadau a oedd yn cefnogi menywod yn y gweithlu oedd fwyaf tebygol o nodi gwelliannau yn ansawdd swyddi ar draws gwahanol ddimensiynau, gydag 85 y cant o'r grŵp hwn yn nodi eu bod wedi cael codiad cyflog. Y bobl hynny a gefnogwyd gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gynyddu ymgysylltu oedd leiaf tebygol o nodi gwelliannau yn ansawdd swyddi.

²⁵ Gallai 'ar ôl' olygu naill ai chwe mis ar ôl iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF a/neu ar adeg yr arolwg.

Tabl 8.3: Gwelliannau mewn nodweddion swyddi

	Cefnogi dilyniant						Cefnogi cyfranogiad	Pob un
	Cynyddu Ymgysylltu	Mynd i'r afael â sgiliau isel	Cynyddu sgiliau canolraddol / uchel	Graddedigion yn ymgysylltu	Menywod yn y gweithlu	Gweithwyr gofal plant	Cyfanswm	
Sgiliau neu gymwyseddau								
Angen lefel uwch	12.4	34.6	39.7	62.5	44.0	23.5	36.0	36.2
Angen yr un lefel	84.8	61.8	57.7	37.5*	54.1	76.5*	61.1	60.5
Angen lefel is	2.8	3.6.	2.6	37.5*	1.9	76.5*	2.9	3.3
Gofynion o ran cymwysterau								
Angen lefel uwch	7.4	25.3	28.2	44.2	20.0	25.8	25.4	25.4
Angen yr un lefel	89.0	70.4	68.2	55.8*	77.3	74.3*	70.8	70.4
Angen lefel is	3.6.	4.3	3.6.	55.8*	2.6	74.3*	3.8	4.2
Lefel cyfrifoldeb								
Mwy o gyfrifoldeb	17.9	39.6	44.0	69.9	49.3	28.2	40.6	40.7
Yr un cyfrifoldeb	75.6	55.4	51.4	30.1*	47.2	71.8*	54.5	54.1
Llai o gyfrifoldeb	6.6	5.1	4.6	30.1*	3.5	71.8*	4.9	5.2
Cyfanswm	100	100	100	100	100	100	100	100
Sampl**	1,156	3,144	7,945	46	571	84	12,946	624 13,570

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022

Sylfaen: Yr holl gyfranogwyr a oedd yn gyflogedig cyn cefnogaeth ESF a chwe mis ar ei hôl.

*Cyfunwyd ffigurau ar draws y categorïau oherwydd bod meintiau sampl yn fach.

Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli'r sampl lawn bosibl. ***Bydd samplau ar gyfer rhesi penodol yn amrywio ychydig oherwydd bod achosion lle atebwyd "Ddim yn gwybod" wedi'u hepgor.

- 8.26 O ran sut roedd newidiadau yn ansawdd swyddi yn amrywio ymhlith gwahanol grwpiau o weithwyr a oedd wedi cael cefnogaeth ESF (gweler Tabl A.17A), roedd gwelliannau yn ansawdd swyddi yn llai tebygol o gael eu nodi ymhlith menywod, gweithwyr hŷn, pobl â chyflyrau iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio, gofalwyr, a phobl â phlant dibynnol.
- 8.27 Drwy ddadansoddi fesul nodwedd gweithrediad (gweler Tabl A.17B) gwelir bod y rhai a gefnogwyd weithrediad ESF ar ôl pandemig COVID-19 yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi cael dyrchafiad, neu godiad cyflog o gymharu â'r rhai a oedd wedi cymryd rhan cyn y pandemig.
- 8.28 Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg a ellid priodoli'r gwelliannau hyn yn ansawdd swyddi i'w cyfranogiad mewn gweithrediad ESF. Cyflwynir yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ar waelod Tabl 8.4. Nododd tua thri chwarter o'r ymatebwyr a gynorthwywyd gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi dilyniant fod y gwelliannau hyn yn ansawdd swyddi naill ai oherwydd y cwrs yn uniongyrchol (12 y cant) neu fod y cwrs wedi helpu (62 y cant). Dywedodd y 26 y cant o gyfranogwyr a oedd yn weddill nad oedd y cwrs 'wedi gwneud unrhyw wahaniaeth' o ran cyfrannu at y gwelliannau yn ansawdd swyddi yr oeddent wedi'u profi ers cymryd rhan mewn gweithrediad ESF.
- 8.29 Y menywod a gefnogwyd gan weithrediadau o dan y thema Menywod yn y Gweithlu oedd leiaf tebygol o nodi nad oedd eu cwrs wedi gwneud unrhyw wahaniaeth (21 y cant). Y rhai a gefnogwyd gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gynyddu ymgysylltu oedd fwyaf tebygol o nodi nad oedd eu gweithrediad wedi gwneud unrhyw wahaniaeth o ran cyfrannu at welliannau yn ansawdd swyddi (37 y cant).
- 8.30 O ran yr amrywiadau a welwyd ymhlith gwahanol grwpiau o'r cyfranogwyr ESF, gwelir perthynas glir eto rhwng canfyddiadau ynghylch cyfraniad y cwrs ac oedran y cyfranogwyr (gweler Tabl A17.A). Ymhlith y bobl ifanc 16-24 oed, nododd 23 y cant nad oedd y cwrs wedi cyfrannu at welliannau yn ansawdd swyddi. Roedd y ffigur hwn yn uwch ymhlith pobl 25-54 oed (27 y cant) ac ymhlith pobl 55 oed a hŷn (34 y cant).
- 8.31 Roedd y rhai â chyflyrau iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio yn fwy tebygol o nodi nad oedd y cwrs wedi cyfrannu at welliannau yn ansawdd swyddi (32 y cant) na'r rhai nad oedd ganddynt unrhyw gyflyrau o'r fath (26 y cant).

Tabl 8.4: Gwelliannau yn ansawdd swyddi ers cefnogaeth ESF:

	Cynyddu ymgysylltu	Mynd i'r afael â sgiliau isel	Cefnogi dilyniant		Menywod yn y gweithlu	Gweith- wyr gofal plant	Cyfan- swm	Cefnogi cyfranogiad	Pob un
			Cynyddu sgiliau canolraddol / uchel	Graddedigion yn ymgysylltu					
Gwelliannau yn ansawdd swyddi									
Cael mwy o foddhad swydd	57.8	72.6	72.0	64.4	76.7	56.0	71.2	77.5	71.5
Wedi cael codiad cyflog	57.8	69.6	71.9	79.9	85.0	56.3	70.4	66.6	70.2
Gwell rhagolygon cyflog a dyrchafiad wedi gwella	41.7	70.5	73.4	70.1	76.8	53.9	70.0	71.6	70.1
Mwy o gyfleoedd hyfforddi	44.8	72.3	68.0	56.9	62.3	59.6	67.5	73.3	67.8
Gwell sicrwydd swydd	41.2	67.7	59.7	49.2	54.5	53.9	60.7	74.1	61.5
Wedi cael dyrchafiad	15.5	29.2	39.8	45.2	55.4	14.2	34.8	23.5	34.2
Dim un o'r rhain	16.4	6.5	6.3	*	3.1	*	7.1	7.7	7.1
Sampl	1,156	3,205	8,059	46	571	84	13,121	624	13,745
A wnaeth y cwrs helpu?**									
Yn uniongyrchol oherwydd y cwrs	8.5	11.3	12.9	24.2	8.7	9.8	12.0	11.9	11.9
Helpodd y cwrs	54.9	62.3	62.3	48.9	70.2	52.4	61.9	60.4	60.4
Dim gwahaniaeth o gwbl*	36.6	26.3	24.8	26.9	21.0	37.8	26.1	27.6	27.6
Cyfanswm	100	100	100	100	100	100	100	100	100
Sampl	819	2,647	6,768	41	492	67	10,834	492	11,326

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022

Sylfaen: Yr holl gyfranogwyr a oedd yn gyflogedig cyn ac ar ôl cefnogaeth ESF.

* Ffigurau wedi'u hatal oherwydd bod y meintiau sampl yn fach.

**Dim ond wedi gofyn i'r rhai a nododd welliant yn ansawdd swyddi. **CATI llawn yn unig.

Cymhwysterau a enillwyd ac ansawdd swyddi

- 8.32 Mae Tabl 8.5 yn dangos, ymhlith cyfranogwyr a oedd mewn gwaith cyn ac ar ôl iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF, fod y rhai a nododd eu bod wedi ennill cymhwyster o ganlyniad i gael eu cefnogi gan weithrediad ESF yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi profi gwelliannau yn ansawdd swyddi nag y rhai nad oeddent wedi ennill cymhwyster.
- 8.33 O ran y cyfranogwyr a nododd fod eu rhagolygon cyflog a dyrchafiad wedi gwella neu eu bod wedi cael dyrchafiad mewn gwirionedd, gwelwyd bod lefel y cymhwyster a enillwyd hefyd yn bwysig. Roedd y rhai a oedd wedi ennill cymhwysterau ar lefelau uwch yn fwyfwy tebygol o nodi eu bod wedi profi'r gwelliannau hyn yn ansawdd swyddi. Fodd bynnag, ar draws meysydd eraill, gwelwyd bod ennill unrhyw gymhwyster drwy weithrediad ESF yn rhagfynegydd pwysicach o welliannau yn ansawdd swyddi yn hytrach na lefel y cymhwyster a enillwyd.

Tabl 8.5: Gwelliannau yn ansawdd swyddi a'r cymhwyster a enillwyd

	Y cymhwyster a enillwyd					Pob un
	Dim un	Lefel ≤1	Lefel 2	Lefel 3+	Arall, ddim yn gwybod	
Cael mwy o foddhad swydd	59.3	73.8	75.5	75.3	69.8	72.4
Gwell rhagolygon cyflog a dyrchafiad wedi gwella	49.8	70.1	73.8	78.0	66.7	71.5
Wedi cael codiad cyflog	59.0	72.7	72.9	73.8	70.2	71.1
Mwy o gyfleoedd hyfforddi	52.1	71.3	75.0	70.8	67.5	68.9
Gwell sicrwydd swydd	48.4	69.3	70.6	63.2	59.7	62.7
Wedi cael dyrchafiad	20.4	28.4	32.5	42.3	29.3	34.9
Dim un o'r rhain	16.3	7.8	5.6	4.5	6.8	6.7
Sampl	1,651	240	2,544	5,924	1,495	11,854
A wnaeth y cwrs helpu?**						
Yn uniongyrchol oherwydd y cwrs	4.9	9.6	13.0	16.1	8.9	12.9
Helpodd y cwrs	41.9	63.2	66.3	66.4	60.9	62.8
Dim gwahaniaeth o gwbl*	53.2	27.2	20.7	17.5	30.2	24.3
Sampl	1,357	216	2,386	5,630	1,380	10,969

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022

Sylfaen: Yr holl gyfranogwyr a oedd yn gyflogedig cyn ac ar ôl cefnogaeth ESF.

*Dim ond wedi gofyn i'r rhai a nododd welliant yn ansawdd swyddi. CATI llawn yn unig.

- 8.34 Roedd cyfranogwyr hefyd yn fwy tebygol o briodoli gwelliannau yn ansawdd swyddi i'r gefnogaeth yr oeddent wedi'i chael os oeddent wedi ennill cymhwyster o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithrediad ESF. Mae sylfaen Tabl 8.5 yn dangos bod cryfder y priodoliad hwn ymhlith cyfranogwyr wedi cynyddu'n raddol mewn cysylltiad â lefel y cymhwyster a enillwyd.

- 8.35 Ymhlith y rhai a brofodd welliannau yn ansawdd swyddi ond na enillodd gymhwyster drwy gymryd rhan mewn gweithrediad ESF, nododd tua hanner ohonynt (47 y cant) fod y gwelliannau hyn yn ansawdd swyddi naill ai oherwydd y cwrs yn uniongyrchol (5 y cant) neu fod y cwrs wedi helpu (42 y cant).
- 8.36 Ymhlith y rhai a brofodd welliannau yn ansawdd swyddi ac a enillodd gymhwyster Lefel 3 neu uwch, nododd 82 y cant fod y gwelliannau hyn yn ansawdd swyddi naill ai oherwydd y cwrs yn uniongyrchol (16 y cant) neu fod y cwrs wedi helpu (66 y cant).

Asesiad o'r effaith yr ymatebwyr

- 8.37 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a oedd mewn cyflogaeth ar adeg yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn meddwl bod y cwrs wedi eu helpu i gael eu swydd bresennol. Mae Tabl 8.6 yn rhoi'r ymatebion i'r cwestiwn hwn ymhlith y rhai a oedd mewn gwaith cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF. Ymhlith y rhai a gymerodd ran mewn gweithrediadau o dan y thema cefnogi dilyniant, mae dros hanner (54 y cant) y cyfranogwyr ESF yn adrodd naill ai bod y cwrs wedi eu helpu i gael eu swydd bresennol (45 y cant) neu eu bod wedi cael eu swydd bresennol yn uniongyrchol oherwydd y cwrs (9 y cant). Nododd weddill y 46 y cant o'r cyfranogwyr ESF 'nad oedd y cwrs wedi gwneud unrhyw wahaniaeth'.
- 8.38 Y bobl hynny a gefnogwyd gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gynyddu ymgysylltu oedd fwyaf tebygol o awgrymu nad oedd eu gweithrediad ESF wedi gwneud unrhyw wahaniaeth (67 y cant). Gallai hyn ymwneud â nod y gweithrediadau hyn o ran mynd i'r afael â phroblemau tangyflogaeth neu absenoldeb ymhlith pobl â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn hytrach na chefnogi'r bobl hyn i gael swydd newydd o reidrwydd.
- 8.39 Drwy ddadansoddi fesul ystod o nodweddion personol gwelir nad oedd y canfyddiadau o'r effaith yn amrywio'n fawr rhwng gwahanol grwpiau o ymatebwyr (gweler Tabl A.18A). Mae'r unig eithriad yn hyn o beth yn ymwneud ag oedran. Ymhlith y bobl ifanc 16-24 oed, nododd 37% ohonynt nad oedd eu cwrs wedi gwneud unrhyw wahaniaeth o ran eu helpu i gael eu swydd bresennol. Roedd hyn yn uwch ymhlith pobl 25-54 oed (49 y cant) ac ymhlith pobl 55 oed a hŷn (61 y cant).

Tabl 8.6: Effaith cefnogaeth ESF ar ennill y swydd bresennol


	Cefnogi dilyniant							Cefnogi cyfranogiad	Pob un
	Cynyddu ymgysylltu	Mynd i'r afael â sgiliau isel	Cynyddu sgiliau canolraddol / uchel	Ymgysylltu graddedigion	Menywod yn y gweithlu	Gweithlu gofal plant	Cyfanswm		
Yn uniongyrchol oherwydd y cwrs	2.0	8.3	9.3	29.1	3.6	13.4	8.4	10.9	8.5
Helpodd y cwrs	31.2	44.9	46.4	40.2	57.4	31.5	45.1	51.4	45.4
Dim gwahaniaeth o gwbl	66.8	46.8	44.3	30.6	39.1	55.1	46.5	37.7	46.1
Cyfanswm	100	100	100	100	100	100	100	100	100
Sampl	839	2,600	6,774	45	495	57	10,810	521	11,331

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022, CATI llawn yn unig

Sylfaen: Yr holl gyfranogwyr a oedd yn gyflogedig cyn cefnogaeth ESF ac ar adeg yr arolwg.

- 8.40 Heblaw hynny, roedd y rhai â chyflyrau iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio yn fwy tebygol o nodi nad oedd y cwrs wedi gwneud unrhyw wahaniaeth iddynt o ran cael eu swydd bresennol (52 y cant) na'r rhai heb gyflyrau o'r fath (46 y cant). Bydd hyn yn rhannol yn adlewyrchu'r gyfran uwch o'r bobl â chyflyrau iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio a gefnogwyd gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at leihau cyfraddau tangyflogaeth a chyfraddau absenoldeb.
- 8.41 Dengys Ffigur 8.1 sut yr oedd canfyddiadau o effaith cefnogaeth ESF ymhlith cyfranogwyr yn amrywio mewn cysylltiad â lefel y cymhwyster a enillwyd drwy weithrediad ESF. Roedd y gyfran a nododd nad oedd eu cwrs wedi gwneud unrhyw wahaniaeth iddynt o ran cael eu swydd bresennol ar ei uchaf ymhlith y rhai nad oeddent wedi ennill unrhyw gymwysterau drwy gymryd rhan mewn gweithrediad ESF (72 y cant). Ymhlith y rhai a ddywedodd eu bod wedi ennill cymhwyster Lefel 3 neu uwch, dim ond 38 y cant a nododd nad oedd eu cwrs wedi gwneud unrhyw wahaniaeth.

Ffigur 8.1: Effaith cefnogaeth ESF ar ennill y swydd bresennol fesul cymhwyster a enillwyd



Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2022, CATI llawn yn unig

Sylfaen: Yr holl gyfranogwyr a oedd yn gyflogedig cyn cefnogaeth ESF ac ar adeg yr arolwg.

Effaith pandemig COVID-19

- 8.42 Gofynnwyd i ymatebwyr i Arolwg Cyfranogwyr ESF 2022 a oeddent yn meddwl bod pandemig COVID-19 wedi gwneud gwahaniaeth i'w cynnydd ers iddynt gwblhau eu cwrs ESF. Ymhlith y rhai a oedd mewn cyflogaeth cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF ac ar adeg yr arolwg, mae Tabl 8.7 yn dangos bod mwy na 7 o bob 10 (71 y cant) o'r rhai a gynorthwywyd gan brosiectau a oedd yn cefnogi dilyniant wedi nodi nad oedd pandemig COVID-19 wedi dylanwadu ar eu dilyniant ar ôl cymryd rhan mewn gweithrediad ESF. Fodd bynnag, dywedodd dros un rhan o bump (21 y cant) fod y pandemig wedi gwneud pethau'n anos. Dim ond 8 y cant a nododd fod pethau wedi dod yn rhwyddach.
- 8.43 Y bobl hynny a oedd wedi cael eu cefnogi gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi menywod yn y gweithlu oedd fwyaf tebygol o nodi bod pandemig COVID-19 wedi gwneud pethau'n rhwyddach (14 y cant). Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn fel arall yn gymharol cyson ar draws gwahanol feysydd y gweithrediadau.
- 8.44 Ni welir llawer o wahaniaeth ychwaith wrth gymharu cyfranogwyr ar draws ystod o nodweddion personol (gweler Tabl A.19A). Yr unig eithriad i hyn yw'r bobl â chyflyrau iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio ac, yn eu plith, nododd 31 y cant ohonynt fod pethau wedi mynd yn anos ers y pandemig o'i gymharu â dim ond 20 y cant ymhlith pobl heb unrhyw gyflyrau o'r fath.
- 8.45 Gofynnwyd i'r rhai a nododd fod pethau wedi dod yn anos neu'n rhwyddach oherwydd y pandemig pam felly. Mae Tabl 8.8 yn dangos mai'r rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd gan y rhai a ddywedodd fod pethau wedi mynd yn anos oedd bod y pandemig wedi cael effaith ddrwg ar y diwydiant yr oeddent eisiau gweithio ynddo (24%) a bod llai o swyddi o gwmpas yn gyffredinol (22%).
- 8.46 Dywedodd llawer llai o'r cyfranogwyr fod pethau wedi dod yn rhwyddach oherwydd y pandemig. O'r rhai a wnaeth hynny, roedd y prif resymau am hyn yn cynnwys bod y gallu i weithio gartref neu o bell wedi rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt (33%), bod pandemig COVID-19 wedi arwain at ragor o swyddi gwag (33%), a bod hyfforddiant ar-lein wedi dod yn fwy hygyrch (20%).

Tabl 8.7: Effaith pandemig COVID-19 ar ddilyniant

	Cefnogi dilyniant							Cefnogi cyfranogiad	Pob un
	Cynyddu ymgysylltu	Mynd i'r afael â sgiliau isel	Cynyddu sgiliau canolraddol / uchel	Ymgysylltu graddedigion	Menywod yn y gweithlu	Gweithwyr gofal plant	Cyfanswm		
Fe wnaeth pethau'n rhwyddach	8.0	6.4	8.1	78.4*	13.7	76.7*	7.8	7.7	7.8
Heb wneud gwahaniaeth mewn gwirionedd*	71.2	70.2	73.0		65.0		71.4	57.9	70.5
Fe wnaeth pethau'n anoddach	20.9	23.4	19.0	21.6	21.3	23.3	20.8	34.4	21.7
Cyfanswm	100	100	100	100	100	100	100	100	100
Sampl	774	1,618	3,789	53	589	48	6,871	361	7,232

Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2022

Sylfaen: Pob cyfranogwr a oedd yn gyflogedig cyn cefnogaeth ESF.

* Cyfunwyd y ffigurau ar gyfer "Fe wnaeth pethau'n rhwyddach" a "Heb wneud gwahaniaeth mewn gwirionedd".

*Yn cynnwys cyfran fach o ymatebwyr a ymatebodd, "Ddim yn siŵr iawn".

Tabl 8.8: Sut yr effeithiodd pandemig COVID-19 ar ddilyniant cyflogaeth

Sut mae pethau wedi mynd yn anoddach?	
Cafodd y pandemig effaith ddrwg ar y diwydiant rydw / roeddwn i eisiau gweithio ynddo	24.3
Llai o swyddi o gwmpas yn gyffredinol	21.6
Problemau gyda dulliau o ddysgu / cynnal cyfweiliadau / gweithio o bell	14.3
Roedd llai o gyrsiau hyfforddi ar gael	13.3
Effeithiwyd ar y gallu i weithio / collwyd swydd, gan gynnwys e.e. ar ffyrlo	11.3
Sampl	1,544
Sut mae pethau wedi dod yn rhwyddach?	
Mae'r gallu i weithio gartref neu o bell wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i mi	33.2
Roedd COVID-19 wedi arwain at ragor o swyddi gwag / cyfleoedd gwaith	33.0
Mae hyfforddiant ar-lein / hyfforddiant swydd wedi bod yn fwy hygyrch	20.2
Rwyf wedi gallu gwneud cais am swyddi ymhellach i ffwrdd oherwydd bod gweithio gartref yn opsiwn	7.4
Wedi gwella sgiliau / datblygu sgiliau newydd	6.3
Sampl	589
Ffynhonnell: Arolwg Cyfranogwyr ESF 2022	
Sylfaen: Yr holl gyfranogwyr a oedd yn gyflogedig cyn ymgymryd â gweithrediad ESF ac a nododd fod y pandemig wedi gwneud pethau'n anos / rhwyddach.	

9. Casgliadau ac argymhellion

- 9.1 Nod y dadansoddiad hwn o ddata cyfunol o'r Arolygon o Gyfranogwyr ESF yw cynnig darlun manwl o nodweddion, profiad, a chanlyniadau'r cyfranogwyr ESF a adawodd eu darpariaeth rhwng 2015 a 2022 ar draws gwahanol gategorïau o weithrediadau.

Pwy yw'r Cyfranogwyr?

- 9.2 Mae'r dadansoddiad wedi darparu tystiolaeth sy'n awgrymu bod ymyriadau ESF yn aml yn ennyn cyfranogiad ac yn cefnogi ystod amrywiol o bobl, yn enwedig mewn perthynas â nodweddion fel oedran, rhyw, anabledd, ac afiechyd sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae'r Arolwg o Gyfranogwyr ESF yn amlygu'r anawsterau a wynebir gan y grwpiau hyn. Er enghraifft, ymhlith y rhai a oedd yn ddi-waith yn flaenorol cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF, mae gwaith dadansoddi yn dangos bod menywod, cyfranogwyr hŷn, pobl â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, pobl â phlant dibynnol a gofalwyr yn fwy tebygol o fod wedi bod heb swydd yn ystod y tair blynedd cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF.
- 9.3 O ran hynny, cyfrannodd y gweithrediadau a gefnogwyd gan yr ESF at drechu tlodi ac allgau cymdeithasol a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, a thrwy hynny fynd i'r afael â'r themâu trawsbynciol a lywiodd gweithrediad Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol a'r nod "Cymru fwy cyfartal" fel y nodir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru.

Yr ESF a'r Gymraeg

- 9.4 Roedd meysydd hefyd lle y gellir dadlau nad oedd rhaglenni ESF wedi cael y cyfle i ddarparu cefnogaeth i'r graddau y gellid bod wedi'u disgwyl. Roedd y Gymraeg yn allweddol yn hyn o beth. Mae amcangyfrifon o Gyfrifiad 2021 yn awgrymu bod 17 y cant o'r bobl dros 16 oed yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg, er bod ymchwil yn awgrymu bod y bobl â lefelau cyrhaeddiad addysgol is a'r rhai sy'n ddi-waith yn llai tebygol o siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.²⁶ Ymhlith y cyfranogwyr ESF:
- Dim ond 7 y cant o'r cyfranogwyr ESF a nododd mai Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf.

Ar gael yn: ²⁶<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-03/pa-ffactorau-syn-gysylltiedig-a-phobl-yn-siarad-cymraeg.pdf>

- Dim ond 6 y cant o'r cyfranogwyr ESF a nododd fod eu gweithrediad wedi'i ddarparu naill ai'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfuniad o'r Gymraeg a Saesneg.

- 9.5 Serch hynny, roedd y cynnig i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg yn adlewyrchu anghenion lleol, ac roedd tua hanner y cyfranogwyr yng Ngwynedd (55%), Ynys Môn (48%) a Sir Gaerfyrddin (47%) wedi cael y cyfle i dderbyn eu cefnogaeth yn Gymraeg.
- 9.6 O ganlyniad, nododd mwyafrif helaeth o'r cyfranogwyr ESF (95 y cant) fod eu gweithrediad wedi cael ei ddarparu drwy eu dewis iaith, sy'n ffigur a oedd yn gymharol cyson ledled Cymru. Mae Holtom et al (2024) yn nodi bod canfyddiadau o'r fath yn gyson ag ymchwil (gweler WCVA, 2022) sy'n nodi amharodrwydd cyffredinol i gyrchu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig pan mai Saesneg yw iaith ddiofyn y gwasanaethau.

Tynnu'n ôl o weithrediadau ESF

- 9.7 Er ei bod yn amlwg bod rhaglenni ESF wedi cael eu targedu at y grwpiau hynny sy'n wynebu rhai o'r anfanteision mwyaf yn y farchnad lafur, mae'r arolwg yn darparu tystiolaeth sy'n cyfeirio at yr heriau o gefnogi'r grwpiau hyn ac efallai nad yw'r rhaglenni hyn wedi llwyddo cystal i gefnogi rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed.
- 9.8 Er enghraifft, cofnodir bod 17 y cant o gyfranogwyr wedi gadael eu cwrs yn gynnar. Ni ellir cymryd diffyg cwblhau fel tystiolaeth o fethiant gan y gallai rhai cyfranogwyr fod wedi gadael yn gynnar i ddechrau cyflogaeth. Fodd bynnag, yr hyn sy'n peri pryder, yw yr oedd y cyfraddau tynnu'n ôl yn gymharol uchel ymhlith pobl ifanc 16-24 oed (21 y cant), pobl â chyflyrau iechyd oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio (23 y cant) a phobl â lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol (20 y cant), sy'n awgrymu at ei gilydd bod mwy o achosion o dynnu'n ôl yn gynnar o ddarpariaeth ESF ymhlith bobl fwyaf difreintiedig. Dylai gwaith ymchwil yn y maes hwn yn y dyfodol gasglu mwy o wybodaeth ynghylch pam y tynnodd pobl yn ôl o'u cyrsiau yn gynnar.

Ennill cymwysterau a sgiliau

- 9.9 Dengys y dadansoddiad fod bron i dri chwarter o'r cyfranogwyr (72 y cant) wedi nodi eu bod naill ai wedi ennill cymhwyster neu wedi ennill unedau / credydau tuag at gymhwyster. Roedd y gyfran a nododd eu bod wedi ennill cymhwyster yn uwch ymhlith y rhai a gymerodd ran mewn gweithrediadau a oedd yn cefnogi dilyniant

mewn cyflogaeth (84 y cant) o gymharu â'r rhai a ymgwymerodd â gweithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi cyfranogiad yn y farchnad lafur (55 y cant). Roedd lefel y cymwysterau a enillwyd gan y rhai ar weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi dilyniant hefyd yn gyffredinol uwch.

- 9.10 Roedd cyfranogiad mewn gweithrediadau ESF hefyd yn gysylltiedig â chynnydd yn lefelau cymwysterau cyfranogwyr. Roedd y cynnydd hwn yn lefel y cymwysterau a ddaliwyd yn fwy amlwg ymhlith y rhai a gefnogwyd gan weithrediadau o fewn y thema Dilyniant Ategol, lle gostyngodd y gyfran â lefelau cyrhaeddiad isel o 36 y cant i 23 y cant ar ôl cymryd rhan mewn gweithrediad ESF.
- 9.11 Yn gyffredinol, nododd y cyfranogwyr ESF hefyd eu bod wedi ennill ystod eang o sgiliau drwy gymryd rhan, yn fwyaf nodedig sgiliau meddalach fel sgiliau cyfathrebu, sgiliau gweithio mewn tîm a sgiliau trefnu.
- 9.12 Felly dangoswyd bod gweithrediadau'r farchnad lafur a gefnogir gan yr ESF yn mynd i'r afael yn uniongyrchol ag Amcan Thematig yr UE: "Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes" ac Echelinau Blaenoriaeth sydd â'r nod o wella cyrhaeddiad, lefelau sgiliau a chyflogadwyedd.
- 9.13 Felly mae gweithrediadau a ariennir gan yr ESF yn cefnogi nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru fwy ffyniannus a chydnerth drwy ddatblygu poblogaeth fwy medrus ac addysgedig. Aethpwyd i'r afael â'r nod cydnerthedd hefyd drwy gefnogi cyfranogwyr i sicrhau cyflogaeth drwy ail-sgilio ac addasu i anghenion sgiliau newidiol o fewn y farchnad lafur.

Rhwystrau i ddod o hyd i gyflogaeth

- 9.14 Mae'r Arolygon o Gyfranogwyr ESF yn darparu tystiolaeth bwysig ynghylch y rhwystrau a wynebwr gan lawer o gyfranogwyr o ran ddod o hyd i waith. Mae'r rhwystrau a nodir amlaf o ran dod o hyd i gyflogaeth yn ymwneud â diffyg profiad gwaith perthnasol. Fodd bynnag, mae'r arolwg yn rhoi darlun cyfoethog o gymhlethdod y rhwystrau a wynebwr gan grwpiau penodol. Roedd menywod, gofawyr, a phobl â phlant dibynnol i gyd yn fwy tebygol o nodi bod anawsterau'n ymwneud â bod eisiau gweithio'n rhan-amser yn unig, bod â chyfrifoldebau gofalu a methu â fforddio gofal plant yn rhwystrau i gyflogaeth (gweler Tabl A.5A).

9.15 Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oedd pob rhwystr a grybwyllwyd gan gyfranogwyr yn ymwneud â ffactorau personol. Roedd ymdeimlad cryf ymhlith y cyfranogwyr ESF bod problemau'r farchnad lafur yn yr ardaloedd lle maent yn byw yn cyfrannu at ddiffyg cyfle, gyda chyfranogwyr yn nodi ei bod yn anodd cael gwaith priodol (44 y cant) ac nad oedd unrhyw swyddi priodol lle roeddent yn byw (33 y cant). Er y gall Rhaglenni ESF helpu i wella gallu cyfranogwyr i sicrhau cyflogaeth, canfyddir yn aml bod y cyfleoedd a ddarperir gan farchnadoedd llafur lleol yn gyfyngedig.

Canlyniadau cyflogaeth:

9.16 O ran canlyniadau yn ymwneud â gweithgarwch economaidd, gwelwyd bod ychydig dros hanner y cyfranogwyr mewn gweithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gynyddu cyflogaeth wedi bod mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl iddynt adael eu gweithrediadau. Roedd y ffigur hwn yn sylweddol uwch ymhlith y rhai a oedd wedi cael cefnogaeth gan weithrediadau a oedd yn cefnogi cyflogadwyedd pobl mewn perygl o dlodi, ac yn eu plith roedd tuag 8 o bob 10 mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl iddynt adael eu gweithrediadau.

9.17 Roedd cyfranogiad mewn cyflogaeth yn is ymhlith pobl dros 55 oed (40 y cant), pobl â chyflyrau iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio (32 y cant) a phobl â lefelau cyrhaeddiad addysgol is (47 y cant). Nid oedd cymryd rhan mewn gweithrediadau a ariannwyd gan yr ESF yn gallu mynd i'r afael â'r holl rwystrau personol a chymdeithasol cymhleth y mae rhai grwpiau'n eu hwynebu o ran cael gwaith.

Effaith ar gyfranogiad

Canfyddiadau'r cyfranogwyr

9.18 Roedd tua dwy ran o dair (66 y cant) o'r cyfranogwyr ESF a oedd yn ddi-waith cyn cefnogaeth ESF ond a oedd mewn cyflogaeth erbyn adeg yr arolwg wedi nodi naill ai bod y cwrs wedi eu helpu i gael eu swydd bresennol (52 y cant) neu eu bod wedi cael eu swydd bresennol yn uniongyrchol oherwydd y cwrs (14 y cant). Dywedodd traean o'r cyfranogwyr ESF (34 y cant) nad oedd y cwrs 'wedi gwneud unrhyw wahaniaeth'.

9.19 Mae'r gwaith dadansoddi'n dangos nad oedd y canfyddiadau o effaith yn amrywio llawer rhwng gwahanol grwpiau o gyfranogwyr. Yr eithriad i hyn yw bod y canfyddiadau o effaith yn uwch ymhlith y rhai sydd wedi ennill cymhwyster drwy

gymryd rhan mewn gweithrediad ESF, ac mae'r canfyddiadau hyn yn cynyddu mewn cysylltiad â lefel y cymhwyster a enillwyd, gan gadarnhau pwysigrwydd cynyddu lefelau cyrhaeddiad.

Yr effaith amcangyfrifed ar ganlyniadau cyflogaeth

- 9.20 Fodd bynnag, canfuwyd bod effaith y cynlluniau hyn o ran cefnogi cyfranogiad mewn cyflogaeth yn llawer mwy cymedrol yn seiliedig ar ganlyniadau'r Gwerthusiad Gwrthffeithiol o Effaith.
- 9.21 Amcangyfrifwyd bod cyfranogiad mewn gweithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar yn gysylltiedig â chynnydd o 7 pwynt canran mewn canlyniadau cyflogaeth (29 y cant o gymharu â 22 y cant).
- 9.22 Ymhlith grŵp mwy cyflogadwy o fuddiolwyr ESF a oedd wedi bod yn ddi-waith a/neu a oedd wedi colli eu swydd yn ddiweddar, amcangyfrifwyd bod cyfranogiad mewn gweithrediadau o dan yr Amcan Penodol o gefnogi cyflogadwyedd pobl mewn perygl o dlodi yn gysylltiedig â chynnydd o 13 pwynt canran mewn canlyniadau cyflogaeth (82 y cant o gymharu â 69 y cant).
- 9.23 Roedd cyfranogiad mewn gweithrediadau a oedd wedi'u hanelu at leihau lefelau diweithdra ac anweithgarwch economaidd ymhlith pobl ifanc 16-24 oed yn gysylltiedig â chynnydd o 16 pwynt canran yng nghyfran y bobl mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (59 y cant o gymharu â 43 y cant).
- 9.24 Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau'n gyson â'r rhai sy'n deillio fel arfer o werthuso rhaglenni o'r fath. Mewn adolygiad diweddar o dystiolaeth o effeithiolrwydd cynlluniau sy'n cefnogi cyfranogiad mewn cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc, daw Newton et al (2020) i'r casgliad mai anaml yr amcangyfrifir bod newidiadau mewn canlyniadau cyflogaeth net yn uwch na 10 pwynt canran a'u bod yn aml yn llai.
- 9.25 Fodd bynnag, nid oedd y canlyniadau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â chyfranogiad mewn gweithrediadau ESF wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws y boblogaeth. Amcangyfrifwyd y bu effeithiau cymryd rhan mewn gweithrediadau ESF a oedd wedi'u hanelu at gefnogi cyflogadwyedd pobl ddi-waith hirdymor ac economaidd anweithgar yn is ar gyfer dynion, pobl â chymwysterau lefel is a phobl â chyflyrau iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio. Yn achos y ddau grŵp olaf,

amcangyfrifwyd bod enillion cyflogaeth yn llai ymhlith y rhai yr ystyrir eu bod yn wynebu'r rhwystrau mwyaf i gymryd rhan yn y farchnad lafur.

Yr effaith ymhlith pobl ddi-waith yn erbyn pobl economaidd anweithgar

- 9.26 Datgelodd gwaith dadansoddi fod effaith gweithrediadau ESF ar ganlyniadau cyflogaeth pobl economaidd anweithgar yn fwy nag yr oeddent ar gyfer pobl ddi-waith. Mae hyn yn gyson â thystiolaeth flaenorol (Ainsworth a Marlow, 2011). Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch y gallu i wneud cymariaethau 'tebyg â'i debyg' mewn gwirionedd ymhlith cyfranogwyr economaidd anweithgar. Gallai natur wirfoddol y cynlluniau hyn ddangos – ar y sbectrwm anweithgarwch economaidd – y gallai'r cyfranogwyr ESF economaidd anweithgar fod wedi'u lleoli ar y pen 'parod am waith' ohono.
- 9.27 Yn bwysig yn hyn o beth yw'r cysyniad o'r darpar weithlu (ILO, 2019). Ar y cyfan, mae pobl economaidd anweithgar yn amrywio'n sylweddol o ran graddau eu hymlyniad i'r farchnad lafur. Fodd bynnag, ymhlith pobl economaidd anweithgar, bydd gan rai grwpiau ymlyniad cryfach i'r farchnad lafur. Cyfeirir atynt fel y 'darpar weithlu', ac mae'r grwpiau hyn yn cynnwysdarpar geiswyr gwaith a cheiswyr gwaith nad ydynt ar gael.
- 9.28 Gallai effaith amcangyfrifedig y gweithrediadau hyn ar gyfranogwyr economaidd anweithgar felly gael ei chwyddo'n ar i fyny os caiff eu canlyniadau cyflogaeth eu cymharu â'r boblogaeth economaidd anweithgar ehangach. Byddai angen gwybodaeth fanylach am amgylchiadau'r boblogaeth economaidd anweithgar a gefnogir gan y gweithrediadau hyn er mwyn cael gwell dealltwriaeth o amgylchiadau'r rhai sy'n cael eu cefnogi.

Yr effaith ar ddilyniant

- 9.29 Mae'r ymchwil yn taflu llai o oleuni ar ganlyniadau i'r rhai sydd eisoes mewn cyflogaeth ar ddechrau eu cyfranogiad mewn gweithrediad ESF oherwydd nad oes modd cynnal unrhyw werthusiad gwrthffeithiol o effaith ymhlith y grŵp hwn. Serch hynny, mae'r Arolygon o Gyfranogwyr ESF yn dal i ddarparu gwybodaeth gyfoethog am ganfyddiadau cyfranogwyr ynghylch yr agweddau newidiol ar eu swyddi a'r rhan y mae'r ESF yn ei chwarae yn hyn.
- 9.30 Roedd tua 4 o bob 10 (39 y cant) o'r rhai a gynorthwywyd gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi dilyniant yn gyflogedig mewn rôl wahanol o gymharu â'r rôl a

ddelid cyn ymgymryd â gweithrediad ESF. Roedd chwarter yn gweithio i gyflogwr gwahanol o gymharu â'u sefyllfa cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF.

- 9.31 Dywedodd mwy na hanner (53 y cant) o'r cyfranogwyr ESF naill ai bod y cwrs wedi eu helpu i gael eu swydd bresennol (45 y cant) neu eu bod wedi cael eu swydd bresennol yn uniongyrchol oherwydd y cwrs (9 y cant). Roedd y canfyddiadau hyn eto'n uwch ymhlith y rhai a oedd wedi ennill cymhwyster drwy gymryd rhan mewn gweithrediad ESF ac yn cynyddu mewn cysylltiad â lefel y cymhwyster a enillwyd.
- 9.32 Nododd llawer o'r cyfranogwyr eu bod wedi profi rhyw fath o welliant yn eu swyddi.
- 9.33 Roedd cyfran y cyfranogwyr ESF a gyflogwyd ar contractau nad oeddent yn barhaol, yn gweithio'n rhan-amser ac, ar ben hynny, yn gweithio'n rhan-amser ar sail anwifoddol yn is yn dilyn cefnogaeth ESF.
- 9.34 Nododd llawer o'r cyfranogwyr fod nodweddion eu swyddi wedi gwella o gymharu â'u sefyllfa gynt. Nododd mwy na thraean (36 y cant) fod eu swyddi'n gofyn am lefelau uwch o sgiliau a chymwyseddau. Roedd chwarter mewn rôl a oedd yn gofyn am gymhwyster lefel uwch, a nododd mwyn na 41 y cant fod eu lefelau cyfrifoldeb wedi cynyddu.
- 9.35 Nododd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr a gefnogwyd gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at bobl mewn cyflogaeth fod ansawdd eu swyddi wedi gwella. Y gwelliannau a adroddwyd amlaf yn ansawdd swyddi oedd cael mwy o foddhad mewn swydd (71 y cant), cael codiad cyflog (70 y cant) a bod â gwell rhagolygon cyflog a dyrchafiad (70 y cant). Roedd y rhai a oedd wedi ennill cymwysterau drwy gymryd rhan mewn gweithrediad ESF yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi profi'r gwelliannau hyn yn ansawdd swyddi.
- 9.36 Nododd bron i dri chwarter (74 y cant) o'r cyfranogwyr fod y gwelliannau hyn mewn ansawdd swyddi naill ai oherwydd y cwrs yn uniongyrchol (12 y cant) neu fod y cwrs wedi helpu (62 y cant). Roedd cyfranogwyr unwaith eto yn fwy tebygol o briodoli gwelliannau i ansawdd swyddi i gefnogaeth ESF os oeddent wedi ennill cymhwyster o ganlyniad i'w cyfranogiad.

Effaith COVID-19

- 9.37 Effaith pandemig COVID-19 oedd tarfu'n aruthrol ar gyflawni llawer o ymyriadau ESF, a golygodd y bu angen gwneud newidiadau sylfaenol a chyflym mewn arferion gweithredu. Mae'r Arolygon o Gyfranogwyr yn rhoi cipolwg gwerthfawr o ran sut yr

effeithiodd pandemig COVID-19 ar y gwaith o gyflawni'r gweithrediadau hyn. Nododd bron i draean o'r cyfranogwyr (30 y cant) y bu llai o gyswllt wyneb yn wyneb wrth ddarparu eu gweithrediad oherwydd COVID-19, gyda rhan neu'r cyfan o'u cwrs yn cael ei ddarparu o bell.

- 9.38 Ymhlith y rhai nad oeddent mewn cyflogaeth cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF ac a gafodd gefnogaeth gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi cyfranogiad, nododd bron i 6 o bob 10 (57 y cant) nad oedd pandemig COVID-19 wedi gwneud gwahaniaeth i'w dilyniant wedi hynny. Fodd bynnag, dywedodd 38 y cant fod y pandemig wedi gwneud pethau'n anos. Roedd tua hanner y grŵp hwn wedi priodoli eu hymateb i amodau anos yn y farchnad lafur.
- 9.39 Ymhlith y rhai a oedd mewn cyflogaeth cyn iddynt gymryd rhan mewn gweithrediad ESF ac a oedd wedi cael eu cynorthwyo gan weithrediadau a oedd wedi'u hanelu at gefnogi dilyniant, nododd dros 7 o bob 10 (71 y cant) nad oedd pandemig COVID-19 wedi dylanwadu ar eu dilyniant ar ôl cymryd rhan mewn gweithrediad ESF. Ymhlith y pumed (21 y cant) o'r cyfranogwyr a ddywedodd fod y pandemig wedi gwneud pethau'n anos, unwaith eto roedd tua hanner wedi priodoli eu hymateb i amodau anos yn y farchnad lafur.
- 9.40 Y rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd gan y rhai a ddywedodd fod pethau wedi mynd yn anos oedd bod y pandemig wedi cael effaith wael ar y diwydiant yr oeddent eisiau gweithio ynddo (24 y cant) a bod yn llai o swyddi o gwmpas yn gyffredinol (22 y cant).

Gwerthusiadau o raglenni'r farchnad lafur yn y dyfodol

- 9.41 Mae'r Arolwg o Gyfranogwyr ESF yn cynnig cipolwg manwl ar nodweddion, profiadau, a chanlyniadau'r cyfranogwyr ESF a adawodd eu darpariaeth rhwng 2015 a 2022. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau cynnal arolygon gyda chyfranogwyr ESF wedi'u cydnabod. Gall cymryd rhan mewn arolygon ffôn fod yn fwy heriol i grwpiau sy'n anos eu cyrraedd (Bryer, 2019).
- 9.42 Mae problemau cofio yn arbennig o bwysig ar gyfer yr Arolwg o Gyfranogwyr ESF, lle gofynnwyd i lawer o ymatebwyr gofio'u hamgylchiadau 2-3 blynedd cyn dyddiad eu cyfweiliad. Roedd yn ymddangos bod yr wybodaeth a ddarparwyd gan rai o'r ymatebwyr yn groes i'r meini prawf cymhwysra ar gyfer y gweithrediadau a oedd yn destun y cyfweiliadau.

- 9.43 Er mwyn hwyluso'r gwaith o gynnal Asesiad Gwrthffeithiol o Effaith ymyriadau'r farchnad lafur a gefnogir gan yr ESF, mae'r Arolwg o Gyfranogwyr wedi'i gynllunio i gyd-fynd yn fras â data a gasglwyd o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Ategwyd y defnydd o dechnegau Asesiad Gwrthffeithiol o Effaith hefyd gan gynnwys adran hanes cyflogaeth a all fod yn arbennig o heriol i gyfranogwyr o ran cofio ac sy'n anodd i gyfwelwyr ei gweinyddu dros y ffôn.
- 9.44 Mae cyfuno data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'r Arolwg o Gyfranogwyr ESF hefyd yn broblemus o ran anghysondebau wrth gynllunio holiaduron ac effeithiau dulliau. Gallai'r anawsterau hyn gael eu gwaethygu ymhellach gan newidiadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd gan y SYG o ran y gwaith o ddatblygu'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur wedi'i Drawsnewid mewn ymateb i gyfraddau ymateb i arolygon sy'n gostwng, yn enwedig yn dilyn y pandemig. Wrth symud ymlaen, efallai na fydd y technegau Asesiad Gwrthffeithiol o Effaith a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn ddichonadwy mwyach.
- 9.45 Felly bydd yn rhaid i werthusiadau o raglenni'r farchnad lafur yn y dyfodol ddibynnu mwy ar y defnydd o ddata gweinyddol. I gefnogi hyn, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi datblygu Labordy Data Cyflogaeth, gwasanaeth sy'n darparu asesiadau effaith o raglenni cyflogaeth ar sail dadansoddiadau o ddata budd-daliadau. Fel arall, gellid gwneud y data hyn ar gael drwy Ymchwil Data Gweinyddol – Cymru, sy'n darparu mecanweithiau ar gyfer cysylltu data gweinyddol ar lefel unigol a'i wneud yn hygyrch at ddibenion ymchwil. Mae'n bwysig bod gwerthusiadau o ymyriadau'r farchnad lafur yn y dyfodol yn cadw i fyny â datblygiadau yn y maes hwn.

10. Cyfeiriadau

